Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Herio bwlio

Hawliau, parch, cydraddoldeb: Canllawiau statudol ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

Hawliau, parch, cydraddoldeb: Canllawiau statudol ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir

Cynulleidfa

Llywodraethwyr ysgolion; ysgolion[1]; awdurdodau lleol; awdurdodau esgobaethol; gweithwyr cymdeithasol; gweithwyr proffesiynol gofal iechyd; Estyn; yr heddlu; sefydliadau gwirfoddol a sefydliadau'r trydydd sector sy'n ymwneud â phlant ysgol a phobl ifanc, a lles a diogelu dysgwyr; rhieni/gofalwyr; plant a phobl ifanc.

Trosolwg

Mae'r ddogfen hon yn rhan o gyfres o ddogfennau canllawiau statudol a chynghorol sy'n darparu gwybodaeth ar gyfer pawb sy'n ymwneud ag atal a herio bwlio mewn ysgolion. Mae pob dogfen yn y gyfres hon yn darparu cyngor teilwredig wedi'i anelu'n benodol at gynulleidfaoedd allweddol. Mae'r canllawiau statudol hyn yn darparu canllawiau statudol a chyngor ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir.

Mae'r canllawiau hyn yn disodli: Parchu eraill: canllawiau gwrth-fwlio (cylchrediadau 2003 a 2011).

Camau i'w cymryd

Dylid dwyn y canllawiau statudol hyn i sylw llywodraethwyr ysgolion a phob rheolwr, pob aelod o staff a phob gweithiwr proffesiynol perthnasol sy'n gweithio mewn amgylchedd ysgol i gynorthwyo i ddatblygu a gweithredu polisïau a strategaethau gwrth-fwlio. Mae'n rhaid i gyrff llywodraethu roi sylw dyledus i'r canllawiau statudol hyn wrth arfer eu swyddogaethau ynghylch y gwaith o redeg ysgol a gwneud trefniadau ar gyfer diogelu a hybu llesiant plant a phobl ifanc sy'n ddysgwyr yn yr ysgol. Bydd yn rhaid i gyrff llywodraethu ystyried y canllawiau statudol hyn wrth arfer eu swyddogaethau ynghylch hybu ymddygiad da a disgyblaeth mewn ysgolion.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Cangen Cefnogi Cyflawniad a Diogelu
Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: CCD.SAS@llyw.cymru

@LlC_Addysg

Facebook/AddysgCymru

[1] Gweler 'Termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon' i weld y diffiniad o ysgol.

OGL © Hawlfraint y Goron 2019 WG36832 ISBN digidol 978 1 83876 913 0

Copïau ychwanegol

Mae'r ddogfen hon ar gael o wefan Llywodraeth Cymru yn
llyw.cymru/canllawiau-gwrth-fwlio

Dogfennau cysylltiedig

Cynnwys a chynorthwyo disgyblion (2016)
Cadw dysgwyr yn ddiogel (2015)
Meddwl yn gadarnhaol: Iechyd a lles emosiynol mewn ysgolion a lleoliadau Blynyddoedd Cynnar (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2010)
Pecyn Cymorth Gweithredu Cwnsela Mewn Ysgolion (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2011)
Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008: Canllawiau Statudol ynghylch y Cod Ymddygiad wrth Deithio ar gyfer Cymru Gyfan (2017)

Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidog **5**

Termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon **6**

1. Cyflwyniad **12**
Cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir 14
Grym iaith 15

2. Beth yw bwlio? **16**
Diffinio ymddygiad bwlïaidd 16
Pwysigrwydd cael diffiniad clir o fwlio 17
Elfennau nodweddiadol ymddygiad bwlïaidd 17
Sut caiff bwlio ei fynegi? 18
Bwlio a diogelu 19
Beth sydd ddim yn fwlio? 19
Pa gymhellion sy'n sail i weithredoedd bwlïaidd? 20

3. Bwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn **22**
Rhagfarn yn ei gyd-destun 22
Mathau penodol o fwlio sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig 24
Bwlio sy'n ymwneud â dysgwyr sydd ag anableddau a/neu AAA – diffinio anabledd ac AAA 24
Materion allweddol i ddysgwyr ag anableddau a/neu AAA sy'n profi bwlio 24
Cyfeillgarwch amodol 25
Ecsbloetiol 25
Ystrywgar 26
Model cymdeithasol 26
Bwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig 27
Materion allweddol ar gyfer dysgwyr LGBT sy'n profi bwlio 27
Sylwadau sarhaus homoffobig, deuffobig a thrawsffobig a ddefnyddir yn lle sylwadau sarhaus eraill neu'n anuniongyrchol 27
Bwlio rhywiaethol a rhywiol 28
Bwlio sy'n gysylltiedig â hil, crefydd a diwylliant 29
Mathau o hiliaeth 30

4. Bwlio ac ymosodedd ar-lein **32**
Pam mae bwlio ar-lein yn unigryw o ran ei allu i beri gofid 33
Beth yw rôl ysgolion? 33

5. Y gyfraith sy'n ymwneud â bwlio **36**
Deddf Hawliau Dynol 1998 37
Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) 38
Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 38
Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl (CCUHPA) 38
Deddf Addysg 2002 39
Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 39
Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 40
Deddf Cydraddoldeb 2010 41
Deddfwriaeth tramgwyddau troseddol 42
Deddf Cyfathrebu Maleisus 1988 42
Deddf Gwarchod rhag Aflonyddu 1997 42
Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 43

6. Strategaethau gwrth-fwlio effeithiol **44**
Beth sy'n llwyddo wrth lansio strategaethau newydd? 44
Sut bydd ysgol yn gwybod bod ei strategaeth yn effeithiol? 46
Pam mae'n bwysig cynnwys dysgwyr yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu strategaeth gwrth-fwlio? 47
Pam mae'n bwysig cynnwys rhieni/gofalwyr yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu strategaeth gwrth-fwlio? 48
Ymddygiad oddi allan i'r ysgol 49
Ymdrin ag achosion o gamymddwyn yn yr ysgol ac oddi allan i'r ysgol 49
Cynnwys holl staff yr ysgol yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu'r strategaeth gwrth-fwlio 51

7. Llywodraethu **52**
Polisi 52
Sicrhau bod y polisi yn effeithiol 53

8. Atal **56**
Cynllunio: beth mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion ei ystyried? 56
Cyfathrebu effeithiol 56
Teilwra ymyriadau 57
Dulliau cwricwlaidd 57

9. Ymateb pan fydd bwlio yn digwydd **60**
Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd gwaith yn digwydd gyda phawb 61
Dulliau o roi gwybod am fwlio 61
Gwrando effeithiol 62
Ystyriwch y lleoliad 62
Cadw tystiolaeth 62

10. Mathau penodol o ymyriad **64**
Beth sy'n digwydd pan na fydd yr ymyriad yn llwyddo? 66
Pan fydd ymyriadau yn methu neu'n cael trafferth sicrhau effaith 66
Hawl rhieni/gofalwyr i uwchgyfeirio'r mater 67

11. Gwerthuso ac atebolrwydd **68**
Rhoi gwybod am fwlio a chofnodi a monitro hynny 68

Atodiad **72**
Ble gellir canfod rhagor o gyngor a chymorth 72
Bwlio 72
Llinellau cymorth a gwasanaethau cymorth 72
Cyffredinol 72
Plant a phobl ifanc 72
Rhieni/gofalwyr 73
Ysgolion/gweithwyr proffesiynol 73
Rhwydweithiau cyngor a chymorth 73
Cyffredinol 73
Plant a phobl ifanc 74
Rhieni/gofalwyr 74
Adnoddau ar gyfer ysgolion 74
Eraill 74
Materion ar-lein 74

Rhagair gan y Gweinidog

Mae herio bwlio mewn ysgolion yn flaenoriaeth allweddol i'r llywodraeth hon. Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod ein holl ddysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn cael eu cynorthwyo i gyflawni eu potensial llawn. Mae gan bob person ifanc hawl i gael addysg ac i gael ei drin yn gyfartal.

Fel llywodraeth, rydym yn parhau i ymrwymo i herio bwlio yn gyfannol. Cyflawnir hyn trwy fynd i'r afael ag achosion sylfaenol ymddygiad annerbyniol a chreu amgylchedd cynhwysol ac atyniadol, gan roi blaenoriaeth i les i sicrhau bod dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn barod i ddysgu. Mae'n hanfodol bod plant a phobl ifanc yn cael eu haddysgu, gartref ac yn yr ysgol, ynghylch datblygu a chynnal perthnasoedd parchus; dyma'r conglfaen sy'n sail i ymddygiad cadarnhaol.

Mae angen i bawb ohonom ni sicrhau bod gwerthoedd parch, goddefgarwch a charedigrwydd yn rhan o gymunedau a diwylliannau ein hysgolion.

Rwy'n benderfynol bod yn rhaid i ni herio pob math o fwlio yn ein system addysg a dyna pam mae 'Hawliau, parch a chydraddoldeb' yn ganllawiau statudol. Mae'r canllawiau ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir ac awdurdodau lleol sydd â chyfrifoldeb am ddiogelwch, lles ac addysg pobl ifanc. Mae'n rhan o gyfres o ganllawiau sy'n cynnwys cyngor a chymorth yn uniongyrchol i blant, pobl ifanc a'u rhieni/gofalwyr.

Dim ond trwy gydweithio i gyflawni'r nod cyffredin hwn y gallwn ni wneud gwahaniaeth go iawn a lleihau bwlio yn ein hysgolion.



Kirsty Williams AC
Y Gweinidog Addysg

Termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon

At ddibenion y canllawiau statudol hyn, diffinnir y termau canlynol.

Anghenion addysgol arbennig (AAA)

Mae gan blant a phobl ifanc anghenion addysgol arbennig os oes ganddynt anhawster dysgu sy'n golygu bod angen gwneud darpariaeth addysgol arbennig ar eu cyfer. Mae gan blant a phobl ifanc anhawster dysgu:

(a) os ydynt yn wynebu anhawster wrth ddysgu sydd gryn dipyn yn waeth na'r hyn a wynebir gan y mwyafrif o blant a phobl ifanc o'r un oed

(b) os oes ganddynt anabledd sy'n eu hatal neu'n eu rhwystro rhag defnyddio cyfleusterau addysgol o'r fath a ddarperir yn gyffredinol ar gyfer plant a phobl ifanc o'r un oed mewn ysgolion yn ardal yr awdurdod lleol

(c) os ydynt o dan oedran ysgol gorfodol ac yn cyd-fynd â'r diffiniadau yn (a) neu (b) uchod neu byddent yn cael eu diffinio yn y fath fodd pe na bai darpariaeth addysgol arbennig yn cael ei sicrhau ar eu cyfer.

Mae darpariaeth addysgol arbennig yn golygu:

(a) yn achos plant neu bobl ifanc sy'n ddwy oed neu'n hŷn, darpariaeth addysgol sy'n ychwanegol at neu mewn ffyrdd eraill yn wahanol i'r ddarpariaeth addysgol sydd ar gael yn gyffredinol ar gyfer plant neu bobl ifanc o'r un oedran mewn ysgolion (ac eithrio ysgolion arbennig) a gynhelir gan yr awdurdod lleol yn yr ardal

(b) yn achos plant sydd dan ddwy oed, unrhyw fath o ddarpariaeth addysgol.

(Gweler adran 312 y Ddeddf Addysg 1996.)

Anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

Anhawster dysgu neu anabledd (p'un ai a yw'r anhawster dysgu yn deillio o gyflwr meddygol neu beidio), sy'n golygu bod angen darpariaeth addysgol ychwanegol (gweler adran 2 y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018).

Anabledd a pherson anabl

Mae gan unigolyn anabledd a) os oes gan yr unigolyn nam corfforol neu feddyliol, a b) os yw'r nam yn cael effaith andwyol sylweddol a hirdymor ar allu'r unigolyn i gyflawni gweithgareddau beunyddiol arferol. Mae cyfeiriad at berson anabl yn gyfeiriad at berson sydd ag anabledd (gweler adran 6 y Ddeddf Cydraddoldeb 2010).

Arwahanrwydd

Mae'n cyfeirio at fod neu deimlo'n wahanol o ran golwg neu gymeriad i'r hyn sy'n gyfarwydd, yn ddisgwyliedig neu'n cael ei dderbyn yn gyffredinol.

Bwlio ar-lein

Mae'n disgrifio pob math o fwlio sy'n digwydd trwy gyfrwng technoleg, a chaiff ei alw yn seiberfwlio hefyd.

Bwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn

Mae'n cyfeirio at unrhyw fath o fwlio sy'n gysylltiedig â'r nodweddion sy'n cael eu hystyried yn rhan o hunaniaeth unigolyn neu'r grŵp y canfyddir ei fod yn perthyn iddo. Mae bwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn yn cynnwys y nodweddion gwarchodedig ond mae hefyd yn gallu ymestyn y tu hwnt i'r nodweddion hynny a gall arwain at fwlio oherwydd amrywiaeth o resymau eraill megis statws cymdeithasol a chefndir.

Cyfeiriadedd rhywiol

Mae'n disgrifio'r atyniad rhywiol, rhamantus neu emosiynol y bydd unigolyn yn ei deimlo at rywun arall. Efallai y bydd pobl yn defnyddio'r termau hoyw, deurywiol, lesbiad neu 'strêt' i ddisgrifio eu cyfeiriadedd rhywiol.

Cyfianwder adferol

Mae dull adferol yn ffordd o fynd i'r afael â gwrthdaro gan ganolbwyntio ar drwsio'r niwed a wnaed. Mae'n cynnwys pob parti perthnasol.

Dyletswydd Cydraddoldeb y sector cyhoeddus

Dyma'r ddyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus i ystyried (o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010) rhoi sylw dyledus i'r angen i:

(a) ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth ac unrhyw ymddygiad arall a waherddir o dan y Ddeddf honno

(b) hybu cyfle cyfartal rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion sydd heb y nodwedd honno

(c) meithrin perthnasoedd da rhwng unigolion sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol ac unigolion sydd heb y nodwedd honno.

Estyn

Arolygiaeth addysg a hyfforddiant Cymru. Mae'n darparu gwasanaeth arolygu a chynghori annibynnol ar ansawdd a safonau'r addysg a'r hyfforddiant a ddarperir yng Nghymru.

Gwyliedydd

Rhywun sy'n bresennol, p'un ai a fydd hynny ar-lein neu all-lein, yn ystod digwyddiad bwlio, ond ni fydd yn cyfranogi.

Hil

Mae'n cynnwys lliw, cenedligrwydd a tharddiad ethnig neu genedlaethol (gweler adran 9 y Ddeddf Cydraddoldeb 2010).

Hunaniaeth o ran rhywedd

Mae'n cyfeirio at ystyr mewnol unigolyn o'i ryw ei hun, boed hynny'n wrywaidd, yn fenywaidd neu'n rhywbeth arall (e.e. anneuaidd). Nid yw hunaniaeth pobl o ran rhywedd bob amser yn cyd-fynd â'r rhyw a bennwyd iddynt ar adeg eu geni (gweler 'trawsryweddol/traws').

LGBT

Mae'n cyfeirio at bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol/traws.
Gellir ychwanegu llythrennau eraill at yr acronym i gynnwys grwpiau a hunaniaethau eraill, megis, I (rhyngrywiol), Q ('queer' neu'n cwestiynu) ac A (anrhywiol/anrhamantaidd).

Nodweddion gwarchodedig

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae'n anghyfreithlon gwahaniaethu yn erbyn rhywun oherwydd: oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; priodas a phartneriaeth sifil; beichiogrwydd a mamolaeth; hil; crefydd neu gred; rhyw; cyfeiriadedd rhywiol. Gelwir y rhain yn nodweddion gwarchodedig.

Plant a phobl ifanc

Pobl dan 18 oed, yn unol â'r diffiniad o 'blant' yn Neddf Plant 1989.

Rhywedd

Bydd yn cael ei ddefnyddio'n aml i ddweud a rhywun yn ystyried ei hunaniaeth yn fenywaidd, yn wrywaidd neu'n anneuaidd (gweler 'hunaniaeth o ran rhywedd').
Gellir ei ddefnyddio'n ehangach hefyd i gyfeirio at sut mae grymoedd cymdeithasol a diwylliannol yn creu gwahaniaethau ac anghydraddoldebau rhwng menywod, dynion a phobl anneuaidd, gan gynnwys trwy normau cymdeithasol, rolau rhywedd a stereoteipiau rhywedd.

Rhyw

Caiff ei bennu i unigolyn ar sail ei nodweddion rhyw sylfaenol (organau cenhedlu) a'i swyddogaethau atgenhedlu. Nid yw hunaniaeth pobl o ran rhywedd bob amser yn cyd-fynd â'r rhyw a bennwyd iddynt adeg eu genedigaeth (gweler 'trawsryweddol/traws'). Weithiau, defnyddir y termau 'rhyw' a 'rhywedd' yn gyfnewidiol i nodi a yw rhywun yn fenywaidd, yn wrywaidd neu'n anneuaidd.

Targedau

Mae'n yn cyfeirio at blant a phobl ifanc sy'n cael eu bwlio.

Tramgwyddwr

Mae'n cyfeirio at blant a phobl ifanc sy'n ymddwyn yn fwlïaidd tuag at eraill.

Trawsryweddol/traws

Term ymbarél i ddisgrifio pobl nad yw eu rhywedd yr un fath â'r rhyw a bennwyd iddynt ar adeg eu genedigaeth, neu bobl sy'n teimlo'n anfodlon â'r rhyw a bennwyd iddynt ar adeg eu genedigaeth.

Trosedd casineb

Term y gellir ei ddefnyddio i ddisgrifio amrywiaeth o ymddygiad troseddol pan gaiff y tramgwyddwr ei symbylu gan elyniaeth neu phan fydd yn dangos gelyniaeth tuag at un o nodweddion y targed, a gallai hynny gynnwys anabledd, hil, crefydd, cyfeiriadedd rhywiol neu hunaniaeth ryweddol y targed. Gall trosedd casineb gynnwys difenwi geiriol, codi ofn, bygythiadau, aflonyddu, ymosod a bwlio, yn ogystal â difrodi eiddo. Gall y tramgwyddwr hefyd fod yn ffrind, yn ofalwr neu'n gydnabod sy'n cam-fanteisio ar y berthynas â'r targed er mwyn budd ariannol neu oherwydd rhyw fath o ddiben troseddol arall.

Ysgol

Mae'n golygu sefydliad addysgol oddi allan i'r sector addysg bellach a'r sector addysg uwch a sefydliad sy'n darparu:

(a) addysg gynradd

(b) addysg uwchradd

(c) addysg gynradd ac uwchradd

p'un ai a yw'r sefydliad hefyd yn darparu addysg ran-amser sy'n addas i ofynion dysgwyr iau neu addysg bellach.

Statws y canllawiau hyn

Mae'r canllawiau hyn yn rhai statudol. Mae Gweinidogion Cymru wedi arfer eu pwerau yn adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 (dyletswyddau awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu mewn perthynas â llesiant plant) ac adran 88 Deddf Addysg ac Arolygon 2006 (cyfrifoldeb corff llywodraethu dros ddisgyblaeth) i gyhoeddi'r canllawiau hyn. Mae'n rhaid i gyrff llywodraethu roi sylw dyledus i'r canllawiau statudol hyn wrth arfer eu swyddogaethau ynghylch y dull o reoli ysgol a gwneud trefniadau ar gyfer diogelu a hybu llesiant plant a phobl ifanc sy'n ddysgwyr yn yr ysgol ac wrth arfer eu swyddogaethau o ran hybu ymddygiad da a disgyblaeth dda mewn ysgolion.

Mae'r canllawiau statudol hyn yn cyfeirio at ddyletswyddau cyfreithiol, ac at faterion y mae'n rhaid i unigolion roi sylw iddynt. Mae'n nodi disgwyliad Llywodraeth Cymru, yn amlinellu arferion da ac yn gwneud argymhellion. Yn y canllawiau hyn, mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r termau canlynol i nodi statws pwynt a wneir yn y canllawiau statudol hyn.

- 'Mae'n rhaid' – mae hyn yn golygu bod dyletswydd gyfreithiol i gyflawni camau gweithredu penodol neu beidio gwneud rhywbeth penodol.
- 'Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl' – mae hyn yn golygu bod Gweinidogion Cymru wedi nodi cyfres o gamau gweithredu neu ddull o weithredu ac maent yn disgwyl y byddir yn cadw at hynny. Dylai ysgolion gadw at y camau gweithredu neu'r dull gweithredu oni bai y byddant yn nodi rheswm da dros weithredu'n groes i hynny, a gellir gofyn iddynt gyfiawnhau hynny i Weinidogion Cymru, ombwdsmyn, comisiynwyr annibynnol neu bartïon eraill o'r fath.
- 'Mae Llywodraeth Cymru yn argymell' – mae hyn yn golygu bod Gweinidogion Cymru wedi nodi cyfres o gamau gweithredu neu ddull o weithredu ac maent yn disgwyl y byddir yn cadw at hynny. Dylai ysgolion ystyried yr argymhelliad ond mater iddynt hwy fel y gwelant yn ddoeth yw dewis cadw at y camau neu'r dull gweithredu argymelledig neu beidio.
- 'Mae Llywodraeth Cymru yn cynghori' – mae hyn yn golygu bod Gweinidogion Cymru wedi amlinellu cyngor i ysgolion ynghylch materion yn ymwneud â bwlio.


PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

1 Cyflwyniad

1.1 Er gwaethaf gwaith gan ysgolion a gwasanaethau eraill yn ogystal â mentrau gan lywodraeth leol a llywodraethau Cymru a'r DU, mae bwlio yn broblem sy'n parhau i beri pryder enbyd i lawer. Mae mannau ar-lein a chyfryngau cymdeithasol wedi cynnig dulliau a chyfleoedd newydd i fwlio eraill.

1.2 Canfuwyd mai'r Deyrnas Unedig yw un o'r gwledydd gwaethaf o ran boddhad plant a phobl ifanc â'u bywyd, a chyfeirir at fwlio fel un o'r pethau sy'n achosi hyn[2]. Gall ymddygiad bwlïaidd fod yn arwydd o anfanteision eraill sy'n bodoli ym mywyd plentyn neu berson ifanc, sy'n adlewyrchu diffyg boddhad yn gyffredinol â bywyd[3].

1.3 Mae bwlio yn ymddygiad dynol ymosodol cyffredin a gall hynny gael ei ddylanwadu gan ofni eraill sy'n wahanol, dicter, rhagfarn neu ddial. Mewn rhai achosion, mae bwlio yn ymddygiad hunanamddiffynol sydd wedi'i ddysgu. Gall ffactorau ac agweddau yn y newyddion ac ar y cyfryngau, yn y gymuned, mewn teuluoedd ac ym mhawb ohonom ni, danio'r awydd i fwlio eraill.

1.4 Yn sgil bygythiadau digidol cynyddol a rhagfarnau ehangach a gaiff eu mynegi ar-lein ac all-lein, mae rhoi pwyslais ar herio bwlio yn bwysicach efallai nag erioed o'r blaen. Yng Nghymru a Lloegr, mae cynnydd yn nifer achosion o droseddau casineb sy'n cael eu hadrodd[4] sy'n dangos bod angen herio gwahaniaethu. Mae miloedd o blant a phobl ifanc yng Nghymru wedi dweud fod bwlio yn dal yn flaenoriaeth bennaf iddynt[5]. Mae'n effeithio ar gymaint ohonynt, a dyna yw un o'r rhesymau pam bydd bwlio yn aml ar frig rhestrau o bryderon pennaf mewn arolygon. Mae galwadau gan blant a phobl ifanc am gamau gweithredu gan oedolion yn cael eu hategu gan ystod o waith ymchwil, sy'n amlygu effeithiau dinistriol a pharhaol posibl bwlio: nid yn unig ar dargedau ond ar dramgwyddwyr bwlio a gwyliedyddion hefyd. Gall effeithiau difrifol fod yn rhai tymor hir, gan gynnwys iechyd meddwl gwael a gwaethygu lles.

1.5 Gall bwlio hefyd wneud i blant a phobl ifanc deimlo'n unig ac wedi'u hynysu yn gymdeithasol. Mae'r dystiolaeth gynyddol am brofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs) yn dangos sut gall profiadau plentyndod effeithio'n sylweddol ar allu unigolyn i sefydlu a chynnal perthnasoedd yn ystod plentyndod neu gyfnod llencyndod, ynghyd â'r effeithiau sy'n para am gyfnod sylweddol a hyd nes bydd rhywun yn oedolyn. Dyma pam mae mor bwysig sicrhau fod plant yn cael profiadau cadarnhaol o berthnasoedd.

1.6 Ym mis Gorffennaf 2018, adroddodd y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC) fod Childline wedi cynnal 4,636 o sesiynau cwnsela yn ymwneud ag unigrwydd yn 2017–18; cynnydd o 14 y cant ers y flwyddyn flaenorol. Cafodd merched bron iawn 8 o bob 10 o'r sesiynau cwnsela. Y rhesymau mwyaf cyffredin a nodwyd dros eu teimladau cynyddol o unigrwydd oedd bwlio, anawsterau iechyd meddwl a defnydd o gyfryngau cymdeithasol. Gellir gweld

---

2 Prosiect Children's Worlds www.isciweb.org (Saesneg yn unig)

3 Cymdeithas y Plant *The Good Childhood Report 2017* www.childrenssociety.org.uk/what-we-do/resources-and-publications/the-good-childhood-report-2017 (Saesneg yn unig)

4 Mae ystadegau'r Swyddfa Gartref yn dangos cynnydd o 15 y cant mewn troseddau casineb a gofynodwyd ledled Cymru o'i gymharu â 2016–17 – gweler www.gov.uk/government/statistics/hate-crime-england-and-wales-2017-to-2018 (Saesneg yn unig).

5 Yn 2016, dywedodd plant a phobl ifanc wrth Gomisiynydd Plant Cymru bod bwlio yn dal yn flaenoriaeth bennaf iddynt.

hyn hefyd yn *A place to belong*, adroddiad a gyhoeddwyd yn Saesneg yn unig gan UK Youth yn 2018. Yn ôl yr adroddiad hwn, pan ofynnwyd i weithwyr ieuenctid nodi prif achosion unigrwydd ymhlith ieuenctid, bwlio oedd un o'r tri ateb mwyaf niferus a gafwyd ganddynt (83 y cant)[6].

1.7 Gall stigma a chamwahaniaethu ynghylch afiechyd meddwl achosi bwlio; fodd bynnag, yn yr un modd, gall bwlio gyfrannu at y sawl sy'n cael ei dargedu yn datblygu iechyd meddwl a lles gwael. Bydd mynd i'r afael ag achos gwreiddiol bwlio yn aml yn digwydd cyn gwella lles meddyliol y plentyn neu'r person ifanc.

1.8 Os bydd bwlio yn amlwg mewn ysgol, ni fydd yr un dysgwr yn gallu mwynhau ei hawliau yn llawn o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), gan gynnwys bod yn ddiogel a chael addysg[7].

1.9 Mae ymddygiad bwlïaidd yn:

- niweidio'r holl unigolion sy'n ymwneud â hynny
- dod yn ganolbwynt profiad dysgwr o'i fywyd beunyddiol
- tanseilio diogelwch, lles a chyrhaeddiad
- niweidio ethos yr ysgol
- andwyol i'r ysgol a'r gymuned ehangach
- effeithio ar wyliedyddion a'r sawl sy'n gwybod ei fod yn gyffredin yn eu hysgol.

1.10 Bydd dysgwyr newydd yn dod yn rhan o fyd cymdeithasol ysgolion bob blwyddyn a bydd mathau newydd o fwlio hefyd yn datblygu'n ddiddiwedd. Mewn amgylchedd ble mae diddordebau a gweithgareddau plant a phobl ifanc yn newid, â chymorth technoleg newydd, nid yw hyn yn syndod. Dyna pam mae angen i ni adnewyddu ein hymdrechion yn gyson i ddeall a herio'r ymddygiad cymhleth hwn a gwerthuso ein gwaith. Mae'n bwysig cofio na fydd y rhan fwyaf o blant yn bwlio eraill ac y gall ymddygiad gofalgar a chadarnhaol ddod yn rhywbeth arferol os datblygir y diwylliant priodol mewn ysgol.

1.11 Bydd ysgolion effeithiol yn mynd ati i atal pob math o fwlio ac i liniaru ei effeithiau pan fydd yn digwydd. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob ysgol fabwysiadu'r dull hwn. Mae hyn yn cynnwys addysgu plant a hyfforddi staff am barch, ymddygiad cadarnhaol, stereoteipiau a mynd i'r afael a rhagfarn, ennyn hyder i herio iaith annerbyniol a mynd i'r afael â hynny yn unol â phrotocolau'r ysgol. Mae hefyd yn golygu goruchwylio effeithiol rhwng gwersi, a darparu mannau diogel ar gyfer dysgwyr bregus yn ystod y cyfnodau hyn.

1.12 Mae'r ddogfen hon yn rhan o gyfres o ganllawiau statudol a chynghorol sy'n trafod swyddogaethau a chyfrifoldebau cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir, staff ysgolion, awdurdodau lleol, rhieni/gofalwyr yn ogystal â phlant a phobl ifanc.

---

6 https://ukyouth.org/wp-content/uploads/2018/08/A-Place-To-Belong-The-role-of-local-youth-organisations-in-addressing-youth-loneliness.pdf (Saesneg yn unig)

7 CCUHP, Erthyglau 19 a 28, y gwnaeth y Deyrnas Unedig eu llofnodi yn 1991.

1.13 I gyd-fynd â'r gyfres o ganllawiau, mae pecyn cymorth ar-lein ar gael sy'n cynnwys adnoddau i gynorthwyo i weithredu'r canllawiau ar lefel weithredol. Ble byddwch chi'n gweld y symbol canlynol yn y canllawiau hyn, bydd hynny'n dynodi bod adnoddau ar gael.

Cyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir

1.14 Mae cyrff llywodraethu ysgolion yn gyfrifol am sicrhau bod polisïau effeithiol yn eu lle i ddiogelu a hybu llesiant plant a phobl ifanc yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru ac am fonitro cydymffurfiaeth â'r canllawiau hynny.

1.15 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gyrff llywodraethu ysgolion a llywodraethwyr unigol weithredu yn onest ac yn gywir bob amser a bod yn barod i egluro eu gweithredoedd a'u penderfyniadau wrth staff, dysgwyr, rhieni/gofalwyr ac unrhyw un sydd â diddordeb dilys yn yr ysgol.

1.16 Bydd y corff llywodraethu yn penderfynu beth mae'n dymuno i'r ysgol ei gyflawni. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y dylai sefydlu'r fframwaith strategol trwy:

- bennu nodau ac amcanion ar gyfer yr ysgol
- mabwysiadu polisïau i gyflawni'r nodau a'r amcanion hynny
- gosod targedau i gyflawni'r nodau a'r amcanion hynny
- adolygu cynnydd tuag at gyflawni'r nodau a'r amcanion.

- *Llywodraeth Cymru: Canllaw i'r gyfraith i lywodraethwyr ysgolion*

hwb.gov.wales/playlists/view/57976d4f-7a52-4733-9bf6-c316120ea30e/cy/3

1.17 Bydd corff llywodraethu yr ysgol yn llunio datganiad o egwyddorion ar gyfer hybu ymddygiad cadarnhaol. Mae'n ofynnol i gyrff llywodraethu ysgolion ystyried canllawiau gan Lywodraeth Cymru wrth lunio ac adolygu'r datganiad ysgrifenedig ynghylch egwyddorion cyffredinol disgyblaeth mewn ysgol. Bydd y pennaeth yn defnyddio'r datganiad o egwyddorion hwn i arwain gwaith gyda chymuned gyfan yr ysgol i bennu'r mesurau manylach sy'n rhan o bolisi ymddygiad yr ysgol.

Grym iaith

1.18 Mae dadl yn digwydd ar hyn o bryd ynghylch yr iaith a ddefnyddir wrth drafod ymddygiad bwlïaidd. Mae defnyddio iaith sy'n cynnwys geiriau bwlïaidd neu eiriau ymosodol megis 'sathru', 'cicio allan' neu 'ymladd yn erbyn' bwlio yn cael ei herio. Ni phrofwyd bod hyn yn llwyddo i leihau bwlio yn effeithiol. Yn hytrach na hynny, mae'n atgyfnerthu'r syniad fod gan y sawl sy'n rymus rym dros y gwan, sy'n gwneud i ddysgwyr ddymuno bod yn aelod o'r grŵp 'pwerus' yn hytrach nag yn aelod o'r grŵp 'gwan'. Gall hyn annog aelodau gwannach o grwpiau i ddechrau bwlio rhai eraill sy'n wannach na hwy i geisio pwysleisio rhyw fath o oruchafiaeth. I'r gwrthwyneb, y nod yw creu cymuned barchus ble mae ei haelodau yn dysgu byw ochr yn ochr â'i gilydd gan ymddwyn yn llai ymosodol.

1.19 Wrth gyfeirio at y rolau sydd gan unigolion mewn digwyddiadau bwlio, mae'n well peidio labelu plant a phobl ifanc fel 'dioddefydd' neu 'fwli' oherwydd:

- bydd dysgwyr yn aml yn cael eu hannog i 'gasáu bwlio', a gall hynny gael ei ddehongli fel casáu unigolion sy'n bwlio. Mae'n label y gall plentyn neu berson ifanc ei fewnoli a cheisio'i wireddu, neu fe all lesteirio ei allu i newid ei ymddygiad. Trwy beidio â labelu rhywun yn fwli, bydd cyfle yn cael ei greu i'w helpu i newid ei ymddygiad annerbyniol a defnyddio ei rym neu ei allu i arwain trwy ddulliau eraill. Mae'n fuddiol gwahanu'r unigolion oddi wrth yr ymddygiad er mwyn caniatáu i'r unigolyn newid. Ni hoffir eu hymddygiad neu caiff ei ystyried yn annerbyniol, ond nid ydynt yn cael eu casáu fel unigolion
- gall labelu dysgwyr fel 'dioddefwyr' wreiddio eu 'harwahanrwydd' yn ddyfnach a sicrhau na fyddant yn cael eu derbyn gan eu cyfoedion. Byddant yn cael eu hystyried yn wan a bydd llawer o blant a phobl ifanc yn eu hosgoi rhag ofn iddynt hwythau gael eu hystyried yn yr un modd. Bydd rhai plant sy'n cael eu targedu yn dechrau credu mai hwy sydd ar fai os byddant yn cael eu bwlio ac yn ystyried eu hunain yn ddioddefwyr.

1.20 I adlewyrchu hyn, mae'r canllawiau yn defnyddio'r termau 'targed' a 'thramgwyddwr'. Mae gan bawb sy'n ymwneud â bwlio lawer o rolau gwahanol, yn cynnwys gwyliedyddion sy'n dystion i fwlio. Ni fydd y sefyllfa yn eglur bob amser.

2 Beth yw bwlio?

Diffinio ymddygiad bwlïaidd

2.1 Nid oes diffiniad cyfreithiol o fwlio yng Nghymru nac ym Mhrydain Fawr ychwaith. Felly, mae'r diffiniad sy'n cael ei ddefnyddio yn y canllawiau hyn yn ychwanegu at egwyddorion a ddefnyddir yn eang sydd wedi cael eu sefydlu yn y DU ers 1993[8].

2.2 At ddibenion y canllawiau hyn, diffinnir bwlio fel:

Ymddygiad gan unigolyn neu grŵp, sy'n cael ei ailadrodd yn raddol dros gyfnod, sy'n niweidio eraill yn fwriadol, naill ai'n gorfforol neu'n emosiynol.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion ddefnyddio'r diffiniad hwn fel sail i ddatblygu eu diffiniad eu hunain, neu fersiwn sy'n addas i ddysgwyr. Mae'n hanfodol i ysgolion ddiffinio beth yw ystyr bwlio oherwydd bydd hynny'n sail i'w polisi gwrth-fwlio, a dylai pawb, yn cynnwys pob aelod o staff a phob dysgwr, ddeall beth yw ystyr hynny.

2.3 Caiff bwlio ei fynegi trwy gyfrwng amrywiaeth o ymddygiadau niweidiol; gall ddigwydd wyneb yn wyneb neu yn yr amgylchedd digidol. Gall gael ei achosi gan unigolyn neu gan grŵp, ond bydd fel arfer yn digwydd o flaen cynulleidfa i bwysleisio grym neu boblogrwydd. Gall gynnwys elfen o gyfrinachedd i sicrhau na fydd oedolion yn ymwybodol ohono.

2.4 Mae bwlio yn wahanol i ddadl, ymladd neu gweryl rhwng ffrindiau oherwydd:

- mae'n fwriadol
- bydd yn cael ei ailadrodd dro ar ôl tro fel arfer
- ceir canfyddiad o anghydbwysedd grym rhwng y tramgwyddwr a'r targed
- bydd bwlio yn creu teimladau o ofid, ofn, unigrwydd, cywilydd a bod yn ddiymadferth.

Cydnabyddir y gall un digwyddiad unigol achosi trawma i ddysgwr a gwneud iddo bryderu y bydd dial yn digwydd neu y gwnaiff y bwlio ddigwydd eto yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y caiff ymyriadau eu gweithredu yn syth, mewn achosion o fwlio neu yn achos unrhyw ymddygiad negyddol unigol arall. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ddigwyddiadau unigol nad ydynt yn ymddangos yn fan cychwyn bwlio gael eu trin a'u trafod fel ymddygiad anaddas ac mae'n disgwyl y bydd ysgolion yn mynd i'r afael â hwy yn unol â'u polisi ymddygiad.

---

[8] Olweus, D (1993) *Bullying at School: What we know and what we can do*. Blackwell (Saesneg yn unig)

- *Anti-Bullying Alliance: Beth yr ydym yn ei olygu wrth anghydbwysedd grym mewn bwlio? (Saesneg yn unig)*
- *Yr Adran Addysg yn Lloegr: Tystiolaeth o LYSPE 2, Wave 3 – Data ar nodweddion bwlio (Saesneg yn unig)*
- *Anti-Bullying Alliance: Ffocws ar: Fwlio (Saesneg yn unig)*

hwb.gov.wales/playlists/view/57976d4f-7a52-4733-9bf6-c316120ea30e/cy/4

Pwysigrwydd cael diffiniad clir o fwlio

2.5 Mae cadarnhau beth yw ystyr ymddygiad bwlïaid yn fan cychwyn hanfodol. Mae cytuno ar ddiffiniad yn cynnig cyfle i ysgol sicrhau bod ei gwerthoedd a'i gweledigaeth yn cyd-fynd â hynny a chreu fframwaith cyson o bolisïau a gweithdrefnau. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y caiff y diffiniad ei ddefnyddio mewn hyfforddiant ar gyfer staff, mewn gwaith gwrth-fwlio rheolaidd gyda dysgwyr ac i gyfleu'r safbwynt yn glir i rieni/gofalwyr. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod y polisi yn glir ac yn gyson i gymuned gyfan yr ysgol.

2.6 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd ysgolion yn ymgynghori â dysgwyr ynghylch eu diffiniad o fwlio a'r polisi cysylltiedig sy'n trafod sut mae eu hysgol yn herio bwlio. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn disgwyl y bydd dysgwyr yn cael fersiwn o bolisi'r ysgol sy'n cynnwys esboniad clir a syml o'r diffiniad.

Elfennau nodweddiadol ymddygiad bwlïaidd

2.7 Mae nifer o elfennau amlwg yn gysylltiedig â bwlio. Maent yn cynnwys y canlynol (ond nid dyma'r unig rai):

- **bwriad i niweidio** – mae bwlio yn rhywbeth bwriadol, a'r bwriad yw achosi niwed. Bydd y rhai sy'n bwlio eraill yn aml iawn yn fedrus iawn yn yr ystyr eu bod yn gwybod sut yn union i fychanu neu frifo eu targed, gan roi sylw i agweddau allweddol o'u golwg, eu personoliaeth neu eu hunaniaeth i sicrhau'r effaith a ddymunir. Byddant yn canfod yr agwedd ble mae ganddynt rym dros eu targed
- **canlyniad niweidio** – caiff rhywun (neu grŵp) ei frifo yn gorfforol neu'n emosiynol. Gallant gael eu hynysu, gellir codi cywilydd arnynt neu wneud iddynt deimlo'n ofnus. Bydd eu hymdeimlad o'u hunan-werth yn lleihau
- **gweithredoedd uniongyrchol neu anuniongyrchol** – gall bwlio gynnwys ymddygiad ymosodol uniongyrchol, megis taro rhywun, yn ogystal â gweithredoedd anuniongyrchol megis lledaenu sïon neu rannu delweddau personol iawn â phobl na fwriadwyd iddynt weld yr wybodaeth neu'r delweddau

- **ailadrodd** – bydd bwlio fel arfer yn cynnwys ailadrodd ymddygiad negyddol neu weithredoedd ymosodol. Fel arfer, ni fydd gweithred ymosodol unigol, megis ymladd, yn cael ei hystyried yn fwlio[9]. Fodd bynnag, gall unrhyw ddigwyddiad fod yn fan cychwyn patrwm o ymddygiad bwlïaidd sy'n datblygu wedi hynny. Dyna pam mae cofnodion o ddigwyddiadau mor werthfawr
- **grym anghyfartal** – mae bwlio yn cynnwys camddefnydd o rym gan un unigolyn neu grŵp sy'n fwy grymus (neu sy'n cael eu hystyried felly), yn aml oherwydd eu hoedran, eu nerth corfforol, eu poblogrwydd neu eu cadernid seicolegol.

Sut caiff bwlio ei fynegi?

2.8 Mae sawl math o fwlio, gan gynnwys:

- **corfforol** – cicio, baglu neu wthio rhywun, anafu rhywun, difrod ei eiddo neu wneud ystumiau i godi braw ar rywun
- **geiriol** – gwawdio a galw enwau, sarhau, bygwth, bychanu neu godi braw
- **emosiynol** – ymddygiad sydd wedi'i fwriadu i ynysu neu niweidio rhywun neu godi cywilydd arno
- **anuniongyrchol** – gweithredoedd slei neu lechwraidd sy'n digwydd y tu ôl i gefn y targed neu roi sïon ar led
- **ar-lein** – defnyddio unrhyw fath o ddulliau technolegol, ffonau symudol, rhwydweithiau cymdeithasol, gemau, ystafelloedd sgwrsio, fforymau neu apiau i fwlio trwy gyfrwng negeseuon testun, negeseuon, delweddau neu fideo
- **niweidio perthnasoedd** – bwlio sy'n ceisio gwneud niwed i berthnasoedd neu statws cymdeithasol y targed: annog ei ffrindiau i droi cefn arno, elwa ar anghenion addysgol arbennig (AAA) neu salwch tymor hir unigolyn, targedu statws cymdeithasol ei deulu, ynysu neu godi cywilydd ar rywun yn fwriadol neu achosi helynt yn fwriadol i rywun
- **rhywiol** – cyffwrdd digroeso, bygythiadau, sylwadau a jôcs neu ensyniadau. Gall hyn hefyd gynnwys blacmel rhywiol, yr hyn a elwir yn 'bornograffi dial' ac unrhyw gamddefnydd o luniau personol a chignoeth o'r dysgwr sy'n cael ei dargedu
- **cysylltiedig â rhagfarn** – bwlio dysgwr neu grŵp o ddysgwyr oherwydd rhagfarn. Gallai hyn fod yn gysylltiedig â stereoteipiau neu ragdybiaethau ynghylch hunaniaeth. Mae bwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn yn cynnwys y nodweddion gwarchodedig[10]. Gall rhagfarn ymestyn y tu hwnt i'r nodweddion gwarchodedig a gall arwain at fwlio oherwydd amrywiaeth o resymau eraill megis statws cymdeithasol a chefndir.

---

[9] Pan fydd ymladd yn digwydd ond ni chaiff hynny ei ystyried yn ymddygiad bwlïaidd, bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i hynny gael ei reoli gan ddefnyddio polisi ymddygiad yr ysgol.

[10] Yn cynnwys oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol.

Bwlio a diogelu

2.9 Gall rhai achosion o fwlio fod yn fater sy'n ymwneud â diogelu neu efallai bydd angen i'r heddlu ymyrryd[11]. O dan Ddeddf Plant 1989, dylid mynd i'r afael ag achos o fwlio fel pryder yn ymwneud ag amddiffyn plant neu bobl ifanc pan fo 'achos rhesymol i amau bod plentyn (neu berson ifanc) yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed sylweddol'. Yn yr achos hwnnw, bydd yn rhaid i'r ysgol hysbysu adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol am eu pryderon.

Beth sydd ddim yn fwlio?

2.10 Er eu bod yn annerbyniol, nid yw rhai mathau o ymddygiad yn cael eu hystyried yn fwlio. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y byddir yn ymdrin â'r achosion hyn yn unol â pholisi ymddygiad yr ysgol i atal y posibilrwydd y gwnaiff digwyddiad waethygu a datblygu yn achos o fwlio.

2.11 Mae'r enghreifftiau canlynol yn achosion na fyddai fel arfer yn cael eu hystyried yn fwlio:

- **cweryl rhwng ffrindiau** – fodd bynnag, gall ffrae rhwng ffrindiau waethygu a datblygu yn ymddygiad bwlïaidd oherwydd y ffaith bod gan gyn-ffrindiau wybodaeth fanwl am ofnau'r naill a'r llall a'u teimladau ansicr. Bydd plant a phobl ifanc sy'n cael eu targedu gan gyn-ffrindiau yn teimlo'r brad hwnnw i'r byw, a byddant yn aml yn cael eu harwahanu oddi wrth eu grŵp blaenorol o ffrindiau
- **ymladd sy'n digwydd unwaith** – mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion fynd i'r afael â hyn yn unol â'u polisi ymddygiad, oni bydd yn rhan o batrwm o ymddygiad sy'n awgrymu bod unigolyn arall yn cael ei dargedu yn fwriadol
- **ffrae neu anghytundeb** – rhwng dau blentyn neu dau berson ifanc; ni ystyrir hyn yn fwlio fel arfer. Fodd bynnag, efallai bydd angen cymorth arnynt i ddysgu parchu safbwyntiau pobl eraill
- **ymosodiad corfforol sy'n digwydd unwaith** – mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y caiff hynny ei atal ac y bydd ysgolion yn mynd i'r afael â hynny yn syth. Efallai y bydd yn briodol hefyd i'r heddlu ymyrryd mewn achosion o ymosodiadau corfforol
- **sylwadau sarhaus a chellwair** – yn aml, bydd plant yn protestio trwy ddweud mai jôc neu gellwair oedd digwyddiad. Os bydd dau ffrind sydd â grym cyfartal yn cellwair â'i gilydd yn aml, ni ystyrir hynny'n fwlio. Os bydd un dysgwr yn defnyddio'r hyn mae'n honni sy'n gellwair i fychanu neu fygwth dysgwr arall sydd heb rym i atal hynny a bydd y weithred honno yn codi ofn arno, mae'n debyg y bydd hynny'n croesi'r ffin rhwng cellwair a bwlio

[11] Dylid hysbysu'r heddlu cyn gynted ag y bo modd os amheuir bod tramgwydd troseddol wedi cael ei chyflawni yn erbyn plentyn neu berson ifanc.

- **trosedd casineb sy'n digwydd unwaith** – os na chaiff ymddygiad hwn ei ailadrodd, ni fydd fel arfer yn cael ei ystyried yn fwlio, ond bydd yn ymddygiad troseddol. Byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion fynd i'r afel â'r digwyddiad yn unol â'u polisi a pholisïau perthnasol eraill, megis polisi 'Prevent' yr ysgol. Pe bai hynny'n ofynnol, dylai'r ysgol ofyn i'r heddlu ymyrryd.

2.12 Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos bod angen i ysgolion fynd i'r afael â phob digwyddiad y byddant yn cael eu hysbysu amdano a'i gofnodi. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd hyn yn datgelu unrhyw ddigwyddiadau sydd wedi'u cofnodi'n flaenorol ac yn caniatáu i asesiad ystyriol gael ei wneud. Mae rhagor o wybodaeth ynghylch rhoi gwybod am ddigwyddiadau a'u cofnodi a'u monitro ar gael yn adran 11.

2.13 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y caiff pob achos o gasineb ei gofnodi'n gywir i alluogi ysgolion i fonitro patrymau ac atal gwahaniaethu. Bydd awdurdodau lleol yn monitro digwyddiadau casineb yn rheolaidd ac efallai y byddant ei gwneud yn ofynnol i ysgolion roi gwybod am y rhain i ddangos tystiolaeth o sut maent yn cydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y sector cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Pa gymhellion sy'n sail i weithredoedd bwlïaidd?

2.14 Gall plant a phobl ifanc sy'n cyfranogi mewn bwlio gael eu cymell i wneud hynny oherwydd nifer o resymau. Efallai bod ganddynt ragfarnau yn erbyn grwpiau penodol yn y gymdeithas ehangach. Efallai bod y safbwyntiau rhagfarnllyd hyn wedi'u dylanwadu gan amrywiaeth o ffactorau, yn cynnwys y dylanwadau hyn: y cyfryngau, gwerthoedd y gymuned a/neu'r teulu, neu brofiad personol blaenorol. Gall cymhellion tramgwyddwyr hefyd gynnwys awydd am y canlynol:

- sicrhau grym, balchder a phoblogrwydd
- perthyn i grŵp dethol cryf sydd ag ymdeimlad cryf o hunaniaeth a hunan-barch
- osgoi bod yn darged bwlio eu hunain
- gwneud iawn am achosion o sarhad y maent hwy eu hunain wedi'u dioddef yn y gorffennol.

2.15 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd ysgolion yn ystyried cymhellion wrth weithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n bwlio eraill. Bydd hyn yn eu cynorthwyo i ddeall a mynd i'r afael ag achos sylfaenol yr ymddygiad annerbyniol a helpu i newid hynny, ac atal rhagor o fwlio rhag digwydd.

2.16 Gall ymddygiad bwlïaidd adlewyrchu agweddau sy'n bodoli yn y gymdeithas neu'n cael eu mynegi yn y cyfryngau. Weithiau, bydd ysgolion yn canfod bod angen iddynt herio'r agweddau hyn yng nghymuned ehangach yr ysgol y tu hwnt i'r achos y byddant yn ymateb iddo.


PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

3 Bwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn

Rhagfarn yn ei gyd-destun

3.1 Bydd achosion o fwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn yn aml yn cynnwys neu'n mynegi syniadau, stereoteipiau a rhagfarnau yn ymwneud â gwahaniaethu ac anghydraddoldeb sy'n bodoli ar y pryd yn y gymdeithas ehangach. Mae'r syniadau a'r agweddau hyn yn cynnwys gelyniaeth tuag at bobl sydd â nodweddion gwarchodedig megis dysgwyr sy'n anabl (gall hynny gynnwys y sawl sydd ag AAA); dysgwyr sy'n lesbiaid, hoyw neu ddeurywiol; neu sy'n cwestiynu eu rhywedd neu sy'n drawsryweddol; neu dysgwyr y mae eu hethnigrwydd, hil, golwg, cefndir crefyddol neu rywedd yn wahanol i dramgwyddwyr ymddygiad sy'n gysylltiedig â rhagfarn. Gall ymddygiad sy'n gysylltiedig â rhagfarn gael ei gyfeirio hefyd tuag at y sawl sydd heb nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys y rhai sydd ag ADY nad ydynt yn bodloni'r diffiniad o anabledd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Gall hyn arwain at fwlio oherwydd amrywiaeth o resymau eraill megis statws cymdeithasol a chefndir.

- *Estyn: Gweithredu ar fwlio*
- *Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: Cynlluniau gwasanaethau ysgolion uwchradd (Saesneg yn unig)*
- *Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: Yr hyn y mae cyfraith cydraddoldeb yn ei olygu i chi fel darparwr addysg yng Nghymru*
- *Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: Awgrymiadau ar gyfer mynd i'r afael â bwlio ar sail gwahaniaeth*
- *Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: Defnyddio data i gyfrannu at strategaethau gwrth-fwlio*
- *Llywodraeth Cymru: Taflenni ffeithiau mynd i'r afael â hiliaeth mewn ysgolion*
- *Comisiynydd Plant Cymru: Stori Sam, bwlio ar sail hunaniaeth; yr hyn y mae angen i athrawon ei wybod ac awgrymiadau ar gyfer defnyddio Dyletswydd Cydraddoldeb y sector cyhoeddus*
- *Adnoddau'r Anti-Bullying Alliance/y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: Mynd i'r afael â bwlio ar sail hunaniaeth (Saesneg yn unig)*
- *Stonewall: Adroddiad Ysgol Cymru*
- *Llywodraeth Cymru: Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru*
- *Mencap: 'Am I making myself clear?' (Saesneg yn unig)*
- *Pecyn Cymorth Traws*Newid Cymru*

hwb.gov.wales/playlists/view/57976d4f-7a52-4733-9bf6-c316120ea30e/cy/5

3.2 Ceir llawer o enghreifftiau o ymddygiad sy'n gysylltiedig â rhagfarn. Gallai rhai o'r rhain gynnwys:

- stigmateiddio dysgwr sydd ag anabledd neu AAA
- defnyddio iaith homoffobig, deuffobig, trawsffobig, rhywiaethol neu hiliol
- mynd ati'n fwriadol i geisio tynnu unrhyw ddillad crefyddol, megis hijab, kippah, twrban, cap neu orchudd
- defnyddio sylwadau rhywiaethol, cyffwrdd digroeso neu dynnu lluniau heb ganiatâd
- gwneud sylwadau am olwg rhywun, megis ei bwysau neu liw ei wallt.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y caiff pob math o ragfarn ei herio yn gyfartal.

3.3 Mae rhai nodweddion elfennol penodol yn gyffredin i bob math o ymddygiad sy'n gysylltiedig â rhagfarn yn erbyn nodweddion gwarchodedig. Felly, bydd yr un egwyddorion sylfaenol yn berthnasol wrth fynd ati i'w hatal a'u herio. Nid oes unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig yn llai pwysig nag unrhyw un o'r gweddill. Weithiau, efallai bydd gan unigolion fwy nag un nodwedd warchodedig ac efallai y byddant yn dioddef ymddygiad sy'n gysylltiedig â rhagfarn oherwydd nifer o resymau.

3.4 Mae unrhyw fath o ymddygiad sy'n gysylltiedig â rhagfarn yn annerbyniol a gellid eu hystyried yn achosion o drosedd casineb, neu gallent ddatblygu yn achosion o'r fath. Os bydd y weithred yn digwydd unwaith yn unig ac ni fydd yn cael ei hailadrodd, ni fydd y digwyddiad yn cael ei ystyried yn fwlio fel arfer; nid yw hynny'n golygu na ddylid ymateb i'r digwyddiad. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y caiff pob math o ragfarn ei herio mewn ysgolion gan ddefnyddio eu polisi mwyaf priodol[12].

3.5 Pan fydd ymddygiad sy'n gysylltiedig â rhagfarn yn cael ei ailadrodd gan dramgwyddwr, p'un ai a fydd hynny'n cael ei gyfeirio at un unigolyn neu at grŵp o ddysgwyr, bydd hynny'n cael ei ystyried yn fwlio. Mae termau eraill sy'n cael eu defnyddio'n gyffredin yn y gymdeithas i ddisgrifio bwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn yn cynnwys: 'bwlio sy'n ymwneud â hunaniaeth'; 'bwlio gwahaniaethol'; 'bwlio sy'n ymwneud â chasineb'; neu 'fwlio sy'n seiliedig ar anghydraddoldeb'.

3.6 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y caiff dysgwyr:

- sydd ag AAA neu anableddau
- sy'n lesbiaid, hoyw, deurywiol, trawsrywiol neu'n cwestiynu (LGBTQ)
- o gefndir lleiafrif ethnig
- o gefndir crefyddol
- sydd newydd gychwyn astudio mewn systemau addysg cyfrwng Cymraeg neu Saesneg (NEWBES)[13]
- sydd ag anawsterau iechyd emosiynol a lles

[12] Er enghraifft, polisi ymddygiad, polisi diogelu, polisi 'Prevent' neu bolisi gwrth-fwlio'r ysgol.

[13] Caiff y term 'dysgwr sydd newydd gyrraedd' ei ddefnyddio i ddisgrifio plant, o gefndir lleiafrif ethnig yn aml, nad yw'r Gymraeg na'r Saesneg yn iaith yr aelwyd iddynt.

eu hystyried yn ofalus yn strategaeth atal bwlio ysgol. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd ysgolion yn asesu'r boblogaeth leol a phoblogaeth yr ysgol i ganfod unrhyw newidiadau diweddar a chyflym i sicrhau bod eu gwaith atal yn gyfoes.

Mathau penodol o fwlio sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig

3.7 Ceir mathau penodol o fwlio sy'n gysylltiedig â nodweddion gwarchodedig. Yn gyffredinol, gellir eu categoreiddio fel hyn:

- bwlio sy'n gysylltiedig ag oedran
- bwlio sy'n ymwneud â dysgwyr sydd ag anableddau, a gall hynny gynnwys AAA
- bwlio homoffobig deuffobig a/neu drawsffobig
- bwlio sy'n gysylltiedig â hil, crefydd a/neu ddiwylliant
- bwlio rhywiaethol a/neu rywiol.

Bwlio sy'n ymwneud â dysgwyr sydd ag anableddau a/neu AAA – diffinio anabledd ac AAA

3.8 Nid yw'r diffiniad o anabledd o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yr un peth â'r diffiniad o anghenion addysgol arbennig (AAA) o dan Ddeddf Addysg 1996 na'r diffiniad o anghenion dysgu ychwanegol (ADY) o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018. (Gweler yr adran 'Termau a ddefnyddir yn y ddogfen hon'.) Bydd rhai plant sy'n cael eu cwmpasu gan y Ddeddf Cydraddoldeb ond nid gan y Ddeddf Addysg na Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) ac i'r gwrthwyneb, ond mae'n debygol y bydd nifer sylweddol o blant a phobl ifanc yn cael eu cwmpasu gan yr holl ddeddfau hyn.

Materion allweddol i ddysgwyr ag anableddau a/neu AAA sy'n profi bwlio

3.9 Mae adroddiadau gan Mencap[14] a'r Anti-Bullying Alliance[15] yn dangos bod plant a phobl ifanc sydd ag anableddau a/neu AAA yn fwy tebygol o brofi bwlio na'u cyfoedion. Fe wnaeth astudiaeth gan y Sefydliad Addysg[16] yn 2014 ganfod bod plentyn saith oed sydd ag AAA ddwywaith yn fwy tebygol o gael ei fwlio na phlentyn sydd heb AAA, hyd yn oed ar ôl cymharu ffactorau eraill a allai ddylanwadu ar y tebygolrwydd y caiff plentyn ei fwlio. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion fynd ati'n rhagweithiol i wrthweithio'r duedd hon.

3.10 Gall dysgwyr sydd ag anabledd a/neu AAA fod yn fwy agored i fwlio oherwydd:

- agweddau negyddol tuag at anabledd neu anabledd canfyddadwy
- diffyg dealltwriaeth o wahanol anableddau a chyflyrau
- efallai na fyddant yn adnabod y ffaith eu bod yn cael eu bwlio

[14] Gweler www.mencap.org.uk/learning-disability-explained/research-and-statistics/children (Saesneg yn unig)
[15] Gweler www.anti-bullyingalliance.org.uk/tools-information/all-about-bullying/sen-disability/what-does-research-say (Saesneg yn unig)
[16] Chatzitheochari, S, Parsons, S, Platt, L (2014) *Bullying experiences among disabled children and young people in England: Evidence from two longitudinal studies*, Athrofa Addysg, Prifysgol Llundain http://repec.ioe.ac.uk/REPEc/pdf/qsswp1411.pdf (Saesneg yn unig)

- efallai eu bod yn gwneud gwaith gwahanol neu'n cael cymorth ychwanegol yn yr ysgol
- efallai eu bod yn fwy unig nag eraill oherwydd eu hanabledd neu eu cyflwr
- efallai ei bod hi'n anoddach iddynt wneud ffrindiau o ganlyniad i'w hanabledd neu eu cyflwr
- efallai y byddant yn ymddwyn yn fwlïaidd oherwydd eu hanabledd neu eu cyflwr, e.e. efallai na fydd dysgwyr sy'n awtistig yn ymwybodol o ofod personol pobl eraill, neu gallai dysgwyr sydd ag anhwylder diffyg canolbwyntio a gorfywiogrwydd (ADHD) dorri ar draws sgyrsiau neu siarad pan fydd dysgwyr eraill yn siarad
- efallai y byddant yn profi llawer o newidiadau, e.e. symud o ysgol brif ffrwd i ysgol arbennig neu uned cyfeirio disgyblion, neu dreulio cyfnodau mewn ysbyty.

3.11 Efallai bydd hi'n anoddach hefyd i ddysgwyr sydd ag anabledd a/neu AAA herio tramgwyddwyr oherwydd mae ganddynt lai o ffrindiau i'w hamddiffyn a byddant yn cael trafferth ceisio hysbysu rhywun os bydd hynny'n digwydd. Gall bwlio effeithio'n andwyol iawn arnynt. Yn ogystal â pheri gofid iddynt, gall eu harwahanu ymhellach a rhwystro eu datblygiad cymdeithasol ac addysgol.

3.12 Gall unrhyw un o'r mathau traddodiad o fwlio gael ei ddefnyddio i fwlio dysgwyr sydd ag anabledd a/neu AAA. Fodd bynnag, mae mathau ychwanegol o fwlio y gall dysgwyr sydd ag AAA neu anableddau eu profi.

Cyfeillgarwch amodol

3.13 Yn yr achosion hyn, bydd grŵp yn caniatáu i darged gredu ei fod wedi cael ei dderbyn yn rhan o'r grŵp o gyfeillion. Fodd bynnag, efallai bydd y grŵp yn defnyddio'r targed neu'n pennu amod i ganiatáu iddo fod yn rhan o'r grŵp. Gallent hyd yn oed wneud y targed yn destun eu jôcs, ei ddefnyddio i fynd ar negeseuon neu hyd yn oed ei orfodi i gyfranogi mewn gweithgareddau troseddol iddynt.

Ecsbloetiol

3.14 Yn yr achosion hyn, bydd y bwlio'n digwydd trwy fynd ati'n fwriadol i orfodi'r targed i brofi rhywbeth na all ei oddef. Er enghraifft, os yw targed yn neilltuol o sensitif i synau neu arogleuon, ac os bydd y tramgwyddwr yn taenu bwyd dros ei waith neu'n gwneud synau uchel i'w ddychryn dro ar ôl tro, gallai hyn fod yn fwlio escbloetiol. Y nod yn y pen draw yw achosi helynt i'r plentyn neu'r person ifanc sy'n darged oherwydd bydd y straen a brofir ganddo yn cynyddu, ac yn y pen draw, bydd yn cael ffrwydrad o ddicter a/neu yn dial.

Ystrywgar

3.15 Yn yr achosion hyn, bydd y tramgwyddwr yn dylanwadu'n gyfrwys ar y targed, ac efallai na fydd y targed yn sylweddoli beth sy'n digwydd i ddechrau. Efallai y bydd yn credu bod y plentyn neu'r person ifanc arall neu'r grŵp o blant neu bobl ifanc yn ei hoffi a'u bod yn ffrindiau. Fodd bynnag, gallai'r tramgwyddwr gamarwain y targed i fod yn rhan o berthnasoedd sy'n ei beryglu'n sylweddol, a daw'r bwlio yn ormesol iawn.

Gweithredu cadarnhaol

3.16 Er bod ymchwil yn awgrymu bod plant a phobl ifanc sydd ag anableddau a/neu AAA yn fwy tebygol o brofi bwlio na'u cyfoedion, mae'n bwysig cofio nad pob plentyn neu berson ifanc sy'n anabl neu sydd ag AAA yn cael ei fwlio.

3.17 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion ymateb i fwlio mewn modd cyfannol ac ar yr un pryd, ystyried anghenion ac amgylchiadau unigol dysgwyr sydd ag anableddau a/neu AAA. O dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y sector cyhoeddus, mae gan ysgolion gyfrifoldeb hefyd i sicrhau bod camau gweithredu priodol ac effeithiol yn cael eu cymryd i ddileu neu leihau'r anfanteision a brofir gan ddysgwyr oherwydd eu hanabledd neu AAA.

Model cymdeithasol

3.18 Yn 2002, fe wnaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru fabwysiadu'r model cymdeithasol o anabledd fel sail i'w gwaith yn ymwneud ag anabledd yng Nghymru.

3.19 Mae'r model cymdeithasol o anabledd yn cynnig dehongliad gwahanol o anabledd, ac mae'n nodi bod anabledd yn cael ei achosi gan y modd y mae'r gymdeithas wedi'i threfnu, yn hytrach nag amhariad neu wahaniaeth yr unigolyn. Mae'r model cymdeithasol o anabledd yn ystyried dulliau o ddiddymu rhwystrau sy'n cyfyngu ar ddewisiadau bywyd i bobl sydd ag amhariadau neu wahaniaethau. Pan fydd rhwystrau'n cael eu dileu, gall pobl anabl fod yn annibynnol ac yn gyfartal yn y gymdeithas, a bydd ganddynt ddewis a rheolaeth dros eu bywydau eu hunain.

3.20 Mae'r model cymdeithasol o anabledd yn nodi gwahaniaeth pwysig rhwng amhariad ac anabledd. Mae'n cydnabod bod pobl sydd ag amhariadau yn anabl oherwydd rhwystrau sy'n bodoli'n gyffredin mewn cymdeithas.

3.21 Nid methu cerdded sy'n atal unigolyn rhag mynd i mewn i adeilad heb gymorth, ond bodolaeth grisiau sy'n anhygyrch i ddefnyddiwr cadair olwyn. Caiff anabledd ei greu gan y gymdeithas ac mae'r model cymdeithasol o anabledd yn ei gwneud yn ofynnol i'r gymdeithas ddileu pob rhwystr i sicrhau bod pawb yn cael cydraddoldeb. Mewn ysgolion, mae'r ethos hwn yn elfen allweddol o ddatblygu amgylchedd gwirioneddol gynhwysol a chynllun effeithiol i sicrhau cydraddoldeb i bobl anabl a pholisi gwrth-fwlio effeithiol.

Bwlio homoffobig deuffobig a thrawsffobig

3.22 Mae bwlio homoffbig, deuffobig a thrawsffobig yn fathau penodol o fwlio sy'n cael eu hysgogi gan ragfarn yn erbyn pobl sy'n lesbiaid, yn hoyw, yn ddeurywiol neu'n drawsrywiol (LGBT) (yn cynnwys y sawl sy'n cwestiynu eu rhywioldeb), rhywun sydd â pherthynas LGBT neu ddim ond oherwydd bod dysgwr yn wahanol mewn rhyw ffordd neu'i gilydd (gweler paragraff 3.26). Nid yw'n cael ei nodweddu gan weithredoedd penodol, ond gan agweddau a chredoau negyddol ynghylch pobl LGBT sy'n sail i'r rhain.

3.23 Pan fydd tramgwyddwr yn nodi bod rhywun yn 'wahanol', gallai hyn fod oherwydd y ffaith nad yw'r targed yn cydymffurfio â'r ymddygiad 'disgwyliedig' neu 'briodol i rywedd' y disgwylir i rywun ei arddangos. Ymosodir ar hunaniaeth y dysgwr. Gall plentyn neu berson ifanc brofi bwlio homoffobig, deuffobig a/neu drawsffobig beth bynnag fo'i rywedd neu ei gyfeiriadedd rhywiol.

Materion allweddol ar gyfer dysgwyr LGBT sy'n profi bwlio

3.24 Canfu adroddiad gan Stonewall[17] bod bron iawn tri o bob pum dysgwr LGBT mewn ysgolion yng Nghymru a gyfrannodd at arolwg wedi dweud y bydd eu hysgolion yn dweud bod bwlio homoffobig a deuffobig yn ddrwg, ond dim ond un o bob tri a ddywedodd y bydd eu hysgolion yn dweud bod bwlio trawsffobig yn ddrwg. Fe wnaeth yr adroddiad ganfod hefyd bod mwy na phedwar o bob pum dysgwr LGBT yn dweud nad ydynt erioed wedi dysgu am ddeurywioldeb na thrafod hynny yn yr ysgol, sy'n gwneud i blant a phobl ifanc deurywiol deimlo'n fwy ynysig fyth, yn enwedig os caiff cyfeiriadedd rhywiol ei ystyried yn gamsyniol ar brydiau naill ai fel bod yn 'strêt' neu fod yn hoyw/lesbiad, a chaiff hunaniaeth a phrofiad pobl ddeuryrwiol eu diystyru.

3.25 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion ymgorffori gwaith gwrth-fwlio yng nghyd-destun ehangach dull gweithredu yn ymwneud â chydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol i sicrhau perthnasoedd parchus ac iach ac atal trais. Dylid gwneud hyn fel rhan o ddull gweithredu ar lefel yr ysgol gyfan i ddathlu gwahaniaeth, yn cynnwys ymgorffori materion LGBT ar draws y cwricwlwm.

Sylwadau sarhaus homoffobig, deuffobig a thrawsffobig a ddefnyddir yn lle sylwadau sarhaus eraill neu'n anuniongyrchol

3.26 Mewn ysgolion ble mae dysgwyr yn credu na chânt eu herio pan fyddant yn defnyddio sylwadau sarhaus homoffobig a/neu weithredoedd homoffobig, mae'n bosibl y byddant yn defnyddio iaith neu weithredoedd o'r fath tuag at eraill y maent yn eu targedu oherwydd rhesymau eraill, megis AAA neu hil, crefydd neu ddiwylliant. Defnyddir y sylwadau homoffobig yn lle'r iaith a/neu'r gweithredoedd y maent yn gwybod y byddent yn debygol o gael eu herio am eu defnyddio, megis sylwadau sarhaus hiliol. Gellir arsylwi'r ymddygiad hwn trwy gyfrwng cofnodion o ddigwyddiadau neu arolygon dysgwyr, e.e. os bydd dysgwyr sydd ag AAA yn rhoi gwybod am nifer uwch na'r cyfartaledd o ddigwyddiadau bwlio homoffobig.

[17] Adroddiad Ysgol Cymru www.stonewallcymru.org.uk/cy/schoolreportcymru

3.27 Mewn ysgolion, gall iaith a gweithredoedd homoffobig, deuffoig a thrawsffobig amrywio'n sylweddol iawn a gellir eu defnyddio'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol er mwyn:

- gwawdio neu ddifrïo rhywun sy'n cael ei ystyried yn israddol neu'n hurt
- sarhau dysgwr sydd â rhiant/gofalwr neu berthynas sy'n lesbiad, yn hoyw neu'n ddeurywiol
- defnyddio cyfeiriadedd rhywiol i bardduo gweithredoedd rhywun arall
- awgrymu bod rhywbeth yn annerbyniol
- codi ofn ar rywun neu wneud i rywun deimlo'n anghyfforddus trwy daflu ensyniadau
- tanseilio a bwlio dysgwyr trwy awgrymu eu bod yn lesbiaid, yn hoyw neu'n ddeurywiol, gan gynnwys lledaenu sïon a straeon maleisus
- bwlio dysgwr gwrywaidd yr ystyrir ei fod yn ferchetaidd neu ddysgwraig fenywaidd yr ystyrir ei bod yn wrywaidd[18]
- bychanu dysgwr sydd â ffrind neu berthynas sydd ddim yn cydymffurfio o ran rhywedd
- awgrymu bod amrywiant o ran rhywedd yn annerbyniol
- bwlio targed yr ystyrir bod ei rywedd yn amhendant.

Gweithredu cadarnhaol

3.28 Mae angen bod yn sensitif iawn wrth ymateb i achosion o fwlio homoffobig, deuffobig a thrawsffobig. Gall teulu'r targed ymateb mewn ffyrdd sy'n peri rhagor o drallod i'r plentyn neu'r person ifanc oherwydd pwysau'r gymuned, safbwyntiau homoffobig, deuffobig a/neu drawsffobig, neu efallai oherwydd nad ydynt yn ymwybodol o gyfeiriadedd rhywiol eu plentyn.

3.29 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion weithio gyda theuluoedd i sicrhau bod y cymorth priodol, ar yr adeg briodol, yn cael ei ddarparu i'r dysgwr i sicrhau'r canlyniadau gorau i'r plentyn neu'r person ifanc hwnnw. O dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y sector cyhoeddus, mae gan ysgolion gyfrifoldeb hefyd i sicrhau bod camau priodol ac effeithiol yn cael eu cymryd i gael gwared ar neu leihau anfanteision y mae dysgwyr yn eu hwynebu oherwydd eu nodweddion gwarchodedig.

Bwlio rhywiaethol a rhywiol

3.30 Yn 2015, canfu Girlguiding UK fod 75 y cant o ferched a menywod ifanc yn dweud bod pryder ynghylch y posibilrwydd o brofi aflonyddu rhywiol yn effeithio ar eu bywydau mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Canfu'r un arolwg fod 90 y cant o ferched ifanc 13–21 oed yn cytuno y dylai Llywodraeth y DU sicrhau bod pob ysgol yn mynd i'r afael ag aflonyddu rhywiol a bwlio mewn ysgolion[19].

---

[18] Addaswyd deunydd yn yr adran hon â chaniatâd y cyhoeddwyr (Jessica Kingsley Publishers) o ddogfen Saesneg *That's So Gay! Challenging Homophobic Bullying* gan Jonathan Charlesworth.

[19] Arolwg o Agweddau Merched www.girlguiding.org.uk/girls-making-change/girls-attitudes-survey (Saesneg yn unig)

3.31 Mae bwlio rhywiaethol yn seiliedig ar agweddau rhywiaethol a fynegir dro ar ôl tro mewn ffyrdd sy'n diraddio, yn dychryn a/neu'n niweidio rhywun arall oherwydd eu rhyw neu rywedd. Caiff ei nodweddu ar brydiau gan ymddygiadau rhywiol amhriodol dro ar ôl tro gan gynnwys aflonyddu, byseddu, 'uwchsbecian' a 'lawrsbecian', a defnyddio iaith rywiaethol waradwyddus. Mewn achosion prin, gall trais gael ei ddefnyddio.

3.32 Gall bwlio rhywiol fod yn gorfforol, yn eiriol neu'n seicolegol. Gall y mathau o ymddygiad gynnwys sylwadau rhywiol awgrymog neu ensyniadau gan gynnwys sylwadau sarhaus am enw da rhywun o safbwynt rhywiol neu ddefnyddio iaith rywiol sydd wedi'i chynllunio i israddio, bychanu neu ddychryn rhywun. Gall gynnwys rhannu delweddau cignoeth ar-lein (gan nifer o bobl ar brydiau), gorfodaeth neu gyffwrdd rhywiol digroeso.

3.33 Yn aml iawn, bydd agweddau rhywiaethol neu stereoteipiau o ran rhywedd yn sail iddo hefyd. Mae bwlio rhywiol ac aflonyddu rhywiol yn dermau a ddefnyddir yn gyfnewidiol yn aml mewn ysgolion a chaiff bwlio rhywiol ei ystyried yn aml yn fath o aflonyddu rhywiol. P'un ai a fydd digwyddiad yn cael ei ystyried yn fwlio rhywiol neu'n aflonyddu rhywiol, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion fynd i'r afael â'r mater trwy gyfrwng eu polisi gwrth-fwlio, eu polisi ymddygiad neu eu polisi diogelu (pa un bynnag sy'n cael ei ystyried yn fwyaf priodol). Gall bwlio rhywiol effeithio ar fechgyn a merched.

Gweithredu cadarnhaol

3.34 Mae merched a menywod ifanc sy'n cael eu niweidio'n amlaf gan fwlio rhywiaethol a rhywiol, ond gall bechgyn a dynion ifanc hefyd ddioddef bwlio a bychanu rhywiaethol a rhywiol, e.e. gan griw o ferched/menywod ifanc neu gyn-gariad. Pan fydd hyn yn digwydd, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl na fydd ysgolion yn trin yr achosion hyn yn wahanol neu'n llai difrifol na'r rhai sy'n ymwneud â merched a menywod ifanc.

3.35 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion ystyried y gall pob dysgwr fod mewn perygl o fwlio rhywiol neu rywiaethol, yn enwedig pan fydd eraill yn credu nad ydynt yn cydymffurfio â rolau rhywedd goruchafol neu ystrydebol. O dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y sector cyhoeddus, mae gan ysgolion gyfrifoldeb hefyd i sicrhau bod camau priodol ac effeithiol yn cael eu cymryd i gael gwared ar neu leihau anfanteision y mae dysgwyr yn eu hwynebu oherwydd eu nodweddion gwarchodedig.

Bwlio sy'n gysylltiedig â hil, crefydd a diwylliant

3.36 Mae'r math hwn o fwlio yn disgrifio amrywiaeth o ymddygiad niweidiol, yn gorfforol ac yn seicolegol, sy'n gwneud i rywun deimlo'n ddigroeso, wedi'i wthio i'r cyrion, wedi'i eithrio neu'n ddiymadferth oherwydd ei liw, ei ethnigrwydd, ei ddiwylliant, ei ffydd (yn cynnwys diffyg ffydd), ei darddiad cenedlaethol neu ei statws cenedlaethol.

3.37 Mae'r rhan fwyaf o gyrff cyhoeddus yn y DU, yn cynnwys ysgolion, yn defnyddio'r diffiniadau gweithredol o hiliaeth a digwyddiad hiliol a gafodd eu cynnig yn adroddiad Ymchwiliad Stephen Lawrence ym 1999[20].

3.38 Dyma ddiffiniad yr adroddiad o hiliaeth:

Ymddygiad neu eiriau neu arferion sy'n rhoi anfantais neu fantais i bobl oherwydd eu lliw, diwylliant neu darddiad ethnig.

A dyma oedd ei ddiffiniad o ddigwyddiad hiliol:

Unrhyw ddigwyddiad y mae'r dioddefydd neu unrhyw unigolyn arall yn ei hamgyffred yn hiliol.

Mathau o hiliaeth

3.39 Yn hanesyddol, mae'r term 'hiliaeth' wedi cael ei ddefnyddio mewn amgylchiadau pan gaiff lliw a golwg corfforol eu hystyried yn nodweddion arwyddocaol o wahaniaeth. Fodd bynnag, mae elfen ddiwylliannol wedi bodoli bron iawn bob amser hefyd.

3.40 Mae hiliaeth yn ymwneud â lliw croen yn parhau i fod yn gyffredin, ac mae'n rhaid i ysgolion barhau i fod yn wyliadwrus o hynny a'i herio. Ond ceir mathau o hiliaeth hefyd sy'n ymwneud yn bennaf â diwylliant, arferion, crefydd a threftadaeth. Mae'n rhaid i ysgolion fynd i'r afael â'r rhain hefyd a'u gwrthweithio.

3.41 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion ystyried, er enghraifft, y canlynol.

Rhagfarn yn erbyn Sipsiwn – Caiff Sipsiwn a Theithwyr eu targedu gan nifer o stereoteipiau camarweiniol a niweidiol, ac mae llawer ohonynt wedi'u gwreiddio'n ddwfn yn ymwybyddiaeth y cyhoedd yn y DU. Mae portreadau negyddol yn y cyfryngau yn gwneud y rhagfarn a brofir gan yr unigolion hyn yn waeth fyth. Awgrymwyd hyd yn oed bod gwahaniaethu tuag at Sipsiwn a Theithwyr yn parhau i fod yn 'rhywbeth a oddefir' yn y DU. Canlyniad yr amgylchedd hwn yw bod y dasg o ennill ymddiriedaeth plant a phobl ifanc o gefndiroedd Sipsiwn a Theithwyr yn anoddach ac yn fwy sensitif fyth.

Rhagfarn yn erbyn ffoaduriaid – Mae'r traethu gwleidyddol a'r adroddiadau gan y cyfryngau ynghylch mewnfudo wedi gwaethygu tensiynau rhwng cymunedau ac wedi creu hinsawdd heriol i ffoaduriaid a cheiswyr lloches yn y DU. Ceir tuedd i ddefnyddio iaith sy'n dad-ddyneiddio wrth drafod mudo, e.e. geiriau megis 'heidio' ac 'ymledol'. Yn aml iawn, caiff ffoaduriaid a cheiswyr lloches eu portreadu fel bygythiad neu straen ar gyllid cyhoeddus, a chaiff eu cymhellion dros gartrefu yn y DU eu cwestiynu yn rheolaidd. Mae'n rhaid i ysgolion fod yn wyliadwrus o'r dylanwadau hyn a bod yn barod i wrthweithio naratifau negyddol ynghylch

[20] Roedd ymchwiliad Macpherson i farwolaeth Stephen Lawrence yn cynnwys argymhellion ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus, yn cynnwys ysgolion, ynghylch sut ddylid mynd i'r afael â hiliaeth. Ceir crynodeb gan y BBC a dolen at yr adroddiad llawn yn http://news.bbc.co.uk/1/hi/uk/285537.stm (Saesneg yn unig)

ffoaduriaid a cheiswyr lloches. Dylai ysgolion hefyd fod yn ymwybodol y gall rhai plant a phobl ifanc sy'n ffoaduriaid neu'n ceisio lloches fod wedi cael profiadau trawmatig yn eu gwlad wreiddiol neu yn ystod eu taith i'r DU, a dylent hefyd fod yn ymwybodol o'r niwed ychwanegol a allai gael ei achosi gan achosion o fwlio.

Gwrth-Semitiaeth – Gelyniaeth neu atgasedd at neu ofni Iddewon a phethau Iddewig, sy'n cael ei amlygu mewn agweddau a gweithredoedd gwahaniaethol. Fel sy'n wir hefyd yn achos Islamoffobia, bydd yn aml yn cael ei waethygu ym Mhrydain gan ddigwyddiadau a gwrthdaro sy'n sail i hynny mewn rhannau eraill o'r byd, yn enwedig y Dwyrain Canol.

Islamoffobia – Gelyniaeth tuag at Islam sy'n arwain at wahaniaethu yn erbyn unigolion a chymunedau Mwslimaidd ac sy'n eithrio Mwslimiaid o faterion gwleidyddol a chymdeithasol prif ffrwd. Nid yw'r term ei hun yn ddelfrydol, ond heb os, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion gyfrannu at y gwaith o wrthweithio rhagfarn a gelyniaeth gwrth-Fwslimaidd o fewn eu cylchoedd dylanwad eu hunain. Nid yw Islamoffobia o reidrwydd yn ymwneud â gelyniaeth at gredoau crefyddol Islamaidd, ond ag atal hawliau cyfartal i bobl o gefndir Islamaidd a pharch tuag atynt.

3.42 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion ystyried, wrth gofnodi digwyddiadau o fwlio hiliol, y dylid cael categorïau penodol ac ar wahân i nodi sail y bwlio hiliol, e.e. oherwydd cefndir grefyddol neu oherwydd eu bod yn Sipsiwn a Theithwyr neu'n ffoaduriaid. Mae adran 11 yn cynnig rhagor o wybodaeth am roi gwybod am ddigwyddiadau a threfniadau i'w cofnodi a'u monitro.

3.43 Rydym ni'n gwybod y bydd bwlio yn aml yn cael ei ysgogi gan elyniaeth neu ragfarn ar sail hil, crefydd neu ddiwylliant gwirioneddol neu ganfyddedig unigolyn. Mae safbwynt bod rhai pobl yn wahanol neu'n 'eraill' wrth wraidd bwlio o'r fath. Trwy ddefnyddio sylwadau cas a sarhaus i drin pobl yn wahanol ac yn israddol, bydd yn haws ystyried unrhyw grŵp fel un sydd ar wahân a'i ddad-ddyneiddio. Gall hyn ddileu unrhyw dosturi. Mae rôl ysgolion o ran helpu pob dysgwr i deimlo ei fod yn perthyn yn hynod o werthfawr wrth ddatblygu cymdeithas gydlynol. Ni fydd plant ifanc iawn yn gweld gwahaniaeth nes byddant yn dysgu neu'n mabwysiadu agweddau a rhagfarnau a allai fod yn bresennol o'u cwmpas.

Gweithredu cadarnhaol

3.44 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion weithio gyda dysgwyr, eu teuluoedd a chymunedau i sicrhau bod y cymorth priodol, ar yr adeg briodol, yn cael ei ddarparu i ddysgwyr i sicrhau'r canlyniadau gorau i'r plant neu'r bobl ifanc hynny. O dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y sector cyhoeddus, mae gan ysgolion gyfrifoldeb hefyd i sicrhau bod camau priodol ac effeithiol yn cael eu cymryd i gael gwared ar neu leihau anfanteision y mae dysgwyr yn eu hwynebu oherwydd eu nodweddion gwarchodedig.

4 Bwlio ac ymosodedd ar-lein

4.1 Mae deall bywydau plant a phobl ifanc mewn oes ddigidol yn dasg gymhleth, a gall cydbwyso hynny ag ystyriaeth i'r goblygiadau i addysg fod yn anodd iawn yn aml. Ar y naill llaw, ceir galwadau i gydnabod soffistigedigrwydd defnydd beunyddiol plant a phobl ifanc o gyfryngau digidol, ac am integreiddio llawer mwy o dechnoleg mewn addysg i baratoi dysgwyr yn effeithiol at eu bywydau presennol ac yn y dyfodol. Ar y llaw arall, ceir pryderon ynghylch niwed treulio amser helaeth yn gwylio sgriniau a phethau niweidiol ar-lein sy'n anodd eu rheoli a chyfyngu arnynt. Yn ychwanegol, er bod llawer o blant a phobl ifanc yn datblygu dealltwriaeth a phrofiad o amgylcheddau digidol o'u genedigaeth, mae eu mynediad at ddyfeisiau a'u profiad o ddefnyddio technolegau yn amrywio'n sylweddol. Nid yw'r gwahaniaeth hwn yn gysylltiedig ag amgylchiadau economaidd yn unig ond â'r gwahanol ffyrdd y bydd teganau ac adnoddau digidol yn cael eu defnyddio gan wahanol deuluoedd.

- *Internet Matters: Ffocws ar seiberfwlio (Saesneg yn unig)*
- *Cyngor y DU ar Ddiogelwch Plant ar y Rhyngrwyd (UKCCIS): Sut i ymdrin â sectsio mewn ysgolion a cholegau*
- *Internet Watch Foundation: 5 steps to removing online child sexual abuse material (Saesneg yn unig)*
- *Llywodraeth Cymru: Cadw dysgwyr yn ddiogel*
- *Childnet: Pecyn cymorth 'Star' ar gyfer dysgwyr sydd ag AAA (Saesneg yn unig)*
- *Llywodraeth Cymru: Parth Diogelwch Ar-lein ar Hwb*

hwb.gov.wales/playlists/view/57976d4f-7a52-4733-9bf6-c316120ea30e/cy/10

4.2 Yn aml, bydd technolegau digidol yn cynnig dulliau newydd o wneud y mathau o bethau yr oedd pobl yn eu gwneud yn barod, e.e. cymdeithasu ar-lein yn hytrach na gwneud hynny wyneb yn wyneb.

4.3 Os yw dyfodol technolegol yn anochel, mae angen i ysgolion ystyried effeithiau technoleg ddigidol y mae angen amddiffyn plant a phobl ifanc rhagddynt tra byddant yn datblygu cymhwysedd digidol, gan eu paratoi at y byd sy'n eu hwynebu.

4.4 Er bod technoleg yn hwyluso ymddygiadau bwlïaidd traddodiadol megis sarhau neu ledaenu sïon, mae hefyd yn darparu dulliau ychwanegol o fwlio a bychanu eraill, megis camddefnyddio delweddau neu fideos, ffrydio byw, defnyddio apiau negeseuon anhysbys neu aflonyddu ar rywun ar-lein. Bydd bwlio ar-lein yn aml yn digwydd ar yr un pryd â bwlio traddodiadol neu bydd yn ddilyniant o hynny, ond gall ddigwydd ar wahân.

4.5 Bydd y canfyddiad y gellir ymddwyn yn ddienw ar-lein yn aml yn achosi ymddygiad diymatal a chreulon a fyddai'n llai tebygol o ddigwydd wyneb yn wyneb[21].

[21] Suler, J (2004) 'The Online Disinhibition Effect', *Cyberpsychology and Behavior*, 7(3), tudalennau 321–326. (Saesneg yn unig.)

Gall technoleg helpu'r sawl sy'n ddiymadferth neu'n amhoblogaidd all-lein i fod â grym dros eraill neu i fwlio ar-lein. Oherwydd hynny, gallai dysgwyr sy'n cael eu targedu all-lein ddial yn ddienw ar-lein.

4.6 Gall ymddygiad bwlïaidd ar-lein gynnwys sawl nodwedd, yn cynnwys:

- proffil – nid oes yn rhaid i bobl fod yn gryfach yn gorfforol, yn hŷn nac yn fwy poblogaidd na'r sawl y byddant yn ei fwlio ar-lein
- lleoliad – nid yw bwlio ar-lein wedi'i gyfyngu i le go iawn a gall ddigwydd unrhyw bryd. Gall digwyddiadau ddigwydd yng nghartrefi dysgwyr, gan ymwthio i fannau a ystyrid yn ddiogel ac yn breifat yn flaenorol
- cynulleidfa – gall cynnwys ar-lein fod yn anodd ei ddileu a gellir ei ailgylchredeg a'i ailbostio. Mae'r niferoedd posibl o bobl a all weld cynnwys sydd wedi'i bostio ar-lein yn fawr iawn. Gall digwyddiadau unigol o gam-drin ar-lein ddatblygu'n fwlio yn gyflym, e.e. trwy ailbostio, rhannu a chynnig sylwadau
- anhysbysrwydd – efallai na fydd y sawl sy'n cael ei dargedu gan y bwlio yn gwybod pwy yw tramgwyddwr neu dramgwyddwyr yr ymddygiad bwlïaidd. Ni fydd y targed yn gwybod ychwaith pwy sydd wedi gweld y cynnwys camdriniol. Os bydd y tramgwyddwr yn mynd ati'n fwriadol i guddio ei enw oddi wrth y targed, gall hynny gael ei ystyried yn fath o ymosodedd goddefol, ac os caiff ei ailadrodd, gallai fod yn gyfystyr â bwlio
- cymhelliant – bydd bwlio ar-lein yn digwydd yn fwriadol fel rheol. Fodd bynnag, gall digwyddiadau cychwynnol arwain at ganlyniadau anfwriadol a gallant waethygu trwy gyfrwng cyfranogiad eraill. Efallai na fydd unigolyn yn credu ei fod yn cyfranogi mewn bwlio os bydd yn cymeradwyo neu'n ailbostio postiad gan rywun arall. Efallai na fydd y cyflawnwr wedi bwriadu ailadrodd sylw sarhaus neu niweidiol. Gall un digwyddiad – un postiad neu neges sy'n peri gofid – waethygu a datblygu'n fwlio sy'n cynnwys nifer o bobl dros gyfnod penodol.

Pam mae bwlio ar-lein yn unigryw o ran ei allu i beri gofid

4.7 Er bod bwlio all-lein yn dal yn fwy cyffredin na bwlio ar-lein[22], yn ôl dysgwyr mae nodweddion bwlio ar-lein, a nodir isod, yn golygu bod y profiad yn unigryw o ran ei allu i beri gofid.

- Gall y gynulleidfa fod yn ddi-ben-draw.
- Gall ddigwydd yn unrhyw le ac ar unrhyw adeg, ac ni ellir dianc rhagddo.
- Gall pobl anhysbys gyfranogi ynddo, ond bydd y rhan fwyaf o achosion yn cynnwys cyfoedion y bydd targedau yn eu hadnabod.
- Mae technoleg yn hwyluso'r gwaith o storio delweddau a negeseuon fel y gellir eu gweld dro ar ôl tro.

Beth yw rôl ysgolion?

4.8 Bydd cymhwysedd digidol yn gyfrifoldeb trawsgwricwlaidd, ynghyd â llythrennedd a rhifedd, yng Nghwricwlwm i Gymru 2022. Y Fframwaith Cymhwysedd Digidol yw

[22] Przybylski, A, Bowes, L (2017) 'Cyberbullying and adolescent well-being in England: a population-based cross-sectional study'. *The Lancet, Child and Adolescent Health*; 4; Young Minds and The Children's Society (2018). *Safety Net: Cyberbullying's impact on young people's mental health – Inquiry report*. (Saesneg yn unig.)

elfen gyntaf Cwricwlwm i Gymru 2022 a ddaeth ar gael ym mis Medi 2016. Mae gan y Fframwaith Cymhwysedd Digidol bedwar llinyn sydd oll yr un mor bwysig ('Dinasyddiaeth', 'Rhyngweithio a chydweithio', 'Cynhyrchu', a 'Data a meddwl cyfrifiadurol').

4.9 Mae pwyslais y llinyn 'Dinasyddiaeth' ar ddysgwyr yn datblygu'r sgiliau a'r ymddygiadau sy'n ofynnol i gyfrannu'n gadarnhaol at y byd digidol o'u cwmpas, sy'n cynnwys amddiffyn eu hunain ar-lein. Mae'r llinyn yn cynnwys elfennau 'Hunaniaeth, delwedd ac enw da', 'Iechyd a lles', 'Hawliau digidol, trwyddedu a pherchnogaeth', ac 'Ymddygiad ar-lein a seibrfwlio' (bwlio ar-lein). Bydd y sgiliau hyn yn helpu dysgwyr i werthuso eu lle yn y byd digidol yn feirniadol, i sicrhau eu bod yn barod i ymdrin ag agweddau cadarnhaol a negyddol bod yn ddinesydd digidol.

4.10 Mae'r llinyn 'Rhyngweithio a chydweithio' hefyd yn caniatáu i ddysgwyr archwilio dulliau cyfathrebu ffurfiol ac anffurfiol, gan gynnwys cyfryngau cymdeithasol a negeseuon ebrwydd. Yn ogystal ag ystyried sut i storio data, bydd dysgwyr hefyd yn ystyried oblygiadau deddfwriaeth ynghylch data a sut i rannu gwybodaeth yn briodol.

4.11 Mae'r amgylchedd digidol sy'n newid yn gyflym yn cynnig cyfleoedd buddiol dirifedi i blant a phobl ifanc. Ar yr un pryd, ceir risgiau ychwanegol a mathau newydd o fwlio ac ymosodedd. I sicrhau eu bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf, dylai ysgolion droi'n rheolaidd at y Parth Diogelwch Ar-lein (yn hwb.gov.wales/parthau/diogelwch-ar-lein) sy'n rhan o lwyfan dysgu digidol Hwb.

4.12 Mae gan ysgolion rymoedd i ddisgyblu dysgwyr am ddigwyddiadau sy'n digwydd oddi ar y safle a grymoedd i chwilio neu atafaelu ffonau symudol fel cosb disgyblu os bydd dysgwyr wedi gweithredu'n groes i bolisi ymddygiad a/neu bolisi gwrth-fwlio'r ysgol. Ceir rhagor o wybodaeth am rymoedd cyfreithiol yn adran 5.

Gweithredu cadarnhaol

4.13 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion ymdrin â bwlio ar-lein ble mae hynny'n effeithio ar les dysgwyr yn yr ysgol. Pan fydd hynny'n ofynnol, bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion gyfeirio achos at yr asiantaeth neu'r gwasanaeth priodol. Bydd yn rhaid i ysgolion weithredu mewn achosion sy'n cynnwys pryder sy'n ymwneud â diogelu. Dylai pob aelod o staff gael hyfforddiant rheolaidd ynghylch diogelu a diogelwch ar-lein.

4.14 Bydd gohebiaeth ar-lein a symudol yn gadael trywydd digidol. Mae cadw tystiolaeth yn hanfodol. Dylai ysgolion gofio y gall tystiolaeth gael ei ddileu neu gall ddiflannu o blatfformau gwylio ar-lein ar unrhyw adeg; gall gael ei dileu gan unigolion neu mewn ymateb i gais gan weinyddwyr corfforaethol platfformau cyfryngau cymdeithasol. Mae tynnu ciplun o'r sgrin yn ddull defnyddiol o gadw tystiolaeth. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion gofnodi digwyddiadau fel rhan o'u harferion ehangach i fonitro gwaith diogelu a thystiolaeth o ddylanwad hynny. Mewn rhai achosion, gall rhagor o dystiolaeth ddod i'r amlwg yn ddiweddarach ac efallai bydd yn rhaid adolygu hanes cyfan yr achos unwaith yn rhagor. Ceir rhagor o wybodaeth a chanllawiau ynghylch cofnodi gwybodaeth yn adran 11.


PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

5 Y gyfraith sy'n ymwneud â bwlio

5.1 Nid oes unrhyw ddiffiniad cyfreithiol o fwlio ym Mhrydain Fawr, ond gellir cymhwyso deddfwriaeth ehangach er mwyn mynd i'r afael â gweithredoedd bwlïaidd penodol.

5.2 Mae deddfwriaeth sy'n gymwys yng Nghymru, y DU ac yn ryngwladol sy'n ceisio gwarchod hawliau plant a phobl ifanc i fyw bywyd heb unrhyw gamdriniaeth a niwed, gan gynnwys bwlio. Mae deddfwriaeth a chonfesiynau rhyngwladol presennol sy'n berthnasol i fwlio yng Nghymru yn cynnwys y canlynol (mewn trefn gronolegol):

- Deddf Amddiffyn Plant 1978 (fel y'i diwygiwyd)
- Deddf Cyfathrebu Maleisus 1988
- Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988
- Deddf Plant 1989
- Deddf Addysg 1996
- Deddf Gwarchod rhag Aflonyddu 1997
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Deddf Addysg 2002
- Deddf Troseddau Rhywiol 2003 (fel y'i diwygiwyd)
- Deddf Plant 2004
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl (CCUHPA)
- Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006
- Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011
- Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013
- Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Deddf Troseddau Difrifol 2015
- Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015.

- *Llywodraeth Cymru: Cynnwys a chynorthwyo disgyblion*
- *Llywodraeth Cymru: Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein cenedl, Cynllun gweithredu 2017–21*
- *Llywodraeth Cymru: Dyfodol y Cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yng Nghymru*
- *Llywodraeth Cymru: Cadw dysgwyr yn ddiogel*
- *Llywodraeth Cymru: Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan*
- *Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: A yw Cymru'n Decach? 2015*
- *Llywodraeth Cymru: Canllaw i'r gyfraith i lywodraethwyr ysgolion – Ymddygiad a Phresenoldeb*
- *Llywodraeth Cymru: Fframwaith Cymhwysedd Digidol*
- *Llywodraeth Cymru: Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed yng Nghymru*
- *Llywodraeth Cymru: Canllawiau Gwrthsafiad a pharch 2016*
- *Llywodraeth Cymru: Canllawiau ynghylch Cod Ymddygiad wrth Deithio ar gyfer Cymru Gyfan*
- *Llywodraeth Cymru: Amddiffyn plant a phobl ifanc rhag camfanteisio rhywiol*
- *Cynulliad Cenedlaethol Cymru: Gwella Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc*
- *Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: Tuag at Gymru Decach 2018*
- *Ysgolion a dyletswydd 'Prevent' (Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015) (Saesneg yn unig)*
- *Estyn: Gweithredu ar fwlio 2014*
- *Estyn: Fframwaith arolygu cyffredin*
- *Llywodraeth Cymru: Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru*

hwb.gov.wales/playlists/view/57976d4f-7a52-4733-9bf6-c316120ea30e/cy/12

Deddf Hawliau Dynol 1998

5.3 Mae Deddf Hawliau Dynol 1998 yn nodi'r hawliau a'r rhyddidau sylfaenol y mae gan bawb yn y DU hawl i'w cael. Mae'n ymgorffori'r hawliau a nodir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (ECHR) yng nghyfraith wladol Prydain. Daeth y Ddeddf Hawliau Dynol i rym yn y DU ym mis Hydref 2000.

5.4 Mae Deddf 1998 yn ei gwneud yn ofynnol i bob corff cyhoeddus, gan gynnwys ysgolion ac awdurdodau lleol, a chyrff eraill sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus, barchu a gwarchod hawliau dynol unigolion.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)

5.5 Yn 2004, mabwysiadodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) fel sail i'r holl waith o lunio polisïau ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011

5.6 Yn 2011, cymeradwyodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru Fesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) ('Mesur 2011'), ac fe wnaeth hynny gryfhau'r dull gweithredu seiliedig ar hawliau ac ychwanegu ato. Gosododd hynny ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyledus i ofynion CCUHP wrth arfer unrhyw un o'u swyddogaethau.

5.7 Mae Mesur 2011 yn sail i'r fframwaith a'r gwerthoedd ar gyfer sefydliadau addysg. Mae gan blant a phobl ifanc hawl i fod yn ddiogel a hawl i gael addysg.

5.8 Mae gan awdurdodau cyhoeddus ddyletswyddau sy'n cyfrannu at wireddu hawliau plant a phobl ifanc fel y nodir yn CCUHP a Mesur 2011.

Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl Anabl (CCUHPA)

5.9 Diben CCUHPA yw hybu, amddiffyn a sicrhau'r holl hawliau dynol a'r rhyddidau sylfaenol sydd gan bawb sydd ag anableddau a sicrhau y gallant eu mwynhau yn llawn ac yn gyfartal, a hyrwyddo parch at eu hurddas cynhenid.

5.10 Mae pobl sydd ag anableddau yn cynnwys y sawl sydd â namau corfforol, meddyliol, deallusol neu synhwyraidd hirdymor, a allai, wrth fynd i'r afael â rhwystrau amrywiol, rwystro eu cyfranogiad llawn ac effeithiol yn y gymdeithas yn yr un modd â phobl eraill.

5.11 Dyma egwyddorion CCUHPA:

- parch at urddas cynhenid, ymreolaeth unigolion gan gynnwys y rhyddid i bobl wneud eu dewisiadau eu hunain, ac annibyniaeth pobl
- peidio gwahaniaethu
- cyfranogiad a chynhwysiant llawn ac effeithiol yn y gymdeithas
- parch at wahaniaeth a derbyn pobl ag anableddau fel rhan o amrywiaeth ddynol a'r ddynoliaeth
- cyfleoedd cyfartal
- hygyrchedd
- cydraddoldeb rhwng y rhywiau
- parch at alluoedd datblygol plant a phobl ifanc sydd ag anableddau a pharch at hawl plant a phobl ifanc sydd ag anableddau i gynnal eu hunaniaeth.

Deddf Addysg 2002

5.12 Mae Deddf Addysg 2002 yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar ysgolion a gynhelir ac awdurdodau lleol i ddiogelu plant a phobl ifanc a hybu eu llesiant.

5.13 Gall rhai achosion o fwlio fod yn fater sy'n ymwneud ag amddiffyn plentyn neu berson ifanc hefyd, neu gallant ddatgelu mater o'r fath. Dylid ymdrin ag achos o fwlio fel mater sy'n ymwneud ag amddiffyn plant neu bobl ifanc o dan Ddeddf Plant 1989 pan fo 'achos rhesymol i amau bod plentyn neu berson ifanc yn dioddef, neu'n debygol o ddioddef, niwed sylweddol'. Mae'n rhaid hysbysu'r aelod o staff yn yr ysgol sy'n gyfrifol am amddiffyn plant a phobl ifanc am y pryderon hyn, ac yna dylid rhoi gwybod i wasanaethau cymdeithasol plant yr awdurdod lleol amdanynt. (Mae'r cyfrifoldeb hwn bellach yn cwmpasu digwyddiadau bwlio ar-lein os bydd hynny'n effeithio ar les dysgwyr yn yr ysgol.)

Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006

5.14 Yn unol ag adran 89 Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 ('Deddf 2006'), mae'n ofynnol i benaethiaid ysgolion a gynhelir bennu mesurau i:

(a) hybu, ymhlith dysgwyr, hunanddisgyblaeth a pharch priodol at awdurdod

(b) annog ymddygiad da a pharch at eraill gan ddysgwyr, ac yn benodol, atal unrhyw fath o fwlio ymhlith dysgwyr

(c) sicrhau bod safon ymddygiad dysgwyr yn dderbyniol, sicrhau bod dysgwyr yn cwblhau unrhyw dasg a roddir yn rhesymol iddynt mewn cysylltiad â'u haddysg, ac mewn ffyrdd eraill, rheoli ymddygiad dysgwyr.

Wrth benderfynu ar fesurau o'r fath, bydd yn rhaid i'r pennaeth weithredu yn unol â'r polisi ymddygiad, rhywbeth y mae Deddf 2006 yn nodi y dylai pob ysgol ei sefydlu. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i weithdrefnau sy'n amlinellu sut bydd ysgol yn mynd i'r afael â bwlio a strategaethau i herio ymddygiad bwlïaidd gael eu nodi'n glir ym mholisi gwrth-fwlio ysgol. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y caiff y mesurau hyn eu cyfleu i bob dysgwr, staff ysgolion a rhieni/gofalwyr. Mae'n rhaid i'r pennaeth sefydlu a mabwysiadu'r polisi, ac mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob dysgwr, staff ysgolion a rhieni/gofalwyr gael eu hysbysu amdano ar ôl iddo gael ei benderfynu.

5.15 O dan Ddeddf 2006, gall penaethiaid bennu mesurau i reoleiddio ymddygiad dysgwyr pan fyddant oddi allan i safle'r ysgol neu pan na fydd aelod o staff yn eu rheoli neu'n gyfrifol amdanynt. Mae hyn yn arbennig o arwyddocaol yn achos bwlio ar-lein, sy'n aml yn digwydd y tu allan i'r ysgol ond sy'n gallu effeithio'n gryf iawn ar fywyd ysgol dysgwyr sy'n ymwneud â hynny.

5.16 Mae Deddf 2006 hefyd yn darparu amddiffyniad i staff ysgolion wrth gymryd eitemau, megis ffonau symudol, oddi ar ddysgwyr os byddant yn cael eu defnyddio i achosi aflonyddwch yn y dosbarth neu os byddant yn cael eu defnyddio i fynd yn groes i bolisi ymddygiad a/neu bolisi gwrth-fwlio'r ysgol, a byddant yn cael eu cymryd fel cosb ddisgyblu. Gall staff ysgol ofyn i ddysgwyr ddatgelu neges neu

ddangos cynnwys arall iddynt ar eu ffôn at ddibenion canfod a yw bwlio wedi digwydd. Gallai gwrthod cydymffurfio arwain at orfodi cosb ddisgyblu am fethu â dilyn cyfarwyddyd rhesymol. Os bydd y neges testun neu'r ddelwedd yn weladwy ar y ffôn, gall staff weithredu mewn ymateb i hynny. Os yw polisi ymddygiad yr ysgol yn caniatáu hynny yn benodol, gall aelod o'r staff chwilio* trwy'r ffôn ei hun os bydd amheuaeth resymol fod y dysgwr wedi tramgwyddo. Fodd bynnag, cynghorir staff i beidio byth â gwneud hyn heb i aelod priodol arall o'r staff fod yn bresennol. Mae'n well gwneud hyn gyda'r arweinydd diogelu dynodedig neu'r rheolwr TGCh, ac ysgrifennu cofnod ysgrifenedig gofalus o'r dyddiad, yr amser, pwy oedd yn bresennol a phwrpas y chwilio ac unrhyw dystiolaeth i ddangos bod gwneud hynny'n angenrheidiol. Mae'n hollbwysig fod polisi gwrth-fwlio a/neu ymddygiad eich ysgol yn ymdrin yn drylwyr â'r materion hyn.

Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008

5.17 Mae'n rhaid i'r pennaeth ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr yn yr ysgol gydymffurfio â'r Cod Ymddygiad wrth Deithio statudol ('y Cod') a luniwyd gan Weinidogion Cymru dan adran 12 Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008. Mae'r Cod yn amlinellu gofynion penodol ynghylch ymddygiad dysgwyr pan fyddant yn teithio. Mae'r Cod yn mynnu na ddylai unrhyw ddysgwr 'fyth fwlio dysgwyr eraill' ac y dylent 'barchu eraill (yn cynnwys gyrrwr y bws)'.

5.18 Diben y Cod yw hybu diogelwch wrth deithio, trwy bennu set o safonau ymddygiad ledled Cymru, ar gyfer pob dysgwr, beth bynnag fo'r dull o deithio. Mae hyn yn cynnwys bysys contract, bysys cyhoeddus, trenau cyhoeddus, cerdded, tacsis, sgwteri a beiciau modur, beicio a theithiau mewn ceir. Mae'n gymwys i bob dysgwr sydd o dan 19 oed (neu rai dros 19 oed a gychwynnodd gwrs pan oeddent o dan 19 oed ac sy'n parhau i fynychu'r cwrs hwnnw).

5.19 Mae canllawiau'r Cod yn nodi'r fframwaith ar gyfer y drefn sancsiynau sy'n rhan o'r Cod, sy'n caniatáu atal cludiant am ddim neu gymorthdaledig am gyfnodau penodol os bydd dysgwr yn camymddwyn wrth deithio ar gludiant i ddysgwyr.

5.20 Efallai y bydd amgylchiadau pan na fydd hi'n briodol mynd i'r afael ag ymddygiad y dysgwr trwy gyfrwng y Cod, a dan yr amgylchiadau hynny, bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion gydweithio â'u hawdurdod lleol ac â rhieni/gofalwyr a gwasanaethau eraill megis gweithwyr iechyd proffesiynol, yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol, ac ati. Gall bwlio fod yn enghraifft o hyn.

5.21 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r Cod fod yn rhan o bolisïau ymddygiad a gwrth-fwlio ysgol. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y byddir yn ymdrin ag unrhyw gamymddwyn, yn cynnwys bwlio, yn ystod y daith i'r ysgol neu oddi yno gan ddefnyddio'r polisi mwyaf priodol, megis polisïau ymddygiad a gwrth-fwlio'r ysgol, neu trwy orfodi'r Cod Teithio.

Deddf Cydraddoldeb 2010

5.22 Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 ('Deddf 2010') yn darparu amddiffyniad rhag gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth i ddysgwyr sydd ag un o'r nodweddion gwarchodedig sy'n cael eu disgrifio yn Neddf 2010.

5.23 Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion weithredu i wella canlyniadau i ddysgwyr sydd â nodweddion gwarchodedig gwahanol. Mae'n ofyniad cyfreithiol, o dan Ddeddf 2010, y mae'n rhaid i ysgolion yng Nghymru lynu wrtho. Gellir ei ddefnyddio fel dull defnyddiol o fynd i'r afael â bwlio sy'n gysylltiedig â rhagfarn a sefydlu dull gweithredu ar lefel yr ysgol gyfan.

5.24 Mae gan y ddyletswydd gyffredinol dri nod, ac mae gan bob un gysylltiadau clir â gwaith gwrth-fwlio. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i ysgolion yng Nghymru roi sylw dyledus i'r angen i:

- ddileu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth
- hybu cydraddoldeb a chyfleoedd cyfartal
- meithrin perthnasoedd da ar draws yr holl nodweddion gwarchodedig.

5.25 Er mwyn cyflawni tri nod y ddyletswydd gyffredinol, mae gan ysgolion dair set o ddyletswyddau penodol:

- casglu, dadansoddi a chyhoeddi gwybodaeth am eu cynnydd wrth gyflawni tri nod Deddf 2010
- penderfynu ar nifer o amcanion penodol a mesuradwy y byddant yn eu canlyn yn ystod y blynyddoedd sy'n dod er mwyn cyflawni'r tri nod a chyhoeddi'r amcanion hyn

ac wrth gyflawni'r ddwy set gyntaf o ddyletswyddau penodol:

- ymgysylltu â phobl sydd â buddiant dilys – gan gynnwys yr holl staff, pob rhiant/gofalwr a dysgwr, a grwpiau lleol, sefydliadau ac unigolion fel y bo'n briodol.

5.26 Yn unol â Dyletswydd Cydraddoldeb y sector cyhoeddus, mae gan gyrff llywodraethu ysgolion ddyletswyddau penodol hefyd i weithredu i sicrhau y caiff y ddyletswydd gyffredinol ei pherfformio'n well.

Mae'n rhaid i gyrff llywodraethu ysgolion:

- gyhoeddi 'amcanion cydraddoldeb' yr ysgol a'u hadolygu o fewn pedair blynedd
- cyhoeddi datganiad sy'n amlinellu'r camau y mae wedi'u cymryd neu'r rhai mae'n bwriadu eu cymryd er mwyn cyflawni bob amcan cydraddoldeb
- gwneud trefniadau priodol i fonitro ei gynnydd a'i effeithiolrwydd
- (wrth gynllunio amcanion cydraddoldeb) sicrhau y bydd yn rhoi ystyriaeth briodol i wybodaeth berthnasol sydd ganddi a cheisio cyfranogiad yr unigolion hynny y mae'n ystyried eu bod yn cynrychioli buddiannau'r sawl sy'n rhannu un neu ragor o'r nodweddion gwarchodedig.

5.27 Mae rhagor o wybodaeth sy'n amlinellu disgwyliad Llywodraeth Cymru ynghylch cydymffurfiaeth ysgolion â'r ddarpariaeth hon wedi'i hamlinellu yn adran 11.

Deddfwriaeth tramgwyddau troseddol

5.28 Gallai rhai gweithgareddau bwlïaidd ar-lein fod yn droseddau o dan ystod o wahanol ddeddfau, gan gynnwys Deddf Cyfathrebu Maleisus 1988 a Deddf Amddiffyn rhag Aflonyddu 1997.

Deddf Cyfathrebu Maleisus 1988

5.29 Mae adran 1 Deddf Cyfathrebu Maleisus 1988 yn ei gwneud yn drosedd anfon llythyr, gohebiaeth electronig neu eitemau eraill sy'n anweddus, yn dramgwyddus neu'n fygythiol at rywun arall gan fwriadu i hynny achosi trallod neu bryder iddo.

Deddf Gwarchod rhag Aflonyddu 1997

5.30 Mae Deddf Gwarchod rhag Aflonyddu 1977 yn berthnasol i ddigwyddiadau sydd wedi digwydd dro ar ôl tro (h.y. ddwywaith neu ragor). Mae adran 1 yn gwahardd ymddygiad sy'n gyfystyr ag aflonyddu ar rywun arall. Mae adran 2 yn darparu tramgwydd troseddol ac mae adran 3 yn darparu rhwymedi sifil am dorri'r gwaharddiad ar aflonyddu yn adran 1. Mae adran 4 yn darparu trosedd fwy difrifol, sef rhywun yn gwneud i rywun arall bryderu, o leiaf ddwywaith, y bydd trais yn cael ei ddefnyddio yn ei erbyn. Gall llys sifil roi gwaharddeb i atal unigolyn rhag ymddwyn mewn modd sy'n gyfystyr ag aflonyddu ac, yn dilyn euogfarn o drosedd o dan adrannau 2 neu 4, bydd gorchmynion atal ar gael i amddiffyn targedau'r drosedd.

5.31 O dan **Ddeddf Amddiffyn Plant 1978 (fel y'i diwygiwyd)** a **Deddf Cyfiawnder Troseddol 1988**, mae'n anghyfreithlon gwneud, cylchredeg neu feddu ar ddelweddau anweddus o blentyn neu berson ifanc o dan 18 oed.

5.32 Mae adran 67 **Deddf Troseddau Difrifol 2015** yn ychwanegu trosedd newydd at adran 15A **Deddf Troseddau Rhywiol 2003**, sy'n gwneud cyfathrebu rhywiol â phlentyn yn dramgwydd troseddol. O dan y gyfraith newydd, mae'n anghyfreithlon i unrhyw un sydd dros 18 oed yng Nghymru a Lloegr anfon neges rhywiol eglur at blentyn neu berson ifanc, neu geisio annog y plentyn neu'r person ifanc i anfon rhywbeth eglur ei hun.

5.33 Os bydd staff ysgolion neu rieni/gofalwyr yn credu y gallai trosedd fod wedi cael ei chyflawni, dylent ofyn i'r heddlu am gymorth.

5.34 Mae pennod 5.5 Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan[23] yn trafod delweddau anweddus o blant neu bobl ifanc a'r rhyngrwyd.

[23] Mae Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd.

Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015

5.35 Mae Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 yn gosod dyletswydd ar ysgolion mewn perthynas â dyletswydd 'Prevent'. Mae'n rhaid i ysgolion ddangos eu bod yn amddiffyn plant a phobl ifanc rhag cael eu denu at derfysgaeth trwy sefydlu polisïau diogelu cadarn i nodi plant a phobl ifanc sydd mewn perygl, a phan fydd hynny'n ofynnol, ymyrryd cyn gynted ag y bo modd. Mae hyn yn berthnasol yng nghyd-destun bwlio oherwydd gall plant sydd wedi'u hynysu, sy'n cael eu herlid a/neu sydd oherwydd unrhyw reswm arall yn credu nad ydynt yn perthyn, fod yn fwy tebygol o gael eu denu gan y sawl sy'n dymuno eu recriwtio a meithrin perthynas amhriodol â hwy.

5.36 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion fod â gweithdrefnau diogelu clir yn eu lle sy'n ymdrin â materion sy'n gysylltiedig â dyletswydd 'Prevent'.



6 Strategaethau gwrth-fwlio effeithiol

Beth sy'n llwyddo wrth lansio strategaethau newydd?

6.1 I fynd ati'n llwyddiannus i weithredu strategaeth gwrth-fwlio effeithiol i herio ac atal bwlio mewn ysgolion, mae'n rhaid cynnwys cymuned gyfan yr ysgol. Mae gweithredu ar lefel yr ysgol gyfan yn fwy tebygol o lwyddo nag un fenter gan athro/athrawes neu grŵp o ddysgwyr.

- *Comisiynydd Plant Cymru: Stori Sam*
- *Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: Astudiaeth achos Ysgol Redhill (Saesneg yn unig)*
- *Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: Astudiaeth achos Ysgol Trinity (AAA) (Saesneg yn unig)*
- *Llywodraeth Cymru: Ffurflen cofnodi digwyddiadau bwlio*
- *Llywodraeth Cymru: Ffurflen cofnodi digwyddiadau bwlio ar-lein*
- *Llywodraeth Cymru: Taflenni ffeithiau herio hiliaeth mewn ysgolion*
- *Llywodraeth Cymru: Pecyn cymorth Ymgysylltu â'r Gymuned a Theuluoedd (YGaTh)*

hwb.gov.wales/playlists/view/57976d4f-7a52-4733-9bf6-c316120ea30e/cy/17

6.2 Bydd yr ymyriadau mwyaf effeithiol yn cael eu cynnal dros y tymor hir, ac yn cael eu datblygu ar y cyd â staff, dysgwyr, rhieni/gofalwyr a phartneriaid yn y gymuned. Caiff y rhain eu monitro, eu gwerthuso a'u diwygio'n rheolaidd i adlewyrchu newidiadau mewn amgylchiadau neu gyd-destun. Caiff ymyriadau eu hategu gan ethos ysgol sy'n llesteirio bwlio ac yn hybu empathi a pharch. Mae un ymyrraeth neu fenter yn annhebygol o gynnig ateb a wnaiff ddatrys bwlio a bydd y strategaeth gwrth-fwlio fwyaf effeithiol fel arfer yn cynnwys ystod o adnoddau y gellir eu haddasu i gyd-fynd â digwyddiadau penodol a byddant yn rhan o ddull gweithredu ehangach ar lefel yr ysgol gyfan ynghylch lles.

6.3 Mae Deddf Plant 2004 yn gosod dyletswydd statudol ar bob awdurdod sy'n darparu gwasanaethau plant i gydweithio â rhanddeiliaid ac asiantaethau sy'n bartneriaid iddynt i ddarparu gwasanaethau integredig a gwella ymyriadau ataliol a chynnar i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd.

6.4 Mae Llywodraeth Cymru yn argymell y dylai ysgolion sefydlu arweinydd gwrth-fwlio yn eu hysgolion fel rôl benodedig ar gyfer unigolyn neu dîm. Dyma gyfrifoldebau allweddol y rôl:

- llunio ac adolygu polisi gwrth-fwlio, a'i ddatblygu'n rheolaidd. Bydd hyn yn cynnwys pob dysgwr, pob aelod o staff, rhieni/gofalwyr, llywodraethwyr yr ysgol ac awdurdodau lleol perthnasol
- gweithredu'r polisi. Bydd hyn yn cynnwys asesiadau ar adegau penodedig a monitro'i effeithiolrwydd a'r cynnydd sy'n cael ei wneud

- sicrhau bod pob gweithdrefn yn cael ei gwerthuso a bod hyn yn hysbysu adolygiadau o'r polisi. Bydd hyn yn cynnwys cofnodi'r holl adolygiadau ynghylch gweithdrefnau, dogfennaeth ac ati
- rheoli prosesau a ddefnyddir mewn achosion o fwlio, megis y math o ymyriad a ddefnyddir, rhoi gwybod am fwlio, cofnodi, monitro ac ati
- cydlynu a rheoli hyfforddiant a chymorth ar gyfer staff a rhieni/gofalwyr pan fo hynny'n briodol
- ymchwilio i strategaethau ar gyfer atal ymddygiad bwlïaidd, eu gwerthuso a'u harfarnu.

6.5 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd strategaeth gwrth-fwlio effeithiol yn amlinellu sut mae'r ysgol yn bwriadu cydlynu ei gwaith gwrth-fwlio fel rhan o'i dull gweithredu ar lefel yr ysgol gyfan. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl iddi gynnwys datblygu amrywiaeth cyfannol o ymyriadau, sy'n cynnwys atal, nodi ac ymateb i ddigwyddiadau bwlio a'u herio.

6.6 I gyflawni dull gweithredu ar lefel yr ysgol gyfan, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion:

- fod yn cael arweinyddiaeth foesol gref gan y pennaeth, uwch arweinwyr eraill a'r corff llywodraethu, sy'n modelu gwerthoedd a disgwyliadau uchel, ac felly'n 'arwain trwy esiampl' trwy weld gwerth mewn iechyd a lles
- sefydlu hinsawdd a diwylliant ble bydd dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn ystyried eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, sy'n hybu CCUHP ac, yn benodol, yn ceisio ac yn gwrando ar lais y plentyn neu'r person ifanc
- sefydlu dealltwriaeth cadarn o iechyd a lles eu dysgwyr a dulliau effeithiol o fonitro a gwerthuso hyn
- darparu cwricwlwm sy'n diwallu anghenion dysgwyr (nawr ac yn y dyfodol), sy'n cael ei weithredu trwy gyfrwng profiadau dysgu sy'n cynorthwyo ac yn herio dysgwyr mewn perthynas â'u hiechyd a'u lles
- sefydlu a chynnal gofal, cymorth ac arweiniad cryf ac ymatebol
- creu amgylchedd sy'n hybu iechyd a lles (e.e. lle i chwarae ac ymlacio gan elwa'n llawn o fuddion dysgu yn yr awyr agored pan fo hynny'n bosibl, cyfleusterau toiledau addas, cefnogi bwyd a diod iach, sicrhau diogelwch y safle ac ati)
- sicrhau bod cyfathrebu a chydweithio effeithiol yn digwydd â rhieni/gofalwyr
- cynnal dysgu proffesiynol ar gyfer pob aelod o staff, sydd wedi'i deilwra i ddiwallu eu hanghenion ac sy'n cyd-fynd â'u cyfrifoldebau.

6.7 Cyn lansio strategaeth gwrth-fwlio newydd, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion:

- ymgysylltu'n helaeth â chymuned yr ysgol i sicrhau bod eu polisïau a'u gweithdrefnau'n berthnasol a'u diweddaru'n rheolaidd. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion adolygu eu polisïau o leiaf bob tair blynedd neu'n gynt na hynny gan ystyried mentrau newydd neu newid ehangach mewn polisi perthnasol

- gosod amcanion clir a realistig ynghylch beth mae'r strategaeth yn ceisio ei gyflawni (mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i weithgareddau gwella ymwybyddiaeth gael eu cynnal i hyrwyddo'r amcanion hyn ymhlith staff a dysgwyr)
- os bydd angen hynny, darparu hyfforddiant ynghylch sut i weithredu amcanion y strategaeth.

6.8 Ceir gwybodaeth am y mathau o drefniadau llywodraethu y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion eu sefydlu yn adran 7.

6.9 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i waith atal gael ei ymgorffori'n llawn. Ceir rhagor o wybodaeth am atal yn adran 8.

Sut bydd ysgol yn gwybod bod ei strategaeth yn effeithiol?

6.10 Pan gaiff strategaeth ei chyflwyno, bydd cylch o arferion adfyfyriol yn cychwyn mesur y sefyllfa ar yr adeg honno gan ddarparu gwaelodlin y gellir ei defnyddio i feincnodi cynnydd. Mae Llywodraeth Cymru yn cynghori y dylai ysgolion gynnal ymarfer hunanwerthuso i geisio adborth gan staff a dysgwyr er mwyn mesur faint o ymddygiad bwlïaidd sy'n bodoli ar y pryd. Mae arolygon yn cynnig dull defnyddiol o gasglu'r wybodaeth hon, ac mae enghreifftiau o arolygon ar gael yn y pecyn cymorth.

6.11 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion fesur safbwyntiau dysgwyr, rhieni/gofalwyr a staff yn rheolaidd. Trwy wneud hyn, byddant yn gallu mesur effeithiolrwydd.

6.12 Mae monitro digwyddiadau bwlio yn galluogi ysgol i nodi patrymau ymddygiad a faint o fwlio sy'n digwydd, a bydd hynny yn eu galluogi i gymryd camau rhagweithiol i herio ymddygiad annerbyniol a bwlio. Mae adran 11 yn cynnig rhagor o wybodaeth am roi gwybod am ddigwyddiadau a threfniadau i'w cofnodi a'u monitro. Mae ysgolion sy'n defnyddio prosesau monitro yn y sefyllfa orau i allu addasu eu polisiau gwrth-fwlio yn effeithiol i ymateb i dueddiadau a materion penodol.

6.13 Mae data yn cyfrannu at hunanwerthuso ac at gynllun datblygu'r ysgol, gan helpu ysgolion i:

- ddeall y sefyllfa bresennol a dangos ar beth ddylent ganolbwyntio'u hymdrechion
- cynorthwyo i gyflawni'r nodau cydraddoldeb y mae ysgolion wedi'u gosod
- mesur ac arddangos llwyddiant
- cyflawni eu cyfrifoldebau cyffredinol a phenodol o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y sector cyhoeddus.

6.14 Pan fydd ysgolion ac awdurdodau lleol yn casglu data ynghylch achosion o fwlio mewn ysgolion, byddai llawer o'r data hynny yn ddata personol yn unol â diffiniad ddeddfwriaeth diogelu data, megis Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR) yr UE a Deddf Diogelu Data'r DU 2018, bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion gydweithio â'u Swyddog Diogelu Data i sicrhau y caiff yr holl ddata personol eu prosesu yn gyfreithlon a gan sicrhau y caiff hawliau'r unigolyn eu diogelu'n briodol.

Pam mae'n bwysig cynnwys dysgwyr yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu strategaeth gwrth-fwlio?

6.15 Heb gyfranogiad brwd y plant a'r bobl ifanc yn eu hysgol, nid yw strategaethau gwrth-fwlio yn debygol o lwyddo. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion ymgynghori â dysgwyr fel cam hanfodol ym mhob elfen o waith gwrth-fwlio.

6.16 Argymhellir y dylai corff llywodraethu'r ysgol benodi llywodraethwr cyswllt i gysylltu â chyngor yr ysgol. Dylai ysgolion yng Nghymru sicrhau bod cyngor eu hysgol yn cael cyfle i enwebu hyd at ddau ddysgwr o Flynyddoedd 11, 12 a/neu 13 o blith ei aelodau i fod yn ddysgwyr lywodraethwyr cyswllt ar gorff llywodraethu'r ysgol[24].

6.17 I ganfod pa mor effeithiol yw strategaeth ysgol, mae'n bwysig ymgynghori â phawb sy'n cyfrannu at weithredu'r strategaeth, ac mae hyn yn cynnwys y dysgwyr. Mewn rhai ysgolion, efallai bydd staff yn credu bod y strategaeth yn gweithio'n dda, ond gallai'r rhan fwyaf o ddysgwyr fynegi barn wahanol. I sicrhau fod strategaeth mor effeithiol ag y bo modd, mae'n rhaid cael consensws cyffredinol bod y strategaeth yn llwyddo. Mae hyn yn golygu trafodaeth gyson rhwng staff a dysgwyr. Un cwestiwn allweddol y dylid ei holi'n rheolaidd yw 'A ellid ei gwella mewn unrhyw ffordd?'. Gallai rhai dulliau weithio'n well o dan rai amgylchiadau. Efallai na fydd syniadau da yn llwyddiannus oherwydd yr angen i sefydlu newidiadau bychan ond arwyddocaol.

6.18 Enghraifft o hyn oedd ysgol oedd wedi mynd i gryn drafferth i hyfforddi cefnogwyr cyfoedion, ac yna, sylweddolodd nad oedd wedi cael unrhyw adroddiad wedi dau dymor. Canfu'r ysgol honno bod yr ystafell a neilltuwyd i blant er mwyn gallu cwrdd a sgwrsio â chefnogwyr cyfoedion yn cael ei galw yn 'bowlen bysgod' gan ddysgwyr, oherwydd roedd y paneli gwydr yn golygu eu bod yn hynod o weladwy yno. Nid oeddent yn defnyddio'r ystafell, nid oherwydd bod y cymorth gan gyfoedion a gynigid yn anaddas, ond oherwydd y cyfleuster anaddas a ddarparwyd.

6.19 Mae cwestiynau defnyddiol y gallai ysgolion eu holi cyn gweithredu strategaethau gwrth-fwlio yn cynnwys:

- a yw dysgwyr yn deall beth yw ystyr bwlio?
- a yw dysgwyr yn deall y gallant roi gwybod am fathau eraill o ddigwyddiadau sydd ddim yn fwlio?
- sut gall dysgwyr roi gwybod am bryder neu achos o fwlio ac a yw'r dulliau hyn yn effeithiol ac yn cael eu defnyddio?
- a yw awgrymiadau a sylwadau dysgwyr wedi cael eu hystyried wrth ddatblygu'r strategaeth hon?
- a yw dysgwyr wedi cael eu paratoi'n llawn at lansiad strategaeth newydd?

[24] Mae Rheoliadau Cynghorau Ysgolion (Cymru) 2005 yn diwygio Rheoliadau Llywodraethu Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2005 i ganiatáu penodi dysgwyr lywodraethwyr cyswllt i gorff llywodraethu pob ysgol uwchradd a gynhelir.

Pam mae'n bwysig cynnwys rhieni/gofalwyr yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu strategaeth gwrth-fwlio?

6.20 Mae'n hanfodol bod plant a phobl ifanc yn cael eu haddysgu, gartref ac yn yr ysgol, ynghylch datblygu a chynnal perthnasoedd parchus. Dyma'r conglfaen y mae ymddygiad cadarnhaol yn seiliedig arno.

6.21 Mae gan rieni/gofalwyr gyfraniad pwysig i'w wneud, fel rhan o gymuned yr ysgol, o ran ysgwyddo cyfrifoldeb am ymddygiad eu plentyn yn yr ysgol ac oddi allan iddi; mae gan ysgolion gyfrifoldeb o'r fath hefyd (ceir rhagor o wybodaeth ym mharagraff 6.25 ynghylch cyfrifoldeb ysgol am ymddygiad dysgwyr oddi allan i'r ysgol).

6.22 Mae cydweithio rhwng yr ysgol a rhieni/gofalwyr i gynnal safonau uchel o ran ymddygiad ac annog parch a charedigrwydd tuag at bobl eraill yn hanfodol.

6.23 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion ymgysylltu â rhieni/gofalwyr, gan ystyried y canlynol wrth ddatblygu a chyflwyno eu strategaeth gwrth-fwlio.

- A yw rhieni/gofalwyr yn ymwybodol o'r strategaeth newydd neu'r strategaeth bresennol? A ydynt yn gwybod sut fyddai'r ysgol yn dymuno iddynt roi gwybod am unrhyw bryderon a sut i fynd ati'n briodol i uwchgyfeirio materion os na fyddant yn fodlon â chanlyniad eu pryder gwreiddiol?
- A yw rhieni/gofalwyr yn gwybod pwy allant gysylltu â hwy wrth fynegi pryder am fwlio a pha dystiolaeth y dylent ei ddarparu?
- A ymgysylltwyd â rhieni/gofalwyr i gynorthwyo eu plant a chynnal gweledigaeth a gwerthoedd yr ysgol?
- Os yw rhieni/gofalwyr yn gwybod bod rhagfarn a gwahaniaethu yn annerbyniol yng nghymuned yr ysgol, gall hynny'n helpu ysgol i fynd i'r afael â digwyddiadau pan fyddant yn digwydd.
- Os bydd rhieni/gofalwyr yn anfodlon â'r modd y bydd yr ysgol wedi ymdrin ag achos o fwlio y gwnaethant roi gwybod amdano, dylent fod yn ymwybodol o drefn gweithredu cwynion yr ysgol.

6.24 Mae amrywiaeth o dechnegau y gall ysgolion eu defnyddio i sicrhau cyfranogiad effeithiol gan rieni/gofalwyr, yn cynnwys:

- ffurflenni adborth ar-lein
- cyfarfodydd grwpiau gyda staff a rhieni/gofalwyr
- nosweithiau rhieni/gofalwyr i helpu teuluoedd i gynorthwyo eu plant i ddysgu yn ogystal â rhoi cyfle i rieni/gofalwyr gynnig adborth o ansawdd uchel ynghylch cynnydd eu plentyn a'r amgylchedd dysgu.

Dylech elwa o gyfleoedd eraill i hysbysu teuluoedd am y dulliau mwyaf effeithiol y gallant eu defnyddio i gefnogi addysg a lles eu plentyn, a'u cynorthwyo i weithredu mewn ymateb i hyn, e.e. llunio tasgau gwaith cartref y bydd dysgwyr yn eu cwblhau gyda'u teuluoedd, darparu negeseuon mewn llyfrau gwaith cartref neu lyfrau cartref–ysgol neu lyfrau e-ddysgu ac ati.

Ymddygiad oddi allan i'r ysgol

6.25 Mae adran 89(5A) Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006 yn rhoi grym statudol i benaethiaid reoleiddio ymddygiad dysgwyr o dan yr amgylchiadau hyn 'i'r graddau sy'n rhesymol'. Gall bwlio fod yn enghraifft o achos pan all penaethiaid ddefnyddio'r grym hwn. Mae ysgolion unigol yn y sefyllfa orau i benderfynu beth sy'n rhesymol o dan eu hamgylchiadau penodol hwy. Fodd bynnag, mae paragraff 6.26 yn awgrymu ffactorau y gallai ysgol eu hystyried wrth wneud penderfyniadau o'r fath.

6.26 Er bod ysgolion yn gallu rheoleiddio ymddygiad penodol oddi allan i safle eu hysgol, megis ymddygiad bwlïaidd, ni allant bennu cosbau oni bydd dysgwr ar safle'r ysgol neu dan reolaeth gyfreithlon aelod o staff. Er enghraifft, gellid pennu sancsiwn tra bydd dysgwr yn cyfranogi mewn trip ysgol, ond nid tra bydd y dysgwr yn teithio adref o'r ysgol. O dan amgylchiadau o'r fath, gallai'r aelod o staff ddweud wrth y dysgwr ei fod wedi cael ei weld yn camymddwyn a/neu'n ymddwyn yn fwlïaidd a bydd yn cael sancsiwn, ond bydd yn rhaid disgwyl tan y tro nesaf pan fydd y dysgwr yn yr ysgol i weithredu'r sancsiwn.

Ymdrin ag achosion o gamymddwyn yn yr ysgol ac oddi allan i'r ysgol

6.27 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd polisïau effeithiol ynghylch ymddygiad yn yr ysgol, gwrth-fwlio a disgyblaeth yn nodi'n glir beth yw'r disgwyliadau o ran ymddygiad cadarnhaol dysgwyr oddi allan i'r ysgol. Mae hyn yn cynnwys ymddygiad yn ystod gweithgareddau a drefnir gan yr ysgol, megis lleoliadau profiad gwaith, ymweliadau addysgol a digwyddiadau chwaraeon, yn ogystal ag ymddygiad wrth deithio i'r ysgol ac oddi yno ac ymddygiad pan yn gwisgo gwisg yr ysgol (os oes un) mewn mannau cyhoeddus.

6.28 Mae'n rhaid i ysgolion weithredu'n rhesymol mewn perthynas â disgwyliadau ynghylch ymddygiad dysgwyr ac mewn perthynas ag unrhyw fesurau a bennir er mwyn rheoleiddio ymddygiad gan ddysgwyr pan fyddant oddi allan i'r ysgol ac heb fod o dan reolaeth neu ofal cyfreithlon aelod o staff ysgol. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion benderfynu beth i'w ystyried wrth benderfynu a yw rheol neu sancsiwn yn rhesymol mewn achos penodol; gall ymddygiad bwlïaid heriol fod yn enghraifft o achos pan fydd ysgolion yn gweithredu'r ddarpariaeth hon. Gallai ysgol ystyried y ffactorau canlynol yn synhwyrol (efallai nad ydynt oll yn berthnasol i bob digwyddiad):

- difrifoldeb y camymddwyn
- i ba raddau mae enw da'r ysgol wedi cael ei niweidio
- a oedd y dysgwr/dysgwyr sydd dan sylw yn gwisgo gwisg yr ysgol neu a ellid ei adnabod/eu hadnabod yn rhwydd fel aelod/aelodau o'r ysgol
- i ba raddau y byddai'r ymddygiad dan sylw yn arwain at ôl-effeithiau o ran rhedeg yr ysgol yn drefnus a/neu i ba raddau y gallai fod yn fygythiad i ddysgwr arall neu aelod o'r staff (e.e. bwlio dysgwr arall neu sarhau aelod o'r staff)
- a oedd y camymddwyn dan sylw ar y ffordd i'r ysgol neu wrth deithio oddi yno; mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion mewn cydweithrediad â'u

hawdurdod lleol ystyried a ddylid pennu sancsiynau o dan y cod ymddygiad teithio neu bolisi ymddygiad ysgolion wrth fynd i'r afael â chamymddwyn wrth deithio i'r ysgol ac oddi yno (mae paragraffau 5.17–5.21 yn cynnig rhagor o wybodaeth am y ddarpariaeth hon)

- a ddigwyddodd y camymddwyn dan sylw y tu allan i gatiau'r ysgol neu'n rhywle arall yng nghyffiniau'r ysgol
- a ddigwyddodd y camymddwyn pan oedd y dysgwr ar brofiad gwaith, yn cyfranogi mewn cwrs addysg uwch fel rhan o un o raglenni'r ysgol neu'n cyfranogi mewn digwyddiad chwaraeon ar y cyd ag ysgol arall (h.y. pan fyddai disgwyl i'r dysgwr fod yn llysgennad ar ran yr ysgol) ac a allai hynny effeithio ar y posibilrwydd o allu cynnig cyfleoedd i ddysgwyr eraill yn y dyfodol
- a oedd y dysgwr/dysgwyr yn chwarae triwant.

6.29 Gan weithredu ffactorau o'r fath, byddai achos cryf, er enghraifft, dros ddisgyblu dysgwr am aflonyddu ar a/neu fwlio aelod o staff oddi allan i safle'r ysgol, yn cynnwys trwy gyfrwng y rhyngrwyd. Byddai achos cryf hefyd dros ddisgyblu dysgwr am gam-drin pobl eraill yn eiriol, yn cynnwys aelodau'r cyhoedd, wrth deithio i'r ysgol ac oddi yno. Fodd bynnag, byddai'r achos dros ddisgyblu dysgwr am gam-drin rhywun sydd heb unrhyw gysylltiad â'r ysgol yn eiriol yn ystod penwythnos yn llawer gwannach. Wrth gwrs, nid yw hyn yn golygu na ddylai ysgolion ymddiddori mewn ymddygiad nad ydynt yn ei reoli. Gall cyswllt rhwng yr ysgol, rhieni/gofalwyr a phobl yn yr awdurdod lleol a'r gymuned ehangach sy'n gyfrifol am fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a bwlio fod yn arbennig o berthnasol yn y cyd-destun hwn.

6.30 Efallai y bydd yn ddefnyddiol i ysgolion gysylltu pa bynnag ffactorau y byddant yn penderfynu eu defnyddio â set o amcanion cyffredinol sy'n nodi'n glir pam mae polisi i reoleiddio ymddygiad, gan gynnwys strategaethau i herio ymddygiad bwlïaidd a hyrwyddo perthnasoedd parchus y tu allan ysgol, yn cael ei weithredu. Gallai amcanion o'r fath gynnwys y canlynol:

- cynnal trefn dda ar gludiant ac wrth gerdded neu seiclo i'r ysgol ac oddi yno, yn ystod ymweliadau addysgol neu mewn lleoliadau eraill megis profiad gwaith neu gyrsiau mewn colegau
- sicrhau nad yw ymddygiad yn bygwth iechyd na diogelwch dysgwyr, staff neu aelodau'r cyhoedd
- rhoi sicrwydd i ddysgwyr a allai deimlo eu bod yn cael eu bygwth neu eu brawychu gan ymddygiad lleiafrif bychan o'u cyfoedion neu gan 'berygl dieithriaid'
- rhoi sicrwydd i aelodau'r cyhoedd ynghylch sut mae'r ysgol yn gofalu am ddysgwyr ac yn eu rheoli, ac felly amddiffyn enw da'r ysgol
- sicrhau bod aelodau unigol o staff yn cael eu hamddiffyn rhag ymddygiad niweidiol gan ddysgwyr yr ysgol pan na fyddant ar safle'r ysgol.

6.31 Bydd llawer o weithgareddau estynedig ysgolion yn digwydd oddi allan i'w safleoedd. Gellir ymdrin ag ymddygiad yn ystod unrhyw weithgareddau o'r fath yn yr un modd ag yn achos unrhyw weithgaredd arall sy'n digwydd ar safle'r ysgol.

Byddai'n rhesymegol ymdrin ag ymddygiad yn ystod gweithgareddau estynedig a gynhelir oddi allan i safleoedd ysgolion sydd heb eu goruchwylio gan staff yr ysgol yn yr un modd ag ymddygiad yn ystod lleoliadau addysg bellach, mewn colegau neu ar brofiad gwaith. Mae rhagor o wybodaeth a chanllawiau ar reoleiddio ymddygiad oddi allan i'r ysgol ar gael yn adran 5, 'Deddf Addysg ac Arolygiadau 2006'.

Cynnwys holl staff yr ysgol yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu'r strategaeth gwrth-fwlio

6.32 Dylai staff fod wedi'u paratoi'n dda i ymdrin ag unrhyw ddigwyddiadau y cânt eu hysbysu amdanynt a dylent deimlo'n hyderus i wneud hynny. Mae hynny yn cynnwys staff sy'n addysgu a staff eraill. Dylent ddisgwyl cael mwy o adroddiadau nag afer pan gaiff strategaeth newydd ei lansio. Pan fydd plant a phobl ifanc yn barod i fynegi eu pryderon, bydd hynny'n cael ei ystyried yn arwydd cadarnhaol.

6.33 Efallai nad yw ysgolion sy'n dweud nad oes unrhyw fwlio yn digwydd yno wedi llwyddo i ennyn hyder eu dysgwyr. Pan fydd ysgolion yn dweud nad oes unrhyw fwlio yn digwydd yno, gallai hynny fod o ganlyniad i ddulliau aneffeithiol o roi gwybod am hynny neu ymatebion aneffeithiol. Ni fydd dysgwyr yn teimlo'n ddiogel wrth fynegi eu pryderon. Efallai bydd ysgolion sy'n dweud nad oes ganddynt unrhyw achosion o fwlio yn cael eu herio trwy'r broses arolygu i gadarnhau pa ddulliau mae'r ysgol yn eu defnyddio i sicrhau lles dysgwyr a'u cynnwys.

6.34 Os na fydd gan blant a phobl ifanc hyder y gwnânt lwyddo i sicrhau canlyniad da pan fyddant yn rhoi gwybod am beth sy'n digwydd iddynt, byddant yn tueddu i gadw'n dawel. Canfu Comisiynydd Plant Cymru bod 'ymddiriedaeth' yn thema oedd yn cael ei mynegi'n rheolaidd gan blant. Daeth yn amlwg bod gallu siarad â rhywun y gellir ymddiried ynddo yn ddull allweddol i fynd i'r afael â bwlio[25].

6.35 Efallai bydd ysgolion yn canfod mai'r agwedd mwyaf heriol o leihau bwlio yw sicrhau y gellir datrys achosion yn dda. Os bydd dysgwyr yn mynegi pryderon ac yna yn canfod na fydd ymyriadau yn gwneud unrhyw wahaniaeth, neu'n gwaethygu'r sefyllfa, byddant yn colli ffydd. Bydd gwerthusiadau yn datgelu'n rheolaidd mai dyma'r elfen wannaf o strategaeth ysgol[26].

6.36 Mae adnodd ym mhecyn cymorth y canllawiau hyn yn cynnig rhagor o wybodaeth am ddulliau effeithiol o ymateb wrth gael gwybod am achosion o fwlio.

6.37 Bydd strategaeth gwrth-fwlio effeithiol yn fwyaf llwyddiannus pan fydd yn rhan o fframwaith ehangach yr ysgol, ac yn benodol, dull gweithredu ar lefel yr ysgol gyfan i fynd i'r afael ag iechyd a lles, sy'n cynnwys polisiau a gweithdrefnau trawsbynciol sy'n helpu i gyflawni'r strategaeth yn gyson ac yn gydlynol.

6.38 Mae adran 7 yn cynnig rhagor o wybodaeth am ddulliau effeithiol o lywodraethu a datblygu polisi.

---

[25] Comisiynydd Plant Cymru, 2017, 'Stori Sam' https://www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2017/07/Stori-Sam-1.pdf.

[26] Gwerthusiad ar gyfer rhaglen 'Make A Noise'. (Saesneg yn unig)

7 Llywodraethu

Polisi

7.1 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion ddatblygu eu polisi gwrth-fwlio fel dogfen polisi ar wahân, ond dylai fod yn gysylltiedig â pholisi ymddygiad yr ysgol, y mae'n rhaid i bob ysgol ei chael yn unol â gofynion y gyfraith.

- *Anti-Bullying Alliance: Canllawiau polisi gwrth-fwlio (Saesneg yn unig)*
- *Kidscape: Rhestr wirio polisi gwrth-fwlio (Saesneg yn unig)*
- *Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: Yr hyn y mae cyfraith cydraddoldeb yn ei olygu i chi fel darparwr addysg yng Nghymru*
- *Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: Defnyddio data i gyfrannu at strategaethau gwrth-fwlio a'u gwerthuso*
- *Llywodraeth Cymru: Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru*
- *Llywodraeth Cymru: Safonau proffesiynol ar gyfer ymarferwyr addysg*
- *Llywodraeth Cymru: Cadw dysgwyr yn ddiogel*
- *Llywodraeth Cymru: Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan*
- *Llywodraeth Cymru: Canllawiau ynghylch y Cod Ymddygiad wrth Deithio ar gyfer Cymru Gyfan*
- *Am y Rhwydwaith Diogelu Cyd-destunol (Saesneg yn unig)*

hwb.gov.wales/playlists/view/57976d4f-7a52-4733-9bf6-c316120ea30e/cy/19

7.2 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd polisïau gwrth-fwlio yn amlinellu'r canlynol:

- gweledigaeth a gwerthoedd yr ysgol
- eu diffiniad o ystyr bwlio
- pam mae atal a herio bwlio yn bwysig
- sut byddir yn codi ymwybyddiaeth o fwlio
- sut bydd gwaith gwrth-fwlio yn cael ei ymgorffori yn y cwricwlwm yn hytrach na chael sylw trwy ddigwyddiad blynyddol unigol (megis yn ystod wythnos gwrth-fwlio)
- cynnwys staff, dysgwyr, rhieni/gofalwyr a llywodraethwyr yr ysgol yn y gwaith o ddatblygu a gweithredu'r polisi
- arwyddion a allai awgrymu bod plentyn neu berson ifanc yn cael ei fwlio
- sut bydd bwlio yn cael ei atal, yn cynnwys wrth deithio i'r ysgol ac oddi yno
- pryd bydd yr ysgol yn gweithredu mewn ymateb i fwlio sy'n digwydd oddi allan i'r ysgol
- sut bydd yr ysgol yn ymateb i achosion
- sut i roi gwybod am fwlio

- beth all dysgwyr ei ddisgwyl
- beth all rhieni/gofalwyr ei ddisgwyl
- sut bydd digwyddiadau yn cael eu cofnodi a'u monitro
- sut gall dysgwyr a/neu rieni/gofalwyr uwchgyfeirio'r mater yn briodol os byddant yn credu na fydd eu pryderon yn cael eu cymryd o ddifrif
- sut bydd yr ysgol yn gwerthuso ac yn adolygu ei pholisi a'i strategaeth.

Sicrhau bod y polisi yn effeithiol

7.3 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd y dull cyffredinol a ddefnyddir gan yr ysgol yn glir i bob darllenydd, gan gynnwys eglurhad o ganlyniadau a sancsiynau teg a chyson. Dylai'r polisi ategu gweledigaeth a gwerthoedd yr ysgol yn glir ac amlinellu amcanion cydraddoldeb yr ysgol i gyflawni eu Dyletswydd Cydraddoldeb y sector cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

7.4 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y caiff y polisi ei ddiweddaru'n rheolaidd. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd polisïau yn cael eu hadolygu o leiaf pob tair blynedd neu'n gynt na hynny gan ystyried mentrau newydd neu newid ehangach mewn polisi. Fel rhan o'r adolygiad, argymhellir y dylid ymgynghori â phob aelod o gymuned yr ysgol, gan gynnwys staff, dysgwyr, rhieni/gofalwyr ac asiantaethau a sefydliadau cymorth, megis y gwasanaeth nyrsys ysgolion a 'Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan' yr heddlu. Yn dilyn achos difrifol o fwlio, efallai bydd ysgolion yn dymuno adolygu eu polisi a'u strategaeth a gwneud newidiadau perthnasol.

7.5 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd y polisi gwrth-fwlio yn hawdd i'w ddefnyddio ac yn hysbys i bob aelod o staff sy'n addysgu a staff ategol, i ddysgwr ac i rieni/gofalwyr. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd ysgolion yn cyhoeddi'r polisi ar eu gwefannau. Os na fydd hynny'n bosibl, bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion amlinellu'n glir sut gall staff, dysgwyr a rhieni/gofalwyr weld y polisi. Gall ysgolion hefyd fynd ati i gynnwys y polisi, neu elfennau penodol ohono, mewn llyfrau gwaith cartref/llyfrau e-ddysgu, megis cod mynegai ar y clawr mewnol. Gall hyn helpu i sefydlu'r polisi fel rhan o ddiwylliant eu hysgol a sicrhau bod y neges yn cyrraedd cartrefi dysgwyr hefyd.

7.6 Fel rhan o ddull yr ysgol o ddarparu hyfforddiant a datblygu rheolaidd, mae Llywodraeth Cymru yn argymell y dylai staff gael hyfforddiant rheolaidd ynghylch ei pholisi a'i gweithdrefnau gwrth-fwlio, gan gynnwys hyfforddiant mewn perthynas ag unrhyw dueddiadau newydd neu bryderon sy'n dod i'r amlwg yn yr ysgol. Yn ystod y cyfnod cynefino, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd unrhyw aelodau newydd o staff yn cael eu hysbysu am y polisi, y dull a ddefnyddir gan eu hysgol a sut caiff y gweithdrefnau eu gweinyddu. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd goruchwylwyr meysydd chwarae, awr ginio a chludiant ysgolion a gweinyddwyr ysgolion yn llwyr ymwybodol o'r polisi a'r gweithdrefnau y dylent eu dilyn.

7.7 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd y polisi gwrth-fwlio yn cyd-fynd â pholisi ymddygiad yr ysgol, a dylai fod yn ryng-gysylltiedig hefyd â pholisiau ehangach yr ysgol megis diogelu, presenoldeb, defnydd derbyniol o TGCh, diogelwch ar-lein, ymddygiad wrth deithio a gwaharddiadau. Bydd sicrhau bod polisïau yn gyson â'i gilydd yn helpu ysgolion i sicrhau bod ganddynt ddull gweithredu ar lefel yr ysgol gyfan i ymdrin â materion amlweddog. Er enghraifft, pan fydd dysgwyr yn absennol o'r ysgol, bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion weithio gyda'r dysgwr a'i rieni/gofalwyr i bennu beth fydd natur yr absenoldeb. Os canfyddir na fydd y dysgwyr yn dymuno dod i'r ysgol oherwydd bwlio, bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl mai blaenoriaeth bennaf yr ysgol fydd mynd i'r afael â'r achos sydd wrth wraidd yr absenoldeb, sef y bwlio. Os bydd polisiau amrywiol mewn ysgol yn cael eu hysgrifennu gan unigolion neu grwpiau gwahanol, bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl y cânt eu harchwilio i sicrhau nad ydynt yn arwain at gynghorion sy'n groes i'w gilydd ac anghysonderau. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd pob polisi yn rhyngweithio'n ddirwystr ac yn gyson gan ddefnyddio'r un diffiniadau, yr un terminoleg a'r un gwerthoedd. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd polisïau amrywiol yn cyfrannu at ddull gweithredu ar lefel yr ysgol gyfan o gyfrannu at iechyd a lles.


PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

8 Atal

Cynllunio: beth mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion ei ystyried?

8.1 Cyn penderfynu pa un o'r dulliau effeithiol niferus y dylent eu defnyddio, mae'n bwysig i bob ysgol sicrhau bod ganddi rywfaint o strwythur yn ei lle ar draws ei lleoliad cyfan. Mae atal yn elfen hanfodol o strategaeth ysgol.

- *Comisiynydd Plant Cymru: Y Ffordd Gywir*
- *Yr Adran Addysg yn Lloegr: Approaches to preventing and tackling bullying (Saesneg yn unig)*
- *Mencap: 'Am I making myself clear?' (Saesneg yn unig)*
- *Mencap: Communicating with people with a learning disability (Saesneg yn unig)*
- *Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol: Rhagfarn a stereoteipiau – gweithgaredd ystafell ddosbarth*
- *AGENDA: Sicrhau bod Perthnasoedd Cadarnhaol yn Cyfri*

hwb.gov.wales/playlists/view/57976d4f-7a52-4733-9bf6-c316120ea30e/cy/22

8.2 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion fabwysiadu dull gweithredu ar lefel yr ysgol gyfan i hybu ymddygiad cadarnhaol a pharchus rhwng staff a dysgwyr fel rhan o'u dull gweithredu ar lefel yr ysgol gyfan i gyfrannu at iechyd a lles. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y caiff y dull hwn ei ymgorffori yn holl weithgarwch yr ysgol, gan greu amgylchedd sy'n annog ymddygiad cadarnhaol ac sy'n mynd i'r afael ag achosion sylfaenol ymddygiad annerbyniol. Bydd hyn yn helpu i greu amgylchedd cynhwysol a deniadol ble bydd dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn barod i ddysgu.

Cyfathrebu effeithiol

8.3 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion fod yn ystyriol iawn o'r mathau o ymddygiad sy'n cael eu hybu yn eu lleoliadau. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y byddant yn rhoi sylw i ymddygiad a gweithredu cadarnhaol, gan bwysleisio beth ddylai dysgwyr fod yn ei wneud, yn hytrach na chanolbwyntio ar ymddygiad negyddol a bod â diwylliant sy'n pwysleisio beth na ddylid ei wneud yn sail i hynny.

8.4 Bydd pob ysgol yn canfod ymddygiad negyddol yn eu sefydliadau, ac mae'n rhaid ymdrin â hynny. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion ystyried a yw ymddygiad negyddol yn cael gormod o sylw. Os yw hyn yn digwydd, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd ysgolion yn creu ymdeimlad mai ymddygiad cadarnhaol yw'r norm trwy roi sylw amlwg i ymddygiad sy'n llesol i eraill, caredigrwydd, teyrngarwch ac ysbryd cydweithio, ac ar y llaw arall, yn sicrhau nad yw ymddygiad negyddol, megis bwlio, yn cael sylw amlwg. Er y bydd yr ymddygiad digroeso yn parhau i gael ei drin mor drylwyr ag yr oedd yn flaenorol, ni fydd y neges yn rhoi pwyslais diddiwedd ar beth na ddylai dysgwyr ei wneud.

Teilwra ymyriadau

8.5 Efallai na fydd plant ifanc sy'n bwlio eraill trwy sarhau yn deall bob amser beth yw'r niwed maent wedi'i achosi ac efallai y byddant yn ailadrodd beth maent wedi'i glywed gartref neu yn y gymuned. Gall gwaith adferol sensitif ac addysg fod yn effeithiol yn yr achosion hyn. Gellir defnyddio gweithgareddau grwpiau i ystyried pam mae rhai geiriau yn annerbyniol, yn ogystal â chyfarfodydd gyda rhieni/gofalwyr, a ddylai gael eu hatgoffa am werthoedd yr ysgol. Gall ymgysylltu effeithiol â rhieni/gofalwyr er mwyn datblygu'r gwerthoedd a'r strategaeth gwrth-fwlio yn eu hysgol o'r dechrau cyntaf annog dysgwyr a'u teuluoedd i fabwysiadu'r gwerthoedd a rennir yn y gymuned ehanagach hefyd.

8.6 Pan fydd pobl ifanc yn cyrraedd cyfnod llencyndod, byddant yn fwy tebygol o gael eu dylanwadu gan eu cyfoedion, felly mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd ymyriadau yn digwydd ar lefel yr ysgol gyfan, gan ymdrin â'r grŵp neu'r dosbarth cyfan er mwyn i farn y mwyafrif gael ei chlywed.

Dulliau cwricwlaidd

8.7 Mae gwersi unigol neu weithgareddau cryno a chyflym yn llai tebygol o lwyddo na gwaith sydd wedi'i ymgorffori yn y cwricwlwm sy'n mynd ati'n raddol i ymdrin â pherthnasoedd, ymddygiad cadarnhaol a chydnerthedd.

8.8 Caiff ein cwricwlwm newydd – Cwricwlwm i Gymru 2022 – ei gyflwyno ym mis Medi 2022 gan ysgolion cynradd ac ar gyfer Blwyddyn 7, ac yna caiff ei gyflwyno fesul blwyddyn mewn ysgolion uwchradd. Ei fwriad yw sicrhau bod ein holl blant a phobl ifanc yn cael eu paratoi at fywyd. Mae ganddo bedwar diben allweddol i gynorthwyo pob dysgwr i ddod yn unigolion moesegol, gwybodus, iach a hyderus sy'n barod i ddysgu trwy gydol eu hoes wrth iddynt ddod yn ddinasyddion Cymru a'r Byd.

8.9 Bydd gan Gwricwlwm i Gymru 2022 chwe maes dysgu a phrofiad. Bydd cyfleoedd ar draws pob un o'r chwe maes dysgu a phrofiad i sefydlu ymddygiad cadarnhaol a pharch; nid yw hynny wedi'i gyfyngu i Faes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles.

8.10 Gan gydnabod bod iechyd a lles da yn allweddol i alluogi dysgu llwyddiannus, bydd y Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles yn cynorthwyo dysgwyr i ddatblygu a chynnal eu hiechyd meddwl a'u lles emosiynol yn ogystal â'u hiechyd a'u lles corfforol. Bydd hefyd yn cynorthwyo dysgwyr i ddatblygu perthnasoedd cadarnhaol mewn amrywiaeth o gyd-destunau. Mae dysgu yn y maes dysgu a phrofiad hwn yn defnyddio pynciau a themâu yn ymwneud â lles meddyliol, corfforol ac emosiynol, ac mae hefyd yn cysylltu â sut mae amgylchedd yr ysgol yn cefnogi iechyd a lles cymdeithasol, emosiynol, ysbrydol a chorfforol plant a phobl ifanc.

8.11 Mae'r nodweddion allweddol a amlinellir, a fydd yn cynorthwyo dysgwyr i ddod yn ddinasyddion moesegol a gwybodus, yn cynnwys:

- gwneud dewisiadau cadarnhaol, a dysgu sut mae'r rhain yn effeithio ar eu hiechyd a'u lles eu hunain ac iechyd a lles pobl eraill

- rhyngweithio ag eraill mewn gwahanol sefyllfaoedd cymdeithasol
- ymgysylltu â gwahanol ddylanwadau cymdeithasol a gwerthfawrogi pwysigrwydd parchu eraill
- ystyried y materion cymdeithasol a moesegol sy'n effeithio ar iechyd a lles pobl eraill.

8.12 Gellir gweld fersiwn ddrafft o Gwricwlwm i Gymru 2022, gan gynnwys y fframwaith arfaethedig ar gyfer y Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles, yn hwb.gov.wales/cwricwlwm-drafft-i-gymru-2022.

8.13 Er bod Cwricwlwm i Gymru 2022 yn cynnig cyfleoedd ychwanegol i ysgolion ymgorffori iechyd a lles fel elfen allweddol o'r holl ddysgu, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion, o dan baramedrau'r cwricwlwm cyfredol, fabwysiadu a chynnal dull gweithredu ar lefel yr ysgol gyfan, gan weithio ar draws y cwricwlwm presennol i ddatblygu diwylliant cefnogol yn yr ysgol a gwerthoedd a rennir. Gall gweithredu'r dull hwn fod yn allweddol wrth alluogi a grymuso dysgwyr i gaffael a chynnal y sgiliau cymdeithasol a fydd yn caniatáu iddynt reoli eu perthnasoedd ag eraill i sicrhau y gallant ymateb i fwlio mewn ffordd briodol, ac os bydd angen hynny, mewn ffordd bendant. Mae'r dull hwn o ymdrin â bwlio yn caniatáu i'r pwnc gael ei gyflwyno'n raddol mewn ffordd briodol, yn hytrach na chael ei drin fel gwers sy'n digwydd unwaith. Mae'n caniatáu i ddysgwyr ddefnyddio arddulliau dysgu a ffafrir a rhai priodol, a gall hynny gynnwys defnyddio llenyddiaeth, deunydd clyweled, drama, cerddoriaeth, trafodaethau ac ymwelwyr allanol[27].

8.14 Mae mentrau wedi'u targedu yn rhoi cyfle i atgyfnerthu diwylliant ysgol cadarnhaol a chynhwysol. Gall hyn gynnwys diwrnodau ymwybyddiaeth, gweithdai, arwyddbostio a sesiynau galw heibio, ynghyd â chynnwys y gymdogaeth ehangach a defnyddio amrywiaeth o sefydliadau.

8.15 Ni ddylai ysgolion gael eu cyfyngu i gychwyn gwaith ar fentrau wedi'u targedu ar adegau sydd wedi'u neilltuo ar gyfer gweithgareddau atal cynlluniedig. Mewn gwirionedd, os bydd trafodaeth ar faterion cydraddoldeb neu wahaniaethu yn cael ei gynnal yn ystod digwyddiadau sy'n cael eu trefnu a'u hysbysu yn unig, bydd hynny'n golygu colli sawl cyfle am 'ennyd o ddysgu', megis trafod y newyddion diweddaraf.

[27] Suckling, A, Temple, C (2002) *Bullying: A Whole-School Approach*. Jessica Kingsley Publishers. (Saesneg yn unig.)

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

9 Ymateb pan fydd bwlio yn digwydd

9.1 Mae'n rhaid i ysgolion gydymffurfio â'u dyletswydd gyfreithiol i ddiogelu a hybu llesiant dysgwyr ac unrhyw ddyletswyddau cyfreithiol eraill. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bennaeth a chorff llywodraethu pob ysgol sicrhau bod yr holl athrawon a'r staff gweinyddol yn ymwybodol o bolisi gwrth-fwlio eu hysgol a'r gweithdrefnau y dylid eu dilyn os bydd dysgwr yn dweud ei fod yn cael ei fwlio.

- *Comisiynydd Plant Cymru: Stori Sam*
- *Llywodraeth Cymru: Taflenni ffeithiau herio hiliaeth mewn ysgolion*
- *Anti-Bullying Alliance: Arfer adferfol (Saesneg yn unig)*
- *Llywodraeth Cymru: Ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill*
- *Llywodraeth Cymru: Gweithdrefnau cwyno ysgolion*
- *Llywodraeth Cymru: Canllaw i'r gyfraith i lywodraethwyr ysgolion*

hwb.gov.wales/playlists/view/57976d4f-7a52-4733-9bf6-c316120ea30e/cy/24

9.2 Dylai staff gofio y gall dysgwr droi at unrhyw aelod o staff y mae'n ymddiried ynddo. Bydd hyfforddiant a diweddariadau rheolaidd ar gyfer staff yn sicrhau eu bod yn fwy parod ac yn fwy hyderus i sylwi ac ymateb pan fydd materion bwlio yn dod i'r amlwg. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd gweithdrefnau ysgolion sy'n amlinellu'r camau y dylid eu dilyn i ymdrin â bwlio yn ddealladwy i'r holl staff ac yn cael eu gweithredu yn gyson ac yn deg. Bydd hyn yn cynorthwyo i sicrhau y caiff yr un weithdrefn ei dilyn pan fydd dysgwr yn hysbysu staff am achos o fwlio, pwy bynnag fydd yr aelod o staff y bydd y dysgwr yn troi ato.

9.3 Mae strategaethau llwyddiannus yn darparu fframwaith cyson ynghyd ag opsiynau i weddu i'r sefyllfa. Mae bwlio yn ymddygiad cymhleth ac mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd yr ymateb yn briodol, gan ddilyn canllawiau fframweithiau safonol ar yr un pryd. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd strategaeth gwrth-fwlio ysgol yn canolbwyntio ar y plentyn ac na fydd yn anwybyddu anghenion y dysgwr, p'un ai a fydd yn darged neu'n dramgwyddwr bwlio, neu'n wyliedydd. Os bydd yr ymateb yn rhy gyffredinol, yn rhy lawdrwm neu ddim yn ddigon diffuant, gall yr effaith fod yn groes i'r hyn a fwriedir. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion ddatblygu eu strategaeth gwrth-fwlio gan gydweithio â dysgwyr a rhieni/gofalwyr i sicrhau bod pawb sy'n rhan o gymuned yr ysgol yn deall y gweithdrefnau i'w dilyn pan fydd achosion o fwlio yn digwydd a'u bod yn cytuno â hwy ac yn eu gweithredu.

9.4 Bydd ysgolion effeithiol yn defnyddio pob digwyddiad fel cyfle i ddysgu. Rôl yr ysgol yw meithrin a chynorthwyo dysgwyr i ddeall eu bod wrthi'n cyfranogi yn y broses o ddysgu er mwyn dod yn ddinasyddion gwybodus y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd gwaith yn digwydd gyda phawb

9.5 Ynghyd â'r cymorth a roddir i dargedau bwlio, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion gydnabod bod ar y sawl sy'n bwlio eraill angen cymorth a chefnogaeth hefyd, a chyfleoedd i newid eu hymddygiad, a sicrhau y byddant yn cael hynny. Gellir defnyddio gwrando effeithiol ynghyd ag addysgu sgiliau perthnasoedd i'r sawl sy'n bwlio eraill. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl iddynt gael arweiniad i'w galluogi i adnabod ac ymdopi â'u teimladau anodd a dysgu sgiliau cyfathrebu cadarnhaol. Gall ymddygiad bwlïaidd fod yn arwydd o broblem fwy yn yr ysgol, yn y cartref neu agwedd arall o fywyd y plentyn neu'r person ifanc. Gall trais yn y cartref, rhieni yn cosbi, esgeulustod, profedigaeth neu rieni/gofalwyr yn gwahanu ddod i'r amlwg wrth weithio gyda dysgwyr sy'n bwlio. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd staff wedi'u paratoi'n briodol i ymateb i ddatgeliadau o'r fath fel rhan o hyfforddiant ehangach, megis diogelu. Bydd ysgolion sydd â diwylliant agored a phrotocolau diogelu da yn ymateb i bawb sy'n ymwneud â bwlio. (Gweler y cyfeiriad at 'Fwlio a diogelu' ym mharagraff 2.9.)

9.6 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion gynorthwyo gwyliedyddion bwlio. Efallai y bydd plant a phobl ifanc sy'n gweld bwlio yn digwydd ac yn gwneud dim i helpu'r targed neu atal y sefyllfa yn teimlo'n wael neu'n euog am hynny yn ddiweddarach. Mae gwyliedyddion sy'n chwerthin neu'n cyfranogi yn y bwlio mewn perygl o ddod yn fwlis eu hunain. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd ysgolion yn sicrhau bod plant a phobl ifanc sy'n gwylio bwlio yn digwydd yn deall fod ganddynt y grym i herio hynny, naill ai trwy ymyrryd, os byddant yn teimlo ei bod hi'n ddiogel gwneud hynny, neu hysbysu aelod o staff neu oedolyn y maent yn ymddiried ynddo am hynny yn syth.

9.7 Mae'n bwysig addysgu dysgwyr trwy eu helpu i ddatblygu cydnerthedd gan ymarfer y sgiliau datrys problemau a phendantrwydd sydd eu hangen arnynt i herio ymddygiad annerbyniol, cadw eu cam eu hunain a chadw cam eu cyfoedion a theimlo'n ddiogel.

Dulliau o roi gwybod am fwlio

9.8 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion gynnig amrywiaeth o ddulliau y gall dysgwyr eu defnyddio i roi gwybod am fwlio. Gall y rhain gynnwys:

- cynorthwywyr cyfoedion neu 'gyfeillion' wedi'u hyfforddi
- lle tawel a phreifat i siarad
- arweinwyr bugeiliol a staff sy'n arwain ym maes gwaith gwrth-fwlio sydd ar gael ar adegau allweddol
- nyrsys neu gwnselwyr ysgol
- blychau adborth.

Gwrando effeithiol

9.9 Bydd y sawl sy'n dargedau ymddygiad bwlïaidd yn tueddu i deimlo'n ddi-rym. Un o'r camau cyntaf wrth ymateb i ddigwyddiadau yw adfer eu gallu i wneud dewisiadau drostynt eu hunain. Gan ddefnyddio technegau gwrando effeithiol, gall staff (neu gynorthwywr cyfoedion os defnyddir y rhain) helpu'r dysgwr sy'n cael ei dargedu i deimlo ei fod yn gwneud rhywbeth am y broblem. Pan fydd y plentyn neu'r person ifanc sy'n cael ei dargedu yn siarad, ewch ati'n bwyllog i gydnabod y dicter neu'r gofid y bydd yn eu teimlo. Os bydd arno angen amser i brosesu ei feddyliau neu gyfleu'r stori, ceisiwch beidio â'i ruthro. Dylai staff gofio y gallai dod i roi gwybod am yr hyn sy'n digwydd ofyn am gryn dipyn o ddewrder. Diolchwch i'r dysgwr am roi gwybod am y broblem. Eglurwch wrtho beth fydd y cam nesaf o ran y dull o ymateb i'w bryderon. Fe wnaiff hyn gynorthwyo i gynnig sicrwydd iddo fod ei bryderon yn cael eu cymryd o ddifrif.

Ystyriwch y lleoliad

9.10 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i staff ystyried yr amgylchedd ble cynhelir trafodaethau ynghylch bwlio gyda dysgwyr. Gall sicrhau bod y lleoliad yn niwtral ac yn cynnig digon o beifatrwydd olygu'r gwahaniaeth rhwng dysgwr yn bod yn barod i drafod neu beidio. Argymhellir y dylai staff eistedd ar yr un lefel â'r dysgwr sy'n rhoi gwybod am ei brofiad o gael ei fwlio. Gall gosod cadeiriau ar ychydig o ongl yn hytrach nag yn union gyferbyn â'i gilydd hefyd helpu i leihau unrhyw ymdeimlad ymwybodol neu anymwybodol o wrthdaro neu wrthwynebiad. Sicrhewch breifatrwydd er mwyn atal dysgwyr eraill rhag clywed beth sy'n cael ei ddweud neu weld cyfarfod yn cael ei gynnal, ond i sicrhau arfer gorau o ran diogelu, dylai fod yn bosibl i staff eraill arsylwi'r cyfarfod.

Cadw tystiolaeth

9.11 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y caiff dysgwyr sy'n cael eu bwlio eu hannog, pan fo hynny'n bosibl, i gadw tystiolaeth o'r gweithgarwch. Gall tystiolaeth gynnwys bygythiadau neu ddelweddau a gaiff eu hanfon ar-lein neu all-lein trwy gyfrwng negeseuon, sgyrsiau, nodiadau neu ddelweddau, dillad neu eitemau eraill wedi'u difrodi, sgyrsiau ar-lein neu nodiadau. Efallai bydd gwyliedyddion hefyd yn gallu darparu datganiadau tystion neu dystiolaeth ychwanegol. Dylid nodi'r dyddiadau a'r amseroedd pan ddigwyddiodd pethau. Gellir cadw cipluniau o sgriniau fel tystiolaeth ar-lein.


PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

10 Mathau penodol o ymyriad

10.1 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion weithredu dull cyson o herio bwlio, un sy'n defnyddio amrywiaeth o adnoddau i gyflawni'r polisi gwrth-fwlio. Fe wnaiff hyn alluogi staff i ddewis yr ymyriadau mwyaf priodol, sy'n fwyaf addas yn eu tyb hwy i ymdrin ag anghenion unigol pob achos ar yr adeg briodol.

- *Comisiynydd Plant Cymru: Y Ffordd Gywir*
- *Olweus: Rhaglen Atal Bwlio (Saesneg yn unig)*
- *KiVa: Rhaglen gwrth-fwlio (Saesneg yn unig)*
- *Gwobr Diana (Saesneg yn unig)*
- *Red Balloon (Saesneg yn unig)*
- *Kidscape: Rhaglenni ZAP (Saesneg yn unig)*
- *Llywodraeth Cymru: Gweithdrefnau cwyno ysgolion*
- *Llywodraeth Cymru: Cadw dysgwyr yn ddiogel*
- *Llywodraeth Cymru: Ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill*
- *Cyngor y Gweithlu Addysg: Cod Ymddygiad ac Ymarfer Proffesiynol*
- *Llywodraeth Cymru: Safonau proffesiynol ar gyfer ymarferwyr addysg*

hwb.gov.wales/playlists/view/57976d4f-7a52-4733-9bf6-c316120ea30e/cy/26

10.2 Mae bwlio yn niweidio hunan-barch iach, gan ddisodli credoau cadarnhaol unigolion amdanynt hwy eu hunain ac annog credoau sy'n gysylltiedig â chywilydd, ffieidd-dod, beirniadaeth, analluogrwydd, diffyg grym a diymadferthedd. Wrth benderfynu beth yw'r camau nesaf i wella hunan-etheithiolrwydd y dysgwr sy'n rhoi gwybod ei fod yn cael ei fwlio, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd staff yn ceisio cynnwys penderfyniadau a wnaed gan y dysgwr ei hun pan fo hynny'n briodol. Efallai y bydd staff yn dymuno cynnig rhywfaint o ddewisiadau, oni fyddai gwneud hynny yn golygu risg o dystiolaeth o niwed sylweddol. Os felly, bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i staff weithredu gweithdrefnau diogelu eu hysgol. Gall y dewisiadau a gynigir i'r dysgwr sy'n cael ei dargedu gynnwys:

- sut y gellid ymdrin â'r digwyddiad
- p'un ai a ddylid rhoi ystyriaeth fanylach i newidiadau i daith bresennol y dysgwr i'r ysgol ac oddi yno
- p'un ai a fyddai'r dysgwr yn hoffi cael cymorth gan gynorthwywr cyfoedion neu a yw'n dymuno ymuno â chlwb neu weithgaredd awr ginio.

10.3 Gall ymyriadau ddigwydd ar lefel dosbarth, ar lefel grŵp blwyddyn, neu gyda'r unigolion sy'n ymwneud â'r digwyddiad bwlio yn unig.

10.4 Mae amrywiaeth o ddulliau ymyrryd ar gael y gall ysgolion ddewis eu defnyddio. Mae enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys:

- **cyfryngu** – mae hyn yn cynnwys helpu tramgwyddwr a tharged y bwlio i drafod y mater a chytuno ar ateb
- **dulliau adferol** – seiliedig ar werthoedd, sy'n gwahaniaethu rhwng yr unigolyn a'r ymddygiad. Maent yn annog atebolrwydd ac yn ceisio unioni unrhyw niwed a achosir mewn sefyllfa
- **datblygu cydnerthedd** – cryfhau gallu'r dysgwr i ymdopi'n effeithiol, addasu neu adfer ar ôl cael ei fwlio neu wynebu mathau eraill o drawma, straen neu adfyd; sicrhau bod gan ddysgwyr sylfaen gadarn o gydnerthedd emosiynol trwy sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu derbyn
- **cymorth gan gyfoedion** – mae hyn yn ymwneud â phlant a phobl ifanc yn teimlo eu bod yn cael eu derbyn a'u cynnwys gan ddysgwyr eraill. Gall helpu unigolion i deimlo eu bod yn perthyn mewn ysgol a gall fod yn ffactor pwysig wrth leihau bwlio a gwrthdaro. Gellir annog hyn trwy ddulliau ffurfiol ac anffurfiol mewn ysgolion
- **sancsiynau gan yr ysgol** – gall ysgolion ddefnyddio sancsiynau disgyblu, fel y nodir yn eu polisïau, i fynd i'r afael â bwlio. Mae canlyniadau bwlio yn adlewyrchu difrifoldeb y digwyddiad fel bod eraill yn gweld bod bwlio yn annerbyniol.

10.5 Mae amrywiaeth o raglenni y gall ysgolion eu mabwysiadu i fynd i'r afael â bwlio. Mater i ysgolion unigol yw pennu'r dull mwyaf effeithiol o fynd i'r afael â bwlio a gweithredu polisïau gwrth-fwlio yn eu hysgol; mae hyn yn cynnwys pa raglenni, os dewsir rhai o gwbl, y byddant yn dewis eu gweithredu i gefnogi'r ddarpariaeth hon.

10.6 Mae cyfleoedd dysgu rheolaidd ar gael ar gyfer y dosbarth neu'r grŵp blwyddyn cyfan, y gellir eu gweithredu heb grybwyll enw'r sawl a roddodd wybod am y bwlio. Bydd hyn yn amddiffyn rhag dial.

10.7 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgol ymdrin â thramgwyddwr neu dramgwyddwyr bwlio yn unol â'r gweithdrefnau a'r dull gweithredu cymeradwy yn yr ysgol os canfyddir eu bod wedi gweithredu'n amhriodol; ond bydd yn rhaid caniatáu i dramgwyddwyr gael cyfle i gyfleu'r digwyddiad o'u safbwynt hwy a chael gwrandawiad teg cyn gwneud unrhyw benderfyniadau.

10.8 Wrth bennu'r ymateb neu'r sancsiynau mwyaf priodol i fynd i'r afael â bwlio, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion ystyried yr effaith y gallai ymateb ei chael yn ehangach ac yn y tymor hir ar bawb sy'n ymwneud â'r achos. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion ystyried a fydd hyn yn debygol o helpu i fynd i'r afael ag achosion sylfaenol y bwlio sy'n digwydd a sut y gallai ymyriadau sicrhau'r effaith fwyaf o ran atal yr achos rhag parhau neu ailddigwydd.

10.9 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion ystyried ymyriadau tymor byr a thymor hwy ac ystyried yn ofalus a yw'r cam gweithredu yn mynd i'r afael â'r mater neu ddim ond yn ei atal rhag digwydd eto am y tro. Er enghraifft, gall ynysu dysgwr,

boed yn dramgwyddwr neu'n darged bwlio, lwyddo i ddiogelu'r dysgwr rhag rhagor o niwed uniongyrchol yn y tymor byr iawn. Fodd bynnag, nid yw'r ymyriad hwn yn ailadeiladu hunan-gred y dysgwr sydd wedi'i dargedu nac yn helpu i newid ymddygiad y tramgwyddwr, felly nid yw'n strategaeth addas i fynd i'r afael ag achos sylfaenol y mater nac yn darparu ateb tymor canolig neu dymor hir.

Beth sy'n digwydd pan na fydd yr ymyriad yn llwyddo?

10.10 Nid yw'n gynhyrchiol parhau i ddefnyddio ymyriad i ymdrin ag achos o fwlio os na fydd y dull gweithredu wedi llwyddo. Os na fydd ymyriad yn llwyddo fel y dylai, bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd ysgolion yn ceisio defnyddio dulliau gweithredu eraill. Ni ddylai ysgolion ystyried bod y mater wedi'i ddatrys ar sail cwblhau'r ymyriad, os bydd y canlyniad yn aflwyddiannus.

10.11 Os bydd achos yn ddi-baid neu bydd y tramgwyddwr yn cael ei reportio'n rheolaidd am fwlio eraill, bydd angen ymateb gwahanol. Efallai na fydd rhai dulliau gweithredu yn addas ar gyfer achosion penodol. Er enghraifft, os bydd anghybwysedd grym yn ddigon difrifol i wneud i'r targed ofni'r tramgwyddwr, efallai na fydd hi'n ddoeth defnyddio dulliau adferol tan yn ddiweddarach, ar ôl i waith gael ei wneud i ddatrys y cydbwysedd grym.

Pan fydd ymyriadau yn methu neu'n cael trafferth sicrhau effaith

10.12 Gall achosion sy'n gwrthsefyll ymdrechion i'w datrys beri gofid aruthrol i ddysgwyr a'u rhieni/gofalwyr. Pan fydd ysgol yn ymateb gan ddweud ei bod wedi dilyn ei pholisi gwrth-fwlio, efallai y gall sefyllfa ddiddatrys ddigwydd. Bydd yr ysgol yn mynnu ei bod yn ymdrin â'r mater ond ni fydd y targed a'i rieni/gofalwyr yn gweld unrhyw welliant yn y sefyllfa.

Gweithredu cadarnhaol

10.13 Pan fydd hyn yn digwydd, a bydd tystiolaeth yn awgrymu nad yw'r cynllun gweithredu presennol yn llwyddo, bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion weithio gyda'r dysgwyr sydd dan sylw a'u rhieni/gofalwyr i adolygu'r achos, ac os bydd hynny'n ofynnol, bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl y caiff ymyriad newydd ei ddefnyddio. Os bydd achosion yn gwrthsefyll ymdrechion i'w datrys, bydd adolygiadau rheolaidd a chyfathrebu rheolaidd rhwng pawb sydd dan sylw yn hanfodol i sicrhau bod ymyriadau yn gweithio'n briodol.

10.14 Ni fydd ymddygiad anodd yn gwella mewn camau graddol bob tro. Gallai wella am ychydig ac yna cymryd cam yn ôl. Efallai na fydd hynny'n awgrymu nad yw'r dull yn llwyddo, ond y dylid parhau i'w ddefnyddio, ei gryfhau neu ei newid ychydig. Os na fydd yn llwyddo o gwbl, bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl y caiff cynllun newydd ei lunio.

10.15 Gall cynlluniau gynnwys gwaith i'w gyflawni gan y teulu yn y cartref. Gall ysgolion atgoffa rhieni/gofalwyr y dylent gefnogi gwerthoedd yr ysgol. Os bydd ffynhonell

yr ymddygiad sy'n gysylltiedig â rhagfarn yn y cartref neu'r gymuned, dylid cydnabod hynny a cheisio cymorth yn yr ardal leol.

Hawl rhieni/gofalwyr i uwchgyfeirio'r mater

10.16 Ar ôl hysbysu'r ysgol am fater sy'n ymwneud â bwlio, os bydd dysgwyr neu ei rieni/gofalwyr yn credu nad yw'r ysgol wedi cymryd y mater o ddifrif neu heb ymateb yn dderbyniol i'w pryder, gallant gyflwyno cwyn ffurfiol.

10.17 O dan adran 29 Deddf Addysg 2002, mae'n ofynnol i lywodraethwyr ysgolion sefydlu a chyhoeddi gweithdrefn gwyno gan sicrhau y gall unrhyw un sydd â buddiant yn yr ysgol gyflwyno cwyn, yn ffyddiog y caiff ei hystyried yn briodol a heb oedi.

10.18 Mae'n rhaid i bolisi cwynion ysgol fod ar gael ar wefan yr ysgol, a/neu dylai fod ar gael pan ofynnir i'r ysgol neu gorff llywodraethu'r ysgol am gopi. Mae'n rhaid i'r polisi egluro'r broses i'w dilyn i gyflwyno cwyn i alluogi'r achwynydd i ddeall sut bydd corff llywodraethu'r ysgol yn ymdrin â'r mater.

10.19 Yn unol ag egwyddorion CCUHP, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y caiff pob plentyn a pherson ifanc wrandawiad a'u trin â pharch. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion sicrhau bod dysgwr sy'n gwneud cwyn wedi deall cynnwys y ffurflen gwyno yn llawn ac unrhyw benderfyniadau a allai ddeillio o hyn.

10.20 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i wybodaeth gael ei chofnodi i alluogi'r ysgol i:

- ddeall natur y gŵyn yn glir
- hysbysu'r achwynwr am gynnydd yr ymateb i'w gŵyn
- gwneud addasiadau rhesymol i amserlenni os yw'r gŵyn yn gymhleth
- cadw cofnod cywir o'r gŵyn a'r broses a ddilynir
- monitro cynnydd cwyn
- cofnodi beth sydd wedi cael ei wneud a beth sydd angen ei wneud
- darparu tystiolaeth i ddangos bob y gŵyn wedi cael ei hystyried yn briodol
- cofnodi gwybodaeth y gellir cyfeirio ati yn y dyfodol, gan gofio y gall achosion o fwlio ailddigwydd, felly dylai darlun llawn fod ar gael
- nodi tueddiadau neu themâu sy'n codi dro ar ôl tro mewn cwynion, i lywio prosesau ehangach o wella'r ysgol
- llunio adroddiadau ynghylch cwynion ar gyfer llywodraethwyr yr ysgol ac eraill.

10.21 Mae'n rhaid trin unrhyw gwynion yn deg, yn agored ac yn ddiduedd. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion ymchwilio i unrhyw bryderon a fynegir a gwneud penderfyniad yn gyflym.

10.22 Mae rhagor o wybodaeth am weithdrefnau cwyno ar gael yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru ar weithdrefnau cwyno ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion yng Nghymru.

11 Gwerthuso ac atebolrwydd

Rhoi gwybod am fwlio a chofnodi a monitro hynny

11.1 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl bod gan ysgolion ddulliau yn eu lle i roi gwybod am fwlio a chofnodi hynny, ac mae'n disgwyl caiff y dulliau hynny eu cyfathrebu'n glir i gymuned gyfan yr ysgol. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd gwybodaeth y bydd ysgolion yn ei chofnodi a'i monitro yn ymwneud yn uniongyrchol â diffiniad eu hysgol o fwlio a darpariaethau ehangach sydd wedi'u hamlinellu yn eu strategaeth a'u polisi gwrth-fwlio.

- *Estyn: Fframwaith arolygu cyffredin*
- *Estyn: Adolygiad o addysg perthnasoedd iach*
- *Estyn: Llawlyfr arweiniad ar gyfer arolygu ysgolion pob oed*

hwb.gov.wales/playlists/view/57976d4f-7a52-4733-9bf6-c316120ea30e/cy/30

11.2 Mae cadw cofnodion effeithiol yn galluogi ysgolion i adolygu digwyddiad, cadarnhau a oes unrhyw adroddiadau eraill yn bodoli ynghylch y dysgwyr sy'n ymwneud â'r digwyddiad a gwneud penderfyniad gan ystyried beth sydd wedi'i gofnodi mewn modd cyfannol a seiliedig ar wybodaeth. Mae monitro digwyddiadau bwlio yn galluogi ysgol i nodi patrymau ymddygiad a faint o fwlio sy'n digwydd, ac yn dilyn hynny, bydd Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion weithredu'n rhagweithiol i herio hynny.

11.3 Mae'n rhaid i ysgolion sicrhau bod yr wybodaeth y maent yn ei chofnodi, ei chynnal a'i monitro yn cydymffurfio â deddfau diogelu data, megis GDPR yr UE a Deddf Diogelu Data'r DU 2018.

11.4 Yn ôl y gyfraith, mae'n ofynnol i bob ysgol benodi swyddog diogelu data i sicrhau bod yr ysgol yn ymwybodol o'i rhwymedigaethau o dan GDPR a Deddf Diogelu Data 2018 ac yn gallu eu cyflawni. Mae Llywodraeth Cymru a Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth yn disgwyl i ysgolion gydweithio â'u swyddog diogelu data i sicrhau bod yr holl ddata personol yn cael eu prosesu'n gyfreithlon a gan sicrhau bod hawliau unigolion yn cael eu diogelu'n briodol.

11.5 Fel rhan o gyfrifoldebau ehangach ysgolion ynghylch casglu a monitro data, bydd angen i ysgolion bennu sail gyfreithlon briodol o blith y seiliau a restrir yn Erthygl 6 GDPR, ac – os yw'r data yn perthyn i gategori arbennig – yn Erthygl 9 hefyd, cyn cychwyn prosesu gwybodaeth ynghylch bwlio. Bydd angen i ysgolion sicrhau hefyd nad ydynt yn casglu mwy o ddata na'r hyn sy'n ofynnol a sicrhau bod ganddynt amserlen glir ar gyfer cadw'r wybodaeth. Bydd angen i fanylion ynghylch prosesu gwybodaeth ar gyfer mesurau gwrth-fwlio gael eu hadlewyrchu yn yr

wybodaeth sydd gan bob ysgol ynghylch prosesu teg. Bydd angen i ysgolion unigol gynnal asesiadau o effaith ar ddiogelu data wrth benderfynu pa ddata y mae angen iddynt eu casglu i sicrhau fod hynny'n gymesur a chymryd unrhyw gamau priodol a allai fod yn angenrheidiol i liniaru risgiau i hawliau unigolion.

11.6 Ers mis Ebrill 2011, mae gan bob corff cyhoeddus, gan gynnwys ysgolion ac awdurdodau lleol, rwymedigaethau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Yng Nghymru, mae gan gyrff cyhoeddus ddyletswyddau penodol i ddatblygu a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb a chynllun cydraddoldeb strategol a chasglu, dadansoddi a chyhoeddi gwybodaeth am y cynnydd y maent yn ei wneud wrth gyflawni eu rhwymedigaethau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y sector cyhoeddus.

11.7 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion gofnodi pob digwyddiad o fwlio, gan amlinellu'r mathau penodol o fwlio, yn cynnwys bwlio sy'n ymwneud â'r nodweddion gwarchodedig. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ysgolion fonitro prosesau yn rheolaidd. Fe wnaiff hyn alluogi ysgolion i addasu eu polisïau bwlio ac i ymateb i dueddiadau penodol a materion sy'n dod i'r amlwg yn gyflym ac yn effeithiol. Mae'n debyg y bydd hyn yn ddefnyddiol i ysgolion yng nghyd-destun Dyletswydd Cydraddoldeb y sector cyhoeddus o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Gallai'r wybodaeth hon gael ei defnyddio gan ysgolion hefyd wrth adolygu eu hamcanion cydraddoldeb a monitro effaith eu polisïau gwrth-fwlio[28].

11.8 Mater i ysgolion unigol yw penderfynu pa ddata a gwybodaeth y byddant yn eu casglu yng nghyd-destun y materion penodol yn eu hysgol ac yn unol â gofynion cyfraith diogelu data. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y caiff hyn ei wneud trwy:

- weithredu cylch parhaus o gofnodi, monitro a dadansoddi data ar lefel ysgolion ynghylch gwybodaeth gwrth-fwlio
- defnyddio data gwrth-fwlio ar lefel yr ysgol i nodi meysydd blaenoriaethol er mwyn sicrhau gwelliant ar lefel yr ysgol gyfan
- gweithredu i gyflawni'r gwelliannau hynny, gan sicrhau bod y cylch gwella yn parhau trwy ddadansoddi data fel rhan o hunanwerthuso.

11.9 Mae Estyn yn tynnu sylw at y ffaith mai hunanwerthuso, yn hanesyddol, yw'r maes gwannaf mewn arolygiadau o ysgolion. Mae gan bob ysgol feysydd y gallant eu gwella. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i brosesau hunanarfarnu a gwella wedi'u hategu gan ddiwylliant cydweithredol didwyll a gonest fod yn nodwedd annatod a pharhaus o'r gwaith ym mhob ysgol, beth bynnag fo'r perfformiad neu'r sefyllfa gyfredol. Mae hon yn broses adeiladol ac mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y caiff ei hymgorffori yn diwylliant a'i derbyn yn frwdfrydig gan staff i sicrhau gwelliant at y dyfodol.

---

[28] Comisiynydd Plant Cymru, 2017, Stori Sam, t. 27, www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2017/07/Stori-Sam-1.pdf

11.10 Trwy gyfrwng gwerthuso rheolaidd, bydd ysgolion yn llwyddo i ymateb i'r tueddiadau yn eu hysgol a'u cymuned. Bydd yn haws bod yn ymwybodol o'r gwelliannau sydd eu hangen neu'r newidiadau y dylid eu gwneud i weithdrefnau os bydd ysgolion yn ymwybodol o newidiadau yn eu cyd-destun.

11.11 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y caiff polisi a strategaeth gwrth-fwlio ysgolion eu hadolygu'n rheolaidd a dylai hynny gynnwys ymgynghori â staff ysgolion, dysgwyr a rhieni/gofalwyr.

11.12 Gellir defnyddio arolygon a thrafodaethau mewn grwpiau i ganfod pa agweddau o strategaeth a pholisi presennol yr ysgol sy'n gweithio'n dda ac unrhyw feysydd y dylid eu gwella.

11.13 Bydd ysgolion effeithiol yn defnyddio arolygon o brofiadau dysgwyr, gan holi a wnaeth dysgwr, os cafodd ei fwlio, roi gwybod am hynny neu beidio, a holi beth oedd y canlyniad dilynol. Mae casglu gwybodaeth yn y modd hwn er mwyn dysgu gwersi a gwella'n rheolaidd yn bwysig yn anad dim i sefydlu ymddiriedaeth ymhlith dysgwyr. Mae angen i ddysgwyr gredu ei bod hi'n werth yr ymdrech rhoi gwybod i rywun os byddant yn cael eu bwlio a bod yn ffyddiog y bydd camau yn cael eu cymryd.

11.14 Pan fydd gweithdrefnau gwerthuso yn dryloyw, bydd hynny'n galluogi dysgwyr i ymgysylltu â pholisiau a phrosesau'r ysgol a dylanwadu arnynt. Os bydd dysgwyr yn credu eu bod yn 'berchen' ar y strategaeth gwrth-fwlio, byddant yn fwy tebygol o gadw at ei gofynion. Mae hynny hefyd yn caniatáu iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau sy'n effeithio arnynt, yn unol â'u hawliau o dan CCUHP. Fel aelodau a berchir o'r ysgol, bydd dysgwyr yn fwy tebygol o fod ag ymdeimlad o berthyn.

11.15 Mae gwaith gwrth-fwlio llwyddiannus yn parchu pob aelod o gymuned yr ysgol ac yn dangos y parch hwnnw yn hytrach na gorfodi set o reolau ar ddysgwyr heb unrhyw gyfeiriad at ba mor llwyddiannus yw dull yr ysgol o fynd i'r afael â bwlio. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd staff ysgolion a rhieni/gofalwyr yn helpu i lywio strategaethau a gweithdrefnau gwrth-fwlio.

11.16 Os bydd ysgolion yn mesur nifer y digwyddiadau y rhoddir gwybod amdanynt yn unig, gall hynny greu ymdeimlad ffug o lwyddiant os bydd y cyfanswm hwnnw'n isel, gan wneud iddynt gredu nad yw bwlio yn digwydd. Mae hynny'n anhebygol o fod yn wir.

Gweithredu cadarnhaol

11.17 Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gyrff llywodraethu ysgolion fonitro'r canlynol mewn perthynas â bwlio:

- bod ysgolion yn cynnal trosolwg o ddigwyddiadau bwlio a gofnodwyd yn eu sefydliad i weld faint o amser sydd ei angen ar gyfartaledd i ddatrys achosion
- y cyfraddau ailddigwydd
- a yw dysgwyr sydd wedi rhoi gwybod am ddigwyddiadau bwlio yn credu eu bod wedi cael canlyniad derbyniol
- a oes unrhyw dueddiadau yn dod i'r amlwg neu a oes gwahaniaethu yn digwydd yn erbyn unrhyw grwpiau

- a oes unrhyw achosion o fwlio ar-lein sy'n awgrymu bod angen gwneud gwaith gyda'r dysgwyr, rhieni/gofalwr a staff i wrthweithio mathau newydd o fwlio
- cyfraddau absenoldeb
- bod y data a gaiff eu casglu'n rheolaidd ynghylch digwyddiadau sy'n cael eu reportio yn dangos cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion cydraddoldeb.

11.18 Os oes ymwybyddiaeth dda ymhlith cymuned yr ysgol gyfan ynghylch beth yw ymddygiad annerbyniol, mae'n debygol y bydd rhagor o ddysgwyr yn barod i roi gwybod am yr ymddygiad hwnnw. Felly, nid yw nifer sylweddol o ddigwyddiadau ynddo'i hun yn arwydd bod yr ysgol yn aneffeithiol. Gallai hynny fod yn ganlyniad i waith diweddar i wella ymwybyddiaeth neu weithgareddau gwrth-fwlio diweddar.

11.19 Os yw ysgolion wedi cofnodi lefelau uchel o achosion o fwlio, ond gallant ddangos eu bod yn gweithredu i herio bwlio, mynd i'r afael ag ymddygiad annerbyniol a gwella lles dysgwyr, gallant sgorio'n uwch mewn hunanwerthusiad nag ysgolion sy'n dweud nad oes unrhyw fwlio yn eu sefydliadau neu'n dweud bod hynny'n brin ond yn methu egluro pam.



Atodiad

Ble gellir canfod rhagor o gyngor a chymorth

Bwlio

Bullies Out – Elusen gwrth-fwlio wedi'i lleoli yng Nghymru sy'n gweithio gydag unigolion, ysgolion, colegau, a lleoliadau gwaith ieuenctid a chymunedol. Mae e-fentoriaid yn cynnig cymorth ar-lein (e-bostiwch mentorsonline@bulliesout.com).
www.bulliesout.com
e-bost: mail@bulliesout.com

Anti-Bullying Alliance – Gwybodaeth ar gyfer ysgolion, rhieni/gofalwyr a phlant a phobl ifanc ynghylch pob agwedd o fwlio. (Saesneg yn unig.)
www.anti-bullyingalliance.org.uk

Kidscape – Elusen gwrth-fwlio sy'n rhedeg gweithdai ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi cael eu bwlio. (Saesneg yn unig.)
www.kidscape.org.uk

Gwobr Diana – Mae'n hyfforddi llysgenhadon gwrth-fwlio ifanc i helpu eraill. (Saesneg yn unig.)
www.antibullyingpro.com

Llinellau cymorth a gwasanaethau cymorth

Cyffredinol

Samariaid – Elusen sy'n ymroddedig i leihau teimladau o unigedd a datgysylltiad a all arwain at hunanladdiad. Mae e-bost, sgwrsio byw a gwasanaethau eraill ar gael.
www.samaritans.org/england-cy/samaritans-cymru
Rhif ffôn: 0808 164 0123 (Llinell gymorth Gymraeg – ffoniwch yn rhad ac am ddim)
Rhif ffôn: 116 123 (Llinell gymorth Saesneg – ffoniwch yn rhad ac am ddim)

Rethink Mental Illness – Cyngor a gwybodaeth i bobl sydd ag anawsterau iechyd meddwl. (Saesneg yn unig.)
www.rethink.org
Rhif ffôn: 0300 500 0927

Mencap Cymru – Cyngor a gwybodaeth ynghylch anableddau dysgu.
https://wales.mencap.org.uk/cy
Rhif ffôn: 0808 8000 300

Plant a phobl ifanc

Meic – Cyngor, gwybodaeth ac eiriolaeth ar gyfer pobl ifanc.
www.meiccymru.org/cym

Childline – Mae'n darparu cwnsela ar gyfer unrhyw un sydd o dan 19 oed yn y DU. (Saesneg yn unig.)
www.childline.org.uk
Rhif ffôn: 0800 1111

Kooth – Platfform cwnsela a lles emosiynol ar-lein ar gyfer plant a phobl ifanc. (Saesneg yn unig.)
www.kooth.com

CALL (Llinell Gyngor a Gwrando'r Gymuned) – Cymorth emosiynol a gwybodaeth/llenyddiaeth gysylltiedig ynghylch iechyd meddwl a materion cysylltiedig ar gyfer pobl Cymru.
www.callhelpline.org.uk/DefaultW.asp?

Rhieni/gofalwyr

Family Lives – Cymorth a chyngor i rieni/gofalwyr. (Saesneg yn unig.)
Rhif ffôn: 0808 800 2222

ParentZone – Cymorth a chyngor i rieni/gofalwyr. (Saesneg yn unig.)
www.parentzone.org.uk

YoungMinds – Cymorth i helpu i wella iechyd meddwl plant a phobl ifanc. (Saesneg yn unig.)
www.youngminds.org.uk
Rhif ffôn: 0808 802 5544 (llinell gymorth ar gyfer rhieni/gofalwyr)

Ysgolion/gweithwyr proffesiynol

Llinell Gymorth Diogelwch Ar-lein Gweithwyr Proffesiynol – Ar gyfer y sawl sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc y mae arnynt angen cymorth ynghylch materion ar-lein. (Saesneg yn unig.)
Rhif ffôn: 0344 381 4772
e-bost: helpline@saferinternet.org.uk

Rhwydweithiau cyngor a chymorth

Cyffredinol

Internet Watch Foundation – Ar gyfer rhoi gwybod am ddelweddau o gam-drin plant ar-lein. (Saesneg yn unig.)
www.iwf.org.uk

Cymorth i Ddioddefwyr – Rhoi gwybod am droseddau casineb yng Nghymru.
www.reporthate.victimsupport.org.uk/cy/cartref

CEOP (Camfanteisio ar Blant ac Amddiffyn Ar-lein) – Os amheuir achosion o gam-drin plant yn rhywiol neu gamfanteisio'n rhywiol ar blant. (Saesneg yn unig.)
www.ceop.police.uk

NSPCC – Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (Saesneg yn unig.)
www.nspcc.org.uk
Rhif ffôn: 0808 800 5000

Mental Health Matters Wales – Mae'n gweithio gyda phobl sydd ag anhawster sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl. (Saesneg yn unig.)
www.mhmbcb.com/index.htm

Plant a phobl ifanc

Heads Above The Waves – Cymorth i blant a phobl ifanc sy'n profi iselder neu'n hunan-niweidio. (Saesneg yn unig.)
http://hatw.co.uk/straight-up-advice

Rhieni/gofalwyr

Internet Matters – Cyngor ynghylch materion ar-lein ar gyfer rhieni/gofalwyr a phlant a phobl ifanc. (Saesneg yn unig.)
www.internetmatters.org.uk

Adnoddau ar gyfer ysgolion

EACH (Gweithredu Addysgol sy'n Herio Homoffobia) – Mae'n darparu gwasanaethau i ysbrydoli cydraddoldeb ar gyfer pobl sy'n lesbiaid, yn hoyw, yn ddeurywiol ac yn drawsrywiol. (Saesneg yn unig.)
https://each.education

Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth – Hyfforddiant ac adnoddau i fynd i'r afael â hiliaeth yn y gymdeithas. (Saesneg yn unig.)
www.theredcard.org

Canolfan Cymorth ACE Cymru – Pecyn cymorth ar gyfer staff ysgolion ynghylch profiadau niweidiol yn ystod plentyndod.
www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/tudalen/88518

Grid Dysgu'r De-orllewin (SWGfL) – Adnodd hunanwerthuso ar gyfer ysgolion a chanllawiau. (Saesneg yn unig.)
www.swgfl.org.uk

Eraill

School Beat – Rhaglen Graidd Cyswllt Ysgolion Cymru Gyfan.
www.schoolbeat.cymru/cy/rhieni/adnabod-y-rhaglen/digwyddiadau-cenedlaethol/beth-ywr-rhaglen-graidd-cyswllt-ysgolion-cymru-gyfan

Plant yng Nghymru – www.plantyngnghymru.org.uk/ein-gwaith/bwlio

Comisiynydd Plant Cymru – www.complantcymru.org.uk

Amser i Newid Cymru – Ymgyrch ar gyfer pobl ifanc, sy'n ceisio newid agweddau tuag at iechyd meddwl, dileu stigma a gwahaniaethu.
www.timetochangewales.org.uk/cy/ymgyrchoedd/gallwnagwnawn

Materion ar-lein

Childnet International – Cymorth ynghylch pob agwedd o ddiogelwch ar-lein. (Saesneg yn unig.)
www.childnet.com